

“Sefyllfa argyfyngus”

Yr angen i fynd ati ar frys i
wella cymorth i ofalwyr di-dâl

Ebrill 2026



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/Seneddlechyd

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Seneddlechyd@senedd.cymru**
X: **@Seneddlechyd**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

“Sefyllfa argyfyngus”

Yr angen i fynd ati ar frys i wella cymorth i ofalwyr di-dâl

Ebrill 2026



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/Seneddlechyd

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**Cadeirydd y Pwyllgor:
Peter Fox AS**
Ceidwadwyr Cymreig



Mabon ap Gwynfor AS
Plaid Cymru



James Evans AS
Reform UK



John Griffiths AS
Llafur Cymru



Lesley Griffiths AS
Llafur Cymru



Joyce Watson AS
Llafur Cymru

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn.



Sioned Williams AS
Plaid Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	5
Casgliadau ac argymhellion	7
1. Y Cefndir	15
Yr ystadegau diweddaraf	15
Tystiolaeth o ymchwiliadau ac adroddiadau blaenorol	16
Dull gweithredu Llywodraeth Cymru	18
2. Ymchwiliad y Pwyllgor.....	20
3. Rhwystrau sy’n atal gofalwyr di-dâl rhag cael mynediad at gymorth.....	22
Ymwybyddiaeth o ofalwyr a nodi gofalwyr	22
Ein barn ni – ymwybyddiaeth.....	28
Hawliau cyfreithiol nad ydynt yn cael eu bodloni.....	30
‘Yn fodlon ac yn gallu’ darparu gofal.....	35
Ein barn ni – hawliau cyfreithiol nad ydynt yn cael eu bodloni	41
Effaith gofalu	46
Iechyd a llesiant gofalwyr	46
Y caledi ariannol sy’n wynebu gofalwyr.....	50
Ein barn ni – iechyd, llesiant a chaledi	53
4. Gwasanaethau seibiant a chymorth	56
Argaeledd gwasanaethau seibiant.....	56
Cynllun Seibiannau Byr (a mentrau eraill).....	62
Heriau comisiynu a chyllido	65
Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol	71
Ein barn ni.....	72
5. Heriau penodol sy’n wynebu gofalwyr ifanc	76

“Sefyllfa argyfyngus”

Yr angen i fynd ati ar frys i wella cymorth i ofalwyr di-dâl

Gofalwyr ifanc mewn addysg.....	77
Data am ofalwyr ifanc.....	82
Cardiau Adnabod Gofalwyr Ifanc.....	84
Ein barn ni.....	86

6. Data ar ofalwyr di-dâl.....90

Tystiolaeth gan y Gweinidog.....	92
Ein barn ni.....	92

Atodiad 1 : Rhestr o’r sesiynau tystiolaeth lafar.95

Rhagair y Cadeirydd

“I have improved the quality of life of a person.

I have given a person the opportunity to defy all expectations.

I keep a person alive.

On my own.”

*Dyfyniad o gerdd gan ofalwr di-dâl
a gymerodd ran yn rhaglen ymgysylltu'r ymchwiliad*

Yn 2019, cyhoeddodd y pwyllgor â'n rhagflaenodd adroddiad a ddywedodd fod gofalwyr di-dâl yn teimlo'n "anobeithiol, eu bod yn cael eu tanbrizio a'u bod yn cael eu trin heb lawer o barch". Galwodd am ffocws ac arweinyddiaeth genedlaethol gref, a chmau gweithredu prydlon a phendant i sicrhau bod yr hawliau a'r gefnogaeth a addawyd i ofalwyr yn cael eu darparu.

A hithau bellach yn 2026, fel y mae geiriau'r gofalwr di-dâl hwn a gymerodd ran yn ein hymchwiliad yn eu dangos yn glir, nid oes fawr wedi newid.

Clywsom yn uniongyrchol gan ofalwyr sy'n oedolion a gofalwyr ifanc am yr anawsterau y maent yn eu hwynebu o ddydd i ddydd wrth geisio ymdopi â'u rolau gofalu. Roedd eu tystiolaeth yn bwerus ac, ar adegau, yn ddirdynnol.

Dywedodd gofalwyr wrthym eu bod mewn sefyllfa argyfyngus. Eu bod wedi gorfod “erfyn” ac “ymladd” am gymorth, ar gyfer y bobl y maent yn gofalu amdanynt ac ar eu cyfer nhw eu hunain, ac er iddynt gysylltu â gwasanaethau statudol am gymorth a chefnogaeth, nid oedd dim ar gael iddynt.

Mae llawer iawn ohonynt wedi treulio blynyddoedd fel gofalwr di-dâl heb sylweddoli hynny. Er gwaetha'r ffaith iddynt gael llawer o gyswllt â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, nid ydynt wedi cael eu nodi fel gofalwr, nid ydynt wedi cael eu cyfeirio at wasanaethau, ac nid ydynt wedi cael gwybodaeth na chynghor a allai fod wedi eu helpu.

Dywedodd gofalwyr ifanc wrthym eu bod yn treulio eu hamser yn yr ysgol yn poeni'n barhaus am y sawl y maent yn gofalu amdano gartref; eu bod yn colli cyfleoedd i fod gyda'u ffrindiau ac i gael gwaith rhan-amser, a bod eu siawns o

“Sefyllfa argyfyngus”

Yr angen i fynd ati ar frys i wella cymorth i ofalwyr di-dâl

fynd ymlaen i'r coleg neu'r brifysgol yn gyfyngedig iawn oherwydd nad oes neb i ymgymryd â'u rôl ofalu.

Mae'r adroddiad hwn, sy'n dod ar ddiwedd y Chweched Senedd, yn alwad i Lywodraeth newydd Cymru weithredu. Bwriad pob argymhelliad yw mynd i'r afael â'r materion penodol a nodwyd yn ein hymchwiliad. Gyda'i gilydd, byddai'r mesurau hyn yn helpu i drawsnewid y cymorth sydd ar gael i ofalwyr di-dâl yng Nghymru; o adnabod y gofalwyr hyn yn gynnar a hawliau clir, i wasanaethau ymarferol fel seibiant a chymorth ariannol ac emosiynol, a phob un wedi'i ategu gan ddata cadarn ac arweinyddiaeth bendant.

Rydym yn annog Llywodraeth newydd Cymru i dderbyn yr argymhellion hyn ac i weithredu arnynt yn gyflym. Mae gofalwyr di-dâl wedi ysgwyddo beichiau trwm am gyfnod rhy hir, ac mae'r dystiolaeth yn glir - rhaid i Cymru wneud yn llawer gwell dros y rhai sydd wrth wraidd ein system ofal



Peter Fox AS

Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Casgliadau ac argymhellion

Casgliad 1. Dylai'r Pwyllgor a fydd yn ein holynu ystyried cynnal ymchwiliad yn ystod cyfnod y Senedd nesaf i graffu ar sut y cyflawnir yr ymrwymadau i ofalwyr di-dâl, a'r canlyniadau allweddol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) weithredu argymhellion yn yr adroddiad hwn a Chynllun Cyflawni'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl.....Tudalen 46

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth newydd Cymru weithio gyda gofalwyr di-dâl a sefydliadau cymorth i ofalwyr er mwyn cynllunio a hyrwyddo ymgyrch ymwybyddiaeth genedlaethol. Dylai'r ymgyrch hon hyrwyddo'r cysyniad o “ofalwyr di-dâl,” eu hannog i hunanadnabod, a rhoi cyhoeddusrwydd i sut i gael cymorth. Dylai gynnwys allgymorth drwy feddygfeydd, ysbytai, fferyllfeydd, ysgolion, gweithleoedd, a lleoliadau cymunedol (gan gynnwys lleoedd y mae pobl hŷn a chymunedau ethnig leiafrifol yn eu mynychu).Tudalen 29

Argymhelliad 2. Er mwyn hyrwyddo nodi gofalwyr di-dâl mewn lleoliadau iechyd yn y maes gofal sylfaenol, dylai Llywodraeth newydd Cymru ystyried ailgyflwyno cymhellion wedi'u targedu i ofal sylfaenol i nodi gofalwyr a'u cyfeirio at wybodaeth a chymorth priodol.....Tudalen 29

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth newydd Cymru annog byrddau iechyd i sicrhau bod gan bob ysbyty drefniadau ar waith, fel swyddogion cymorth i ofalwyr, i nodi gofalwyr yn ystod apwyntiadau cleifion allanol, pan fyddant yn derbyn cleifion mewnol ac wrth baratoi ar gyfer rhyddhau cleifion, ynghyd â gweithdrefnau clir i gynnwys a hysbysu'r gofalwr ar bob cam.....Tudalen 29

Argymhelliad 4. Dylai pob gweithiwr proffesiynol ym maes iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg gael hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o ofalwyr, er mwyn eu galluogi i adnabod yr arwyddion bod rhywun yn ofalwr di-dâl ac ymateb yn briodol i hynny. Dylai Llywodraeth newydd Cymru weithio ar draws portffolios i sicrhau bod yr argymhelliad hwn yn cael ei roi ar waith yn llawn.....Tudalen 29

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth newydd Cymru, mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol a'r trydydd sector, ymchwilio i ddulliau arloesol o ddod o hyd i ofalwyr 'cudd'. Gallai hyn gynnwys gwell defnydd o ddata a thechnoleg (yn unol ag awgrym y Comisiynydd Pobl Hŷn) i adnabod unigolion a allai fod mewn rolau gofalu (megis y rhai sy'n casglu presgripsiynau'n aml neu'n gwneud apwyntiadau iechyd i eraill) a chynnig gwybodaeth a chynghor, gwasanaeth cyfeirio ac asesiadau o anghenion gofalwyr yn rhagweithiol ac ar gam cynnar.....Tudalen 29

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth newydd Cymru, fel blaenoriaeth, adolygu’r cynllun gweithredu (dan arweiniad ADSS) ar gyfer cynnal hawliau gofalwyr di-dâl o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 er mwyn sicrhau ei fod:

- yn amlinellu camau gweithredu, llinellau cyfrifoldeb a cherrig milltir clir;
- yn cynnwys camau i wella’r cynnig a’r nifer sy’n manteisio ar asesiadau o anghenion a sicrhau bod gofalwyr yn cael gwasanaethau cymorth amserol;
- mynd i’r afael â rhwystrau hysbys, gan gynnwys rhwystrau ieithyddol a diwylliannol; ac
- amlinellu sut y bydd cynnydd yn cael ei fonitro a sut yr adroddir arno,

a dylai sicrhau yr eir i’r afael ag unrhyw fylchau yn y cynllun.....Tudalen 43

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth newydd Cymru ystyried cyflwyno safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymorth i ofalwyr. Gallai’r safonau hyn gynnwys:

- pennu’r amseroedd aros hiraf ar gyfer asesiadau gofalwyr;
- y disgwyliadau ar gyfer yr ystod o wasanaethau gofalwyr a ddylai fod ar gael fel isafswm ym mhob rhanbarth (megis gwasanaeth gofalwyr ifanc pwrpasol);
- cynnig rhagweithiol o wybodaeth a chyingor, ac eiriolaeth i’r rhai sydd ei angen; a
- y disgwyliadau o ran cynnwys gofalwyr mewn prosesau cynllunio gofal a phrosesau rhyddhau o’r ysbyty.

Dylid cyflwyno’r safonau hyn law yn llaw â chyhoeddi adroddiad cynnydd blynyddol, a ddylai ddarparu manylion y camau gweithredu i’w cymryd gan Lywodraeth Cymru lle nad yw safonau gofynnol wedi’u bodloni.....Tudalen 43

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth newydd Cymru ystyried diweddarau canllawiau statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i gryfhau’r safonau ar gyfer Asesiadau Anghenion Gofalwyr. Dylai hyn, fan leiaf:

- ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth, cyngor a chymorth ac asesiadau o anghenion gael eu cynnig yn rhagweithiol i bobl a allai fod yn ofalwyr, a'i gwneud yn ofynnol i asesiadau a chynlluniau cymorth gael eu cwblhau mewn modd amserol o fewn cyfnod penodol o amser, gyda chopi ysgrifenedig yn cael ei ddarparu i'r gofalwr;
- ymchwilio i'r defnydd o derminoleg amgen (megis “sgwrs am yr hyn sy'n bwysig”) i ddisodli'r gair “asesiad,” sy'n atal rhai gofalwyr rhag eu mynychu;
- pwysleisio'r angen i'r broses asesu gael ei chynnal gyda'r gofalwr mewn ffordd gydweithredol a pharchus. Tudalen 44

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth newydd Cymru sicrhau bod y canllawiau wedi'u diweddarau ar ryddhau pobl o'r ysbyty sydd i'w cyhoeddi yn ddiweddarach eleni:

- yn cadarnhau pwysigrwydd trafodaethau cynnar gyda theuluoedd i sicrhau bod pobl yn cael eu rhyddhau'n ddiogel ac effeithiol;
- yn ei gwneud yn ofynnol i bob bwrdd iechyd gael mecanwaith ym mhob ysbyty (megis hyrwyddwr gofalwyr dynodedig) i ymgynghori â'r gofalwr cyn rhyddhau rhywun o'r ysbyty ac, os yw'r gofalwr hwnnw'n dweud nad yw'n gallu darparu gofal, i weithio gyda'r awdurdod lleol i ddarparu cymorth er mwyn gwneud trefniadau gofal amgen;
- yn gofyn am gadarnhad bod y gofalwr yn fodlon ac yn gallu darparu'r gofal angenrheidiol, ac yn rhoi gwybodaeth i'r darpar ofalwr am ei hawliau cyfreithiol. Tudalen 44

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth newydd Cymru sicrhau bod y Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yn cael ei hategu gan fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd cryf, a chynllun gweithredu clir sy'n cysylltu nodau strategol â chanlyniadau mesuradwy. Tudalen 45

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth newydd Cymru ystyried cyflwyno gofyniad i bob Gweinidog perthnasol adrodd ar sut mae ei bortffolio yn cyfrannu at gefnogi gofalwyr di-dâl er mwyn sicrhau bod cyfrifoldeb am ofalwyr di-dâl yn cael ei rannu ar draws y llywodraeth. Tudalen 45

Argymhelliad 12. O ystyried y diffyg cynnydd tra hysbys ers peth amser gyda gwasanaethau i ofalwyr di-dâl, credwn fod goruchwyliaeth allanol yn hanfodol.

“Sefyllfa argyfyngus”

Yr angen i fynd ati ar frys i wella cymorth i ofalwyr di-dâl

Dylai Llywodraeth newydd Cymru ymrwymo i ddarparu datganiad blynyddol i'r Senedd ar y cynnydd o ran cyflawni canlyniadau allweddol ar gyfer gofalwyr di-dâl, gan gynnwys gweithredu'r argymhellion yn yr adroddiad hwn a Chynllun Cyflawni'r Strategaeth Gofalwyr. Dylai'r datganiadau hyn:

- fanylu ar welliannau mewn meysydd gan gynnwys cyfraddau Asesiadau Gofalwyr, gofal seibiant, a chymorth i ofalwyr ifanc; ac
- amlinellu unrhyw gamau pellach y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd os bydd y cynnydd yn anfoddhaol. Tudalen 46

Argymhelliad 13. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfarwyddyd i Arolygiaeth Gofal Cymru i integreiddio gwiriadau cydymffurfiaeth parhaus ar gymorth i ofalwyr a dyletswyddau statudol sy'n ymwneud â gofalwyr di-dâl yn eu gwaith arolygu a monitro rheolaidd ar awdurdodau lleol.....Tudalen 46

Argymhelliad 14. Yn dilyn y ffaith i'r Gweinidog gytuno ag Arolygiaeth Gofal Cymru y bydd eu cyfarfodydd sicrwydd chwemisol nesaf gyda Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (sydd i'w cynnal ym mis Ebrill 2026) yn cynnwys cymorth i ofalwyr di-dâl fel pwnc trafod allweddol, dylai Llywodraeth newydd Cymru ysgrifennu at y pwyllgor a fydd yn ein holynu o fewn chwe mis er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddatblygiadau sy'n deillio o'r cyfarfodydd hynny a manylion y camau nesaf y cytunwyd arnynt.....Tudalen 46

Argymhelliad 15. Fel rhan o waith trawslywodraethol, dylai Llywodraeth newydd Cymru ystyried creu cynllun cymhorthion ac addasiadau cartref cyflym i ofalwyr di-dâl ar gyfer cymhorthion ac addasiadau cartref hanfodol a nodir fel rhan o asesiad o anghenion.....Tudalen 46

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth newydd Cymru weithio gyda byrddau iechyd ac awdurdodau lleol i sefydlu system ffurfiol i sicrhau bod gofalwyr yn cael cymorth amserol ar gyfer eu hiechyd a'u llesiant meddyliol. Dylai hyn gynnwys cynnig apwyntiadau hyblyg ac archwiliadau iechyd rheolaidd i'r rhai y nodir eu bod yn ofalwyr di-dâl (yn enwedig y rhai sy'n darparu gofal dwyster uchel), yn ogystal â chyfeirio at grwpiau cymorth cyfoedion neu gymorth iechyd meddwl arall.....Tudalen 54

Argymhelliad 17. Rhaid i ofalwyr gael eu cydnabod fel grŵp blaenoriaeth mewn strategaethau a chynlluniau gweithredu iechyd meddwl ac atal hunanladdiad. Dylai Llywodraeth newydd Cymru adrodd ar sut y mae'n mynd i'r afael â'r risg

uwch o hunanladdiad ymhlith gofalwyr, gan gynnwys yn y cynllun gweithredu arfaethedig ar atal hunanladdiad.....Tudalen 54

Argymhelliad 18. Rhaid i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sicrhau, drwy eu gwasanaethau seibiant a gofal cartref, y gall gofalwyr ddiwallu eu hanghenion iechyd eu hunain. Dylai pob awdurdod lleol ddatblygu gwasanaeth rhyddhau neu wasanaeth eistedd i ofalwyr fel y gallant fynychu apwyntiadau meddygol. Dylai Llywodraeth Cymru fonitro darpariaeth y gwasanaethau hyn, a dylai ystyried cyhoeddi canllawiau cenedlaethol i sicrhau bod gofal amgen ar gyfer iechyd gofalwyr yn gynnig safonol ledled Cymru.....Tudalen 54

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth newydd Cymru gynnal astudiaeth ddichonoldeb ar ddarparu Tâl Atodol i Ofalwyr sy'n benodol i Gymru neu gymorth ariannol uniongyrchol arall i ofalwyr, a chyhoeddi ei chanfyddiadau. Dylai wneud hyn o fewn y 12 mis nesaf.Tudalen 55

Argymhelliad 20. Yn y tymor byrrach, dylai Llywodraeth newydd Cymru ystyried gweithredu taliadau cymorth untro ychwanegol i ofalwyr di-dâl sydd fwyaf mewn perygl o wynebu tlodi tanwydd ac argyfwng ariannol (er enghraifft, drwy efelychu ac ehangu'r fenter taliadau £500 i ofalwyr). Dylid rhoi cyhoeddusrwydd da i daliadau o'r fath a'u rhoi i bobl yn awtomatig lle bo modd er mwyn osgoi niferoedd bach o bobl yn manteisio arnynt oherwydd diffyg ymwybyddiaeth neu rwystrau gweinyddol.....Tudalen 55

Argymhelliad 21. Dylai Llywodraeth newydd Cymru ystyried cynyddu'r cyllid blynyddol ar gyfer y Gronfa Cymorth i Ofalwyr mewn ymateb i'r dystiolaeth glir o angen ymhlith gofalwyr, ac ymrwymo i hyrwyddo'r Gronfa'n rhagweithiol fel bod mwy o ofalwyr mewn angen yn ymwybodol ohoni.....Tudalen 55

Argymhelliad 22. Dylai Llywodraeth newydd Cymru sicrhau bod gofalwyr yn cael eu cydnabod fel grŵp blaenoriaeth pan fydd yn datblygu ymyriadau gwrthdlodi yng Nghymru.....Tudalen 55

Argymhelliad 23. Dylai Llywodraeth newydd Cymru ddatblygu cynllun gweithredu cynhwysfawr i ehangu a gwella'r ddarpariaeth gofal seibiant i ofalwyr di-dâl. Dylai hyn:

- gynnwys safonau gofynnol ar gyfer darparu gofal seibiant a gofal amgen ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru, gan gynnwys sicrhau darpariaeth ddigonol o ofal dros nos a gofal brys;

- monitro'r ddarpariaeth yn erbyn y safonau gofynnol hynny; a
- cyhoeddi'r canfyddiadau'n flynyddol, ynghyd â manylion y camau y bydd yn eu cymryd os bydd unrhyw awdurdod lleol yn methu'n gyson â darparu'r lefel ofynnol o ofal seibiant. Tudalen 74

Argymhelliad 24. Er mwyn sicrhau sefydlogrwydd mewn gwasanaethau cymorth i ofalwyr, dylai Llywodraeth newydd Cymru ystyried newid i drefniadau ariannu amlflwyddyn ar gyfer y trydydd sector ac awdurdodau lleol, yn debyg i'r ymrwymïadau ariannu amlflwyddyn ar gyfer rhaglenni pwysig fel y Cynllun Seibiannau Byr a'r Gronfa Cymorth i Ofalwyr. Lle bo modd, dylai annog a galluogi Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, awdurdodau lleol a byrddau iechyd i gynnig contractau tair i bum mlynedd ar gyfer gwasanaethau allweddol i ofalwyr, a dylai'r Llywodraeth ei hun geisio cyhoeddi cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth i ofalwyr yn gynnar yn y flwyddyn ariannol er mwyn helpu'r trydydd sector i gynllunio, a recriwtio a chadw staff..... Tudalen 74

Argymhelliad 25. Dylai Llywodraeth newydd Cymru ystyried clustnodi'r cyllid a ddarperir ar gyfer gwasanaethau seibiant a chymorth i ofalwyr. Tudalen 74

Argymhelliad 26. Dylai Llywodraeth newydd Cymru wella tryloywder ac atebolrwydd drwy ei gwneud yn ofynnol i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gyllid a pherfformiad gofalwyr, gan fanylu ar faint o gyllid sy'n cael ei wario ar wasanaethau gofalwyr yn y rhanbarth, o ba ffynhonnell y daw, a'r canlyniadau sy'n cael eu cyflawni..... Tudalen 74

Argymhelliad 27. Rhaid i Lywodraeth newydd Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i wella'r ffordd y maent yn ymgysylltu â gofalwyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol, gyda'r nod o gydgyhyrchu gwasanaethau seibiant sy'n ddiwylliannol sensitif ac sy'n mynd i'r afael ag anghenion cymunedau amrywiol o ofalwyr. Dylai Llywodraeth Cymru fonitro'r cynnydd yn hyn o beth..... Tudalen 75

Argymhelliad 28. Dylid cydgynhyrchu cymorth a gwasanaethau i ofalwyr di-dâl gyda gofalwyr di-dâl ar bob lefel – yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. I'r perwyl hwn, credwn y dylai Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol newydd gryfhau llais gofalwyr di-dâl yn y broses o wneud penderfyniadau a gwella eu cynrychiolaeth ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. I'r perwyl hwn, dylid annog nifer o gynrychiolwyr gofalwyr ar bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a dylai pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ddarparu cymorth gwell i gynrychiolwyr gofalwyr, gan gynnwys hyfforddiant, tâl cydnabyddiaeth a gofal amgen lle y bo'n briodol, er mwyn galluogi gofalwyr i gael

eu cynnwys mewn ffordd ystyrlon, a mynychu a chymryd rhan lawn, mewn cyfarfodydd. Dylai Llywodraeth newydd Cymru ymrwymo i barhau i ariannu'r trydydd sector i gefnogi cynrychiolwyr gofalwyr ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.....Tudalen 75

Argymhelliad 29. Dylai Llywodraeth newydd Cymru sicrhau bod hyfforddiant a chanllawiau i staff ysgolion ynglŷn â gofalwyr ifanc yn cael eu datblygu a'u darparu, a'u cydgynhyrchu gan ofalwyr ifanc.....Tudalen 87

Argymhelliad 30. Dylai Llywodraeth newydd Cymru annog pob ysgol a choleg yng Nghymru i benodi hyrwyddwr gofalwyr ifanc neu aelod arweiniol o staff â chyfrifoldeb dros ofalwyr ifanc. Dylai Llywodraeth newydd Cymru ymchwilio i ymgorffori addysg am ofalwyr ifanc mewn rhaglenni neu fframweithiau llesiant, fel bod pob myfyriwr a staff yn ymwybodol o beth yw gofalwyr ifanc a sut i gael cymorth iddynt.....Tudalen 87

Argymhelliad 31. Rhaid i Lywodraeth newydd Cymru sicrhau bod hawliau gofalwyr ifanc yn cael eu cynnal yn llawn ac nad oes unrhyw blentyn na pherson ifanc yn gorfod darparu lefelau amhriodol o ofal. Dylai Llywodraeth newydd Cymru gyhoeddi canllawiau newydd sy'n pwysleisio bod gan ofalwyr ifanc hawl i beidio ag ysgwyddo cyfrifoldebau gofalu gormodol neu amhriodol, ac sy'n amlinellu cyfrifoldebau awdurdodau lleol, ysgolion, a gwasanaethau iechyd a chymdeithasol i gefnogi gofalwyr ifanc yn unol â hynny.....Tudalen 87

Argymhelliad 32. Rhaid i Lywodraeth newydd Cymru gyflymu'r gwaith o weithredu'n llawn yr argymhellion ynghylch data am ofalwyr ifanc a wnaed gan Estyn yn ei adroddiad a gyhoeddwyd yn 2019. Tudalen 88

Argymhelliad 33. Dylai Llywodraeth Cymru nodi cyllid ychwanegol o fewn cyllidebau perthnasol Llywodraeth Cymru, a hynny ar fyrder, er mwyn darparu cymorth uniongyrchol i gyflawni cynllun cardiau adnabod gofalwyr ifanc yn llawn ar draws pob awdurdod lleol. Dylai fonitro canlyniadau'r camau gweithredu hyn. Tudalen 88

Argymhelliad 34. Dylai Llywodraeth newydd Cymru annog awdurdodau lleol yn gryf i gynyddu'r defnydd o'r cerdyn adnabod gofalwyr ifanc a dylai gyhoeddi data blynyddol ar nifer y cardiau adnabod gofalwyr ifanc a gyhoeddwyd gan bob awdurdod lleol er mwyn olrhain y cynnydd o ran cyflawni'r cynllun..... Tudalen 89

Argymhelliad 35. Cyn cyhoeddi'r set ddata genedlaethol newydd ar ofalwyr di-dâl ym mis Ebrill 2027, dylai Llywodraeth newydd Cymru ystyried cyhoeddi

“Sefyllfa argyfyngus”

Yr angen i fynd ati ar frys i wella cymorth i ofalwyr di-dâl

adroddiad data interim sy’n dwyn ynghyd ddata presennol ar ddangosyddion allweddol, gan gynnwys nifer y gofalwyr a nodwyd; nifer yr asesiadau a gynigiwyd ac a gwblhawyd; amseroedd aros ar gyfer asesiadau a chynlluniau cymorth i ofalwyr; y mathau o gymorth a ddarperir; a nifer y gofalwyr sy’n cael seibiannau. Dylai anelu at wneud hyn cyn diwedd 2026.....Tudalen 93

1. Y Cefndir

1. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) yn diffinio ‘gofalwr’ fel person sy’n darparu neu’n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl, lle nad yw hyn yn cael ei ddarparu dan contract na thrwy waith gwirfoddol.
2. Mae ‘gofalwyr ifanc’ yn cyfeirio at blant a phobl ifanc hyd at 18 oed. Mae ‘gofalwr sy’n oedolyn ifanc’ yn cyfeirio at y rhai rhwng 18 a 25 oed. Mae gofalwyr ifanc yn wynebu heriau penodol a gwahanol sy’n gofyn am gymorth wedi’i deilwra. Ystyrir y rhain ym Mhennod 5 o’r adroddiad hwn.

Yr ystadegau diweddaraf

3. Yn ôl Cyfrifiad 2021¹:
 - Dywedodd mwy na 310,000 o bobl (un o bob 11) yng Nghymru eu bod yn darparu gofal di-dâl (10.5%).
 - Mae dros 107,000 o bobl yng Nghymru yn darparu dros 50 awr o ofal di-dâl bob wythnos.
4. Mae data diweddaraf Llywodraeth Cymru ar weithgarwch gwasanaethau cymdeithasol yn dangos y canlynol ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024:

Cyswllt â gwasanaethau cymdeithasol

- Cafodd gwasanaethau cymdeithasol statudol 11,536 o gysylltiadau gan ofalwyr sy’n oedolion nad oeddent yn derbyn cymorth (fel gofalwr) ar adeg y cyswllt, neu gan weithwyr proffesiynol a oedd yn cysylltu â’r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ar eu rhan.
- Cafodd gwasanaethau cymdeithasol statudol 2,366 o gysylltiadau gan ofalwyr ifanc nad oeddent yn derbyn cymorth (fel gofalwr) ar adeg y cyswllt, neu gan weithwyr proffesiynol a oedd yn cysylltu â’r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ar eu rhan.

¹ Gofal di-dâl, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021

“Sefyllfa argyfyngus”

Yr angen i fynd ati ar frys i wella cymorth i ofalwyr di-dâl

Cafwyd cyfanswm o 13,902 o gysylltiadau gan ofalwyr.

Asesiadau o ofalwyr

- Cwblhawyd 7,510 o asesiadau newydd ar gyfer gofalwyr sy’n oedolion nad oedd ganddynt gynllun cymorth eisoes.
- Cwblhawyd 1,468 o asesiadau newydd ar gyfer gofalwyr ifanc nad oedd ganddynt gynllun cymorth eisoes support plan.

Cwblhawyd cyfanswm o 8,978 o asesiadau newydd ar gyfer gofalwyr.

Cynlluniau cymorth i ofalwyr

Ar 31 Mawrth 2024:

- Roedd gan 3,186 o ofalwyr sy’n oedolion gynllun cymorth.
- Roedd gan 1,728 o ofalwyr ifanc gynllun cymorth.

Roedd gan gyfanswm 4,924 o ofalwyr gynllun cymorth.

5. Mae Gofalwyr Cymru yn amcangyfrif y gallai fod cymaint â 500,000 o ofalwyr yng Nghymru.

6. Mae nifer cynyddol o ofalwyr yn gofalu am fwy nag un person. Yn ôl ymchwiliad gan Gofalwyr Cymru, mae 22% o ofalwyr di-dâl yn gofalu am fwy nag un person, gyda rhai yn gofalu am bedwar neu fwy. Mae’r rhai sy’n gofalu am fwy nag un person yn dweud bod eu hiechyd meddwl yn llawer gwaeth: mae 60% yn disgrifio eu hiechyd meddwl fel gwael neu wael iawn, o gymharu â 35% o ofalwyr sy’n gofalu am un person.

Tystiolaeth o ymchwiliadau ac adroddiadau blaenorol

7. Ceir cyfoeth o dystiolaeth sy’n dangos nad yw gofalwyr di-dâl yng Nghymru yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, ac nad yw’r dyletswyddau statudol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) sy’n ymwneud â gofalwyr yn cael eu gweithredu yn unol â’r bwriad.

8. Yn 2019, cynhaliodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y pumed Senedd ymchwiliad i Effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â gofalwyr. Clywodd y Pwyllgor “dystiolaeth bryderus iawn” am yr anawsterau sy’n wynebu gofalwyr o ran cael mynediad at

wasanaethau (oherwydd problemau gyda meini prawf cymhwysra, amseroedd aros hir a diffyg adnoddau) ac o ran priodoldeb y gwasanaethau a gynigir.

9. Adroddodd y Pwyllgor fod mynediad at wasanaethau seibiant priodol wedi'i grybwyll gan bob math o ofalwyr fel un o'r adnoddau pwysicaf i ofalwyr, a daeth i'r casgliad fod “gofal seibiant yn wasanaeth hanfodol i ofalwyr ond mewn llawer o achosion mae'n anodd cael gafael arno, gall fod diffyg darpariaeth addas, ac mae diffyg hyblygrwydd”.

10. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad nad oedd y gwelliant cyfreithiol o ran hawliau wedi dod law yn llaw â phrofiad gwell i ofalwyr. Mae'r adroddiad yn nodi “i gynifer y clywsom ganddynt, mae'r Ddeddf wedi methu â chael unrhyw effaith ystyrlon ar eu bywydau”.

11. Daeth y prosiect ‘Mesur y Mynydd’, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i werthuso profiadau pobl o ofal cymdeithasol yn 2020, i gasgliadau tebyg. Nododd mai'r casgliad yr oedd angen gweithredu arno ar fyrder oedd yr angen i ddarparu gwell cymorth i ofalwyr. Mae'r adroddiad terfynol yn dweud bod y straeon yn dangos nad oedd asesiadau gofalwyr a gwasanaethau seibiant yn aml yn darparu'r cymorth gefnogaeth sydd ei angen ar ofalwyr.

12. Canfu gwerthusiad annibynnol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2023) fod gofalwyr “yn rhy aml yn teimlo na allan nhw gael lleisio eu barn, nad oes neb yn gwrando arnyn nhw nac yn gweithredu ar eu sylwadau”. Nododd fod angen gwneud mwy i gefnogi gofalwyr di-dâl fel blaenoriaeth. Cynhaliodd y Pwyllgor hwn sesiynau tystiolaeth gydag academyddion ar y gwerthusiad ar ôl iddo gael ei gyhoeddi ac ysgrifennodd at y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd i dynnu sylw at ei bryderon.

13. Yn 2022, cynhaliodd y Pwyllgor hwn ymchwiliad ynghylch rhyddhau cleifion o ysbytai a chlywodd dystiolaeth gan gynrychiolwyr gofalwyr. Un o argymhellion y Pwyllgor oedd y dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad cyflym ynghylch a yw hawliau gofalwyr o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael eu torri yn sgil y ffaith eu bod yn gorfod ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau gofalu nag y maent yn fodlon neu'n gallu eu cyflawni, oherwydd nad oes gwasanaethau ar gael.

14. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn a gofynnodd i Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru arwain yr adolygiad. Cyhoeddodd yr ADSS ei hadolygiad cyflym ym mis Mehefin 2023. Mae canfyddiadau'r adolygiad yn cynnwys y canlynol:

“Mae yna restrau aros ar gyfer asesiadau gofalwyr yn y rhan fwyaf o ardaloedd, sy’n atal gofalwyr rhag cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Nid yw asesiadau yn cael eu cynnig i lawer o ofalwyr.

[...] mae’r adborth gan y sampl fawr o ofalwyr a gymerodd ran yn yr adolygiad hwn yn dangos bod diffyg o ran diwallu anghenion gofalwyr. Gallai rhywfaint o hyn ddeillio o’r diffyg ymwybyddiaeth o hawliau gofalwyr a’r cymorth sydd ar gael a sut i’w gael, ond mae hefyd yn adlewyrchu diffyg darpariaeth o ran cymorth neu ddarpariaeth addas lle mae gofalwyr yn byw.

Gofal seibiant yw’r angen mwyaf arwyddocaol nad yw’n cael ei ddiwallu.”²

15. Cynhaliodd Ombwdsmon Cymru ymchwiliad ar ei liwt ei hun i’r ffordd yr oedd Asesiadau o Anghenion Gofalwyr yn cael eu cynnal yn 2024, gan ymchwilio i bedwar awdurdod lleol. Canfu’r adroddiad hwnnw mai dim ond 2.8% o’r boblogaeth gofalwyr yn yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd Iddynt a oedd wedi cael asesiad o’u hanghenion, a dim ond 1.5% o’r boblogaeth gofalwyr yn yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd Iddynt a gafodd asesiad a arweiniodd at gynllun cymorth.³ Cyhoeddodd Ombwdsmon Cymru adroddiad dilynol⁴ ym mis Mawrth 2026 a ganfu, er bod rhai gwelliannau wedi’u gwneud, fod bwlch yn parhau rhwng nifer y bobl sy’n cydnabod eu bod yn ofalwyr a’r rhai sy’n cael asesiadau ffurfiol o’u hanghenion. Gwneir argymhellion pellach i ddau o’r pedwar awdurdod lleol yr ymchwiliwyd iddynt.

Dull gweithredu Llywodraeth Cymru

16. Mae blaenoriaethau Llywodraeth Cymru wedi’u hamlinellu yn ei Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl⁵. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru “waith

² Adolygiad cyflym o sut y cafodd hawliau gofalwyr di-dâl eu cynnal yn ystod ac ar ôl yr ymateb i Covid-19, ADSS Cymru, Mehefin 2023

³ A ydym yn gofalu am ein gofalwyr? Ymchwiliad ar ei Liwt ei Hun i weinyddiad asesiadau o anghenion gofalwyr yng Nghymru, Ombwdsmon Cymru, 2024

⁴ A ydym yn gofalu am ein gofalwyr? Ailymweld: Adroddiad dilynol ar y cynnydd a wnaed i weinyddiad asesiadau o anghenion gofalwyr yn awdurdodau lleol Cymru ers ymchwiliad “Ar ei Liwt ei Hun” OCCC yn 2024, Mawrth 2026

⁵ Strategaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl | LLYW.CYMRU

ymgysylltu helaeth â gofalwyr di-dâl” yn ystod haf 2025 er mwyn datblygu strategaeth ddiwygiedig ar gyfer 2026.⁶

17. Ym mis Mawrth 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Cyflawni 2025 i 2026 ar gyfer Gofalwyr Di-dâl⁷. Mae'r cynllun yn amlinellu meysydd blaenoriaeth uniongyrchol i wella'r gydnabyddiaeth a'r cymorth i ofalwyr di-dâl ledled Cymru.

18. ‘Blaenoriaeth strategol 3’ yn y cynllun cyflawni yw ‘Helpu i fyw yn ogystal â gofalu’, gyda'r nod o gyflawni'r canlyniadau canlynol:

- mae gofalwyr di-dâl yn parhau i elwa ar gyfleoedd seibiannau byr ychwanegol;
- mae gofalwyr di-dâl a chleifion yn elwa ar gyfraniad gofalwyr di-dâl wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty a chynllunio gofal;
- mae gofalwyr di-dâl yn parhau i elwa ar gymorth ariannol brys;
- gall gofalwyr di-dâl gael gafael ar gymorth llesiant priodol.

19. Ym mis Ionawr 2026, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Genedlaethol ddrafft newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd y Strategaeth derfynol yn cael ei chyhoeddi ar ôl etholiad cyffredinol Cymru.⁸

⁶ Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, tystiolaeth ysgrifenedig, 22 Ionawr 2026

⁷ Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl: cynllun cyflawni 2025 i 2026, Llywodraeth Cymru, Mai 2025

⁸ Strategaeth genedlaethol ar gyfer gofalwyr di-dâl 2026 - Drafft, Llywodraeth Cymru, 2 Chwefror 2026. Mae'r ymgynghoriad ar y Strategaeth ddrafft yn dod i ben ar 13 Ebrill 2026.

2. Ymchwiliad y Pwyllgor

21. Nodwyd ‘cefnogaeth a gwasanaethau i ofalwyr di-dâl’ fel blaenoriaeth yn strategaeth y Pwyllgor ar gyfer y Chweched Senedd. At hynny, nododd adolygiad cyflym diweddar ADSS Cymru mai “gofal seibiant yw’r angen mwyaf arwyddocaol nad yw’n cael ei ddiwallu”. Mae’r data diweddaraf (o fis Mawrth 2024) yn dangos mai dim ond 4,923 o ofalwyr oedd â chynllun cymorth statudol.

22. Yng ngoleuni hyn, cytunodd y Pwyllgor i ganolbwyntio ei ymchwiliad ar ddarparu cymorth statudol i ofalwyr di-dâl, a mynediad at gymorth o’r fath, yn enwedig gofal seibiant. Mabwysiadodd y Pwyllgor y cylch gorchwyl a ganlyn ar gyfer yr ymchwiliad:

“Archwilio’r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau gofal seibiant i ofalwyr di-dâl ledled Cymru, a’r mynediad atynt, a nodi newidiadau i wella’r gefnogaeth statudol a galluogi gofalwyr di-dâl i allu byw yn ogystal â gofalu, gan gynnwys:

- *y prif rwystrau y mae gofalwyr di-dâl yn eu hwynebu wrth gael gafael ar y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt; gan gynnwys unrhyw heriau penodol i ofalwyr yn seiliedig ar ffactorau fel oedran, ethnigrwydd neu ble maen nhw’n byw;*
- *y graddau y mae gofal seibiant ar gael ledled Cymru ar hyn o bryd, gan gynnwys faint o amrywiad sydd ar draws y rhanbarthau;*
- *i ba raddau y mae’r galw am wasanaethau cymorth i ofalwyr yn cael ei asesu ac yn cael sylw, a, beth yw lefel yr anghenion sydd heb eu diwallu ar hyn o bryd;*
- *rôl Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wrth ddarparu cefnogaeth i ofalwyr di-dâl, ac effeithiolrwydd arferion comisiynu gwasanaethau ar hyn o bryd;*
- *y camau gweithredu sydd eu hangen i wella gweithrediad darpariaethau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar gyfer gofalwyr di-dâl (gan gynnwys Asesiadau Gofalwyr a chynlluniau cymorth).”*

- 23.** Cyhoeddodd y Pwyllgor alwad agored am dystiolaeth ysgrifenedig, o 23 Gorffennaf 2025 tan 19 Medi 2025. Daeth 42 o ymatebion i law, a chyhoeddwyd y rhan fwyaf ohonynt ar wefan y Pwyllgor.⁹
- 24.** Ar 19 Tachwedd 2025, cynhaliodd y Pwyllgor ddigwyddiad bord gron anffurfiol gyda gofalwyr di-dâl. Mae nodiadau o’r sesiwn hon ar gael ar wefan y Pwyllgor.
- 25.** Hwylusodd tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd nifer o gyfweiliadau a grwpiau ffocws gyda phobl sydd â phrofiad personol o fod yn ofalwyr di-dâl. Cyhoeddodd adroddiad ar ganfyddiadau ei waith ymgysylltu ym mis Tachwedd 2025. Mae hefyd wedi cyhoeddi fersiwn hawdd ei darllen.
- 26.** Cynhaliodd y Pwyllgor nifer o sesiynau tystiolaeth lafar gyda gofalwyr di-dâl, elusennau gofalwyr, rhanddeiliaid perthnasol eraill a’r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol. Mae amserlen y sesiynau tystiolaeth lafar i’w gweld yn **Atodiad 1**.
- 27.** Hoffai’r Pwyllgor ddiolch i bawb a gymerodd ran yn yr ymchwiliad hwn, a hoffai ddiolch yn arbennig i’r gofalwyr di-dâl a roddodd o’u hamser prin i rannu eu profiadau gyda ni.

⁹ Darparwyd dau ymateb gan unigolion a ofynnodd iddynt beidio â chael eu cyhoeddi a dim ond cael eu rhannu ag aelodau'r Pwyllgor; Gwella mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl, tudalen yr ymgynghoriad, Senedd Cymru

3. Rhwystrau sy’n atal gofalwyr di-dâl rhag cael mynediad at gymorth

Ymwybyddiaeth o ofalwyr a nodi gofalwyr

28. Thema glir a gododd o’r dystiolaeth a gawsom yw bod ymwybyddiaeth o ofalwyr a nodi gofalwyr yn parhau i fod yn broblem fawr. Nid yw llawer o ofalwyr yn hunan-adnabod, yn enwedig gofalwyr hŷn a’r rhai o gefndiroedd ethnig leiafrifol. Yn ogystal â hynny, mae llawer o ofalwyr di-dâl wedi bod yn gofalu am gyfnod hir cyn hunan-adnabod neu gael eu hadnabod fel gofalwr gan rywun arall.

29. Dywedodd Judith Russell, sydd wedi bod yn ofalwr di-dâl ers 23 mlynedd:

“I didn’t actually know I was a carer. I cared for my mother because she was my mother. I looked after her. Of course I did. And it wasn’t until about three years ago that I identified as a carer, when I joined the Bridgend carers group.”¹⁰

30. Roedd y disgrifiad hwn yn berthnasol i fwyafrif y gofalwyr di-dâl a siaradodd â ni. Dywedodd y gofalwyr wrthym, er nad oeddent o reidrwydd wedi dewis dod yn ofalwr, eu bod wedi gwneud hynny oherwydd eu cariad tuag at y sawl yr oeddent yn gofalu amdano:

“We do everything for love. If we had not done everything for love, we would not be here today.”¹¹

31. Dywedodd rhanddeiliaid wrthym fod cyfleoedd clir i weithwyr proffesiynol yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol nodi gofalwyr a’u cyfeirio at gymorth, ond bod y cyfleoedd hynny’n cael eu colli’n gyson. Dywedwyd wrthym fod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, yn enwedig meddygon teulu ac ymgynghorwyr, yn aml yn methu ag adnabod gofalwyr. Dywedodd Anne Solely wrthym, wrth ddisgrifio ei phrofiadau o ofalu am ei gŵr:

¹⁰ Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraff 20

¹¹ Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraff 26

“(…) going to the GP, they don’t tell you anything. I have to ask them, and then they just leave me with nothing—no suggestion, nothing.”¹²

32. Yn ôl Judith Russell, mae llawer o ofalwyr yn mynd â’u hanwyliaid i gael asesiadau meddygol, ond nid ydynt yn cael eu nodi fel gofalwyr gan y gweithwyr meddygol proffesiynol y maent yn eu gweld:

“My mother was diagnosed four years ago with vascular dementia, and that was it: ‘You’ve got vascular dementia. Off you go.’ My husband was diagnosed two years ago with Alzheimer’s, and that was it; we had a diagnosis of Alzheimer’s. There’s no offer of help; there are no directions to find help, (...) You’re on your own, completely.”¹³

33. Meddai’r Gweinidog:

“it would be very helpful, if, when one saw the consultant who gives the diagnosis, they had some sort of pamphlet that they could give you and say, ‘Well, these are some organisations that you should perhaps contact.’ (...) but we don’t know where to go. We’re just left with that diagnosis and we have nothing else. We don’t know what to do.”¹⁴

34. Roedd elusennau gofalwyr, gan gynnwys Gofalwyr Cymru, yn cytuno y byddai’n anodd dadlau yn erbyn rhoi mwy o gyfrifoldeb ar wasanaethau iechyd i nodi a chefnogi gofalwyr di-dâl. Cyfeiriodd Gofalwyr Cymru at ymchwil a gynhaliwyd fel rhan o’u harolwg ‘Dilyn y Ddeddf’ diwethaf a oedd wedi gofyn i ofalwyr am y gwasanaethau yr oeddent wedi eu defnyddio dros gyfnod o 12 mis. Dywedwyd wrthym fod 53 y cant wedi nodi gofal sylfaenol, sy’n dangos mai gwasanaethau gofal sylfaenol a ddefnyddir gan ofalwyr yn bennaf, boed hynny ar eu cyfer nhw eu hunain neu’r bobl y maent yn darparu gofal er eu cyfer. Roedd peidio â nodi gofalwyr yn y lleoliadau hyn ar y cyfle cynnar hwnnw, meddent, yn gyfle a gollwyd.¹⁵

¹² Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraff 71

¹³ Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraff 56

¹⁴ Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraff 56

¹⁵ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraffau 82-83

35. Roedd awdurdodau lleol yn cytuno bod angen adnabod gofalwyr di-dâl yn gynharach, a bod angen gwneud hynny ar draws y system ehangach — hynny yw, cyflogwyr, iechyd, addysg, lleoliadau cymunedol, yn ogystal â gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol.¹⁶ Roedd Conffederasiwn GIG Cymru yn cytuno, gan ddweud:

“Critical identification points, such as medical settings (hospitals and GPs), which 72% of carers prefer, only identify 12% of carers. This lack of early identification means carers miss out on information and advice that could prevent them from reaching a crisis point.”¹⁷

36. Awgrymodd y rhanddeiliaid nifer o gamau gweithredu i wella ymwybyddiaeth o ofalwyr ac adnabod gofalwyr. Roedd Gofalwyr Cymru eisiau gweld:

“wider understanding of unpaid caring done in a culturally competent way (...) and having that greater awareness that people can identify as unpaid carers at an earlier stage, so that they know that, when they need it (...) support is and should be available to them, and they can go out and seek it.”¹⁸

37. Roeddent yn galw am ymgyrch codi ymwybyddiaeth ar raddfa fawr, wedi'i chydgynhyrchu i wella ymwybyddiaeth o hawliau gofalwyr a helpu gofalwyr i gydnabod eu bod yn ofalwyr.¹⁹ Roedd galwadau am ymgyrch ymwybyddiaeth genedlaethol yn thema gref ar draws yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Yn ei thystiolaeth, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) fod codi ymwybyddiaeth o hawliau gofalwyr yn hanfodol, ac y “byddai ymgyrch genedlaethol mewn sawl iaith yn cyd-fynd ag ymdrechion lleol yn helpu i sicrhau bod gofalwyr ymhob cymuned yn deall eu hawliau ac yn gwybod lle i ganfod cefnogaeth”²⁰.

38. Pwysleisiodd Ymddiriedolaeth y Gofalwyr ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru y dylai pob gweithiwr proffesiynol perthnasol gael hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o ofalwyr i'w helpu i nodi gofalwyr di-dâl, a darparu gwybodaeth,

¹⁶ Cofnod y Trafodion, Claire Marchant, ADSS Cymru, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 318

¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, UC32. Cyfeirir at bob tystiolaeth ysgrifenedig o hyn ymlaen gan ddefnyddio rhif 'UC' yn unig

¹⁸ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 167

¹⁹ UC31

²⁰ UC28

cyngor a gwasanaeth cyfeirio o safon. Cafodd y pwyntiau hyn eu hadleisio gan y gofalwyr y gwnaethom siarad â nhw. Yn gysylltiedig â hyn, dywedodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yr arferwyd darparu cymhellion ariannol i feddygon teulu nodi a chofrestru gofalwyr o dan Fesur Gofalwyr (Cymru). Ers diddymu'r Mesur hwn a cholli'r cymhellion hyn yn sgil hynny, roedd yn teimlo bod gostyngiad amlwg wedi bod yn nifer y meddygon teulu sy'n nodi gofalwyr di-dâl ac yn eu cyfeirio at wasanaethau perthnasol. Gwnaed pwyntiau tebyg gan gynrychiolwyr y GIG y clywsom ganddynt.

39. Clywsom gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, a ddywedodd y dylid defnyddio Deallusrwydd Artiffisial yn well, yn enwedig gan fod “setiau data eisoes yn cael eu defnyddio i hyfforddi modelau deallusrwydd artiffisial sy'n gallu canfod patrymau o danhawlio budd-daliadau a llywio ymgyrchoedd allgymorth wedi'u targedu i wella'r nifer sy'n manteisio ar fudd-daliadau”. Yn ôl y Comisiynydd:

“Dylai sefydliadau'r sector cyhoeddus gynyddu'r defnydd o ddadansoddeg ragfynegol i nodi pobl sy'n debygol o fod yn ofalwyr ac estyn allan atynt yn rhagweithiol, i roi gwybod iddynt am eu hawliau a'r gwasanaethau atal a chefnogi sydd ar gael iddynt”.²¹

40. Ar ôl i ofalwyr gael eu nodi'n rhagweithiol, meddai, “dylai sefydliadau'r sector cyhoeddus systemeiddio cynnig cynhwysfawr o wybodaeth, cyngor, cyfeirio ac asesu”.²²

41. Dywedodd gofalwyr eu hunain wrthym y byddent yn hoffi gweld posteri i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o ofalwyr di-dâl mewn ysgolion, meddygfeydd teulu, ysbytai a fferyllfeydd. Roedd gofalwyr yn galw am gynllun ymarferol neu ‘fap trywydd’ i'r cyhoedd ar gyfer gofalwyr, yn egluro'r llwybrau ar gyfer mynediad at gymorth ac yn nodi'r hyn sydd ar gael iddynt yn eu hardaloedd hwy. Roeddent hefyd yn galw am fwy o hyfforddiant i weithwyr gofal iechyd proffesiynol er mwyn gwella'r broses o adnabod gofalwyr yn gynharach.

42. Dywedodd gofalwyr wrthym hefyd y dylid gwella'r broses rag-gynllunio, yn enwedig ar gyfer gofalwyr hŷn. Dywedodd un gofalwr wrthym:

²¹ UC08

²² UC08

“The fact that I am not a young woman should be a ‘flag’ for me probably requiring help? As it happens, I am fit for my age, but that is by no means usual for an 80-year-old!

(...) looking back on my personal path of being an Unpaid Carer, it would have been good if my situation was foreseen - after all, these illnesses are not going to improve unless there is a miracle cure! What I am thinking is, in an ideal world, it would have been good if I had been assessed, at an early stage, for my own ability as a carer, home facilities, help required etc.”²³

Tystiolaeth gan y Gweinidog

43. Nododd y Gweinidog fod Siarter Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yn amlinellu hawliau gofalwyr, yn hyrwyddo pwysigrwydd cydgynhyrchu ac yn adnodd allweddol i ofalwyr di-dâl a gweithwyr proffesiynol wella camau i gydnabod gofalwyr a chodi ymwybyddiaeth o’u hawliau.²⁴

44. Tynnodd sylw at raglen ‘Ymwybyddiaeth o Ofalwyr’ Llywodraeth Cymru, a ddarperir ar y cyd gan Gofalwyr Cymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru. Nododd fod y rhaglen hon wedi’i hanelu at gynyddu cydnabyddiaeth a chymorth i ofalwyr ar draws lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, a darparu hyfforddiant i staff. Dywedodd fod y rhaglen yn ei phedwaredd flwyddyn, ac y buddsoddwyd £1.2 miliwn ynddi ar gyfer y cyfnod 2022-26. Dywedodd hefyd fod y rhaglen wedi darparu adnoddau i 700 o fyfyrwyr gofal iechyd a hyfforddiant i 268 o fyfyrwyr yn 2024/25.

45. O ystyried y dystiolaeth am lefelau isel o ymwybyddiaeth o ofalwyr di-dâl yn gyffredinol, gofynnwyd i’r Gweinidog a oedd unrhyw gynlluniau ar gyfer ymgyrch genedlaethol. Dywedodd wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi darparu dros £300,000 yn flynyddol i Gofalwyr Cymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru i ddatblygu ymgyrchoedd ymwybyddiaeth. Cafodd hyn ei amau o wedi hynny gan Gofalwyr Cymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, a eglurodd, er bod y cyllid hwn wedi’i ddefnyddio i ymgymryd â rhywfaint o weithgarwch codi ymwybyddiaeth cenedlaethol, nad yw ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth

²³ UC17

²⁴ Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, tystiolaeth ysgrifenedig, 22 Ionawr 2026

cyffredinol ar lefel gymunedol wedi’u hariannu fel gweithgareddau o dan y prosiect hwn.²⁵

46. Yn ôl Denise Moultrie, pennaeth polisi gofalwyr di-dâl, Llywodraeth Cymru, er bod llawer o ffocws wedi bod ar hyfforddi gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i fod yn fwy ymwybodol o ofalwyr di-dâl, roedd Llywodraeth Cymru bellach yn ceisio troi tuag at godi mwy o ymwybyddiaeth yn y gymuned, gan gynnwys mewn hybiau cymunedol, fferyllfeydd a thafarndai.²⁶

47. Roedd y Gweinidog yn cytuno bod pobl hŷn yn llai tebygol o gael eu cydnabod neu o hunan-adnabod fel gofalwyr di-dâl, ac felly’n llai tebygol o chwilio am gymorth. Tynnodd sylw at y cyllid a roddodd Llywodraeth Cymru i Age Cymru i ddarparu cyngor a chymorth cychwynnol i ofalwyr hŷn a chodi ymwybyddiaeth mewn meddygfeydd teulu a lleoliadau cymunedol eraill.²⁷

48. Dywedodd y Gweinidog wrthym hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi ariannu ymgyrch lwyddiannus wedi’i thargedu ar y cyfryngau cymdeithasol ym mis Mehefin 2025 i roi gwybod i bobl ifanc am y cymorth sydd ar gael i ofalwyr ifanc. Amcangyfrifwyd bod hyn, meddai, wedi cyrraedd bron i ddwy ran o dair o bobl 13-24 oed yng Nghymru. Ymhellach, dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi gweithio gydag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru i ddatblygu deunyddiau diwygiedig ar gyfer staff addysg ynglŷn â gofalwyr ifanc, a dywedodd y byddai’r wybodaeth hon ar gael i bob aelod o staff addysg yn gynnar yn 2026.²⁸

49. O ran ymwybyddiaeth o ofalwyr ymhlith gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, fe wnaethom holi’r Gweinidog am y cyfleoedd a gollwyd i feddygon teulu ac ymgynghorwyr nodi gofalwyr, ac am y cymhellion a gollwyd i feddygon teulu nodi gofalwyr ers i Fesur Strategaethau Gofalwyr (Cymru) 2010 gael ei ddiddymu. Dywedodd wrthym y byddai’n “siarad ag Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol ynglŷn â chyfleoedd i godi proffil gofalwyr di-dâl o fewn y system gofal sylfaenol” a bod ei swyddogion wedi cyfarfod â’u cymheiriaid yn y maes gofal sylfaenol i baratoi ar gyfer y drafodaeth hon, “i nodi meysydd penodol lle gellir gwneud gwelliannau”²⁹.

²⁵ [Gohebiaeth gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a Gofalwyr Cymru, 3 Chwefror 2026](#)

²⁶ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2026, paragraff 121-122

²⁷ [Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, tystiolaeth ysgrifenedig, 22 Ionawr 2026](#)

²⁸ [Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, tystiolaeth ysgrifenedig, 22 Ionawr 2026](#)

²⁹ [Gohebiaeth gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, 26 Chwefror 2026](#)

“Sefyllfa argyfyngus”

Yr angen i fynd ati ar frys i wella cymorth i ofalwyr di-dâl

50. Cyfeiriodd hefyd at y Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl (sydd ar hyn o bryd yn destun ymgynghoriad) a fydd yn “tynnu sylw at ddyletswyddau awdurdodau lleol a byrddau iechyd mewn perthynas â gofalwyr di-dâl”.³⁰ Dywedodd wrthym y bydd y Strategaeth newydd (a gaiff ei chyhoeddi gan Lywodraeth newydd Cymru) yn:

“nodi’n glir y camau gweithredu a’r canlyniadau arfaethedig i wella’r broses o nodi, cydnabod, darparu gwybodaeth a chynghor, asesu a chymorth i’n gofalwyr di-dâl.”³¹

Ein barn ni – ymwybyddiaeth

51. Mae gofalwyr di-dâl yn wynebu sefyllfa gynyddol anobeithiol. Mae’r dystiolaeth a dderbyniwyd yn dangos angen mawr heb ei ddiwallu a methiannau systemig sy’n gadael llawer o ofalwyr heb y cymorth y mae ganddynt hawl gyfreithiol i’w gael. Mae canlyniadau’r pwysau sy’n cael eu hysgwyo gan ofalwyr di-dâl yn ddifrifol - caledi ariannol, dirywiad mewn iechyd corfforol a meddyliol, a gorflinder.

52. Mae adnabod gofalwyr di-dâl yn gynnar yn hanfodol i wella’r cymorth a roddir iddynt. Ac eto, mae gofalwyr yn aml yn teimlo’n anweledig o fewn y systemau iechyd a gofal cymdeithasol ac yn aml mae cyfleoedd hollbwysig i weithwyr iechyd a gofal proffesiynol (yn ogystal ag athrawon a staff ysgolion) eu cydnabod fel gofalwyr a’u cyfeirio at wybodaeth a chymorth yn cael eu colli.

53. Er gwaethaf y mentrau presennol, mae ymwybyddiaeth o ofalwyr di-dâl ymhlith gweithwyr proffesiynol a’r cyhoedd yn parhau i fod yn annerbyniol o isel, ac mae hyn yn galw am gamau gweithredu. Heb wella’r broses o’u nodi a gwella ymwybyddiaeth, bydd gormod o ofalwyr yn parhau i fod yn anhysbys i’r system nes eu bod yn wynebu argyfwng. Yn benodol, rhaid i wasanaethau iechyd, sydd fel arfer yn bwynt cyswllt cyntaf, chwarae mwy o ran wrth nodi a chefnogi gofalwyr. Nid yw’n ddigon dibynnu ar ofalwyr eu hunain i estyn allan am gymorth; dylai gwasanaethau cyhoeddus fynd ati’n fwriadol i chwilio am ofalwyr.

54. Mae angen arweinyddiaeth gryfach i wneud i ‘bob cyswllt gyfrif’, er mwyn sicrhau, pan fydd rhywun yn dod i gysylltiad â gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol, addysg, neu wasanaeth cyhoeddus, bod p’un a yw’r person hwnnw

³⁰ Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, tystiolaeth ysgrifenedig, 22 Ionawr 2026

³¹ Cohebiaeth gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, 26 Chwefror 2026

(neu rywun sy'n gwmni iddo) yn ofalwr di-dâl yn cael ei ystyried fel mater o drefn, ac os yw'n ofalwr di-dâl, dylai gael cynnig gwybodaeth a chymorth.

55. Rydym yn cefnogi'r galwadau am ymgyrch ymwybyddiaeth genedlaethol, wedi'i chynllunio ar y cyd â gofalwyr, ac rydym yn credu y dylid targedu gofalwyr hŷn a gofalwyr o gymunedau ethnig leiafrifol gyda gwasanaethau allgymorth sy'n ddiwylliannol briodol.

56. Rydym hefyd yn ystyried y gallai fod angen mesurau cymhellion a chyfrifoldeb i ysgogi newidiadau mewn ymarfer proffesiynol, fel oedd yn digwydd o dan y Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru).

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth newydd Cymru weithio gyda gofalwyr di-dâl a sefydliadau cymorth i ofalwyr er mwyn cynllunio a hyrwyddo ymgyrch ymwybyddiaeth genedlaethol. Dylai'r ymgyrch hon hyrwyddo'r cysyniad o “ofalwyr di-dâl,” eu hannog i hunanadnabod, a rhoi cyhoeddusrwydd i sut i gael cymorth. Dylai gynnwys allgymorth drwy feddygfeydd, ysbytai, fferyllfeydd, ysgolion, gweithleoedd, a lleoliadau cymunedol (gan gynnwys lleoedd y mae pobl hŷn a chymunedau ethnig leiafrifol yn eu mynychu).

Argymhelliad 2. Er mwyn hyrwyddo nodi gofalwyr di-dâl mewn lleoliadau iechyd yn y maes gofal sylfaenol, dylai Llywodraeth newydd Cymru ystyried ailgyflwyno cymhellion wedi'u targedu i ofal sylfaenol i nodi gofalwyr a'u cyfeirio at wybodaeth a chymorth priodol.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth newydd Cymru annog byrddau iechyd i sicrhau bod gan bob ysbyty drefniadau ar waith, fel swyddogion cymorth i ofalwyr, i nodi gofalwyr yn ystod apwyntiadau cleifion allanol, pan fyddant yn derbyn cleifion mewnol ac wrth baratoi ar gyfer rhyddhau cleifion, ynghyd â gweithdrefnau clir i gynnwys a hysbysu'r gofalwr ar bob cam.

Argymhelliad 4. Dylai pob gweithiwr proffesiynol ym maes iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg gael hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o ofalwyr, er mwyn eu galluogi i adnabod yr arwyddion bod rhywun yn ofalwr di-dâl ac ymateb yn briodol i hynny. Dylai Llywodraeth newydd Cymru weithio ar draws portffolios i sicrhau bod yr argymhelliad hwn yn cael ei roi ar waith yn llawn.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth newydd Cymru, mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol a'r trydydd sector, ymchwilio i ddulliau arloesol o ddod o hyd i ofalwyr 'cudd'. Gallai hyn gynnwys gwell defnydd o ddata a thechnoleg (yn unol ag awgrym y Comisiynydd Pobl Hŷn) i adnabod unigolion a allai fod mewn rolau

gofalu (megis y rhai sy’n casglu presgripsiynau’n aml neu’n gwneud apwyntiadau iechyd i eraill) a chynnig gwybodaeth a chyngor, gwasanaeth cyfeirio ac asesiadau o anghenion gofalwyr yn rhagweithiol ac ar gam cynnar.

Hawliau cyfreithiol nad ydynt yn cael eu bodloni

57. Yn ogystal â’r ffaith nad es digon o ofalwyr yn cael eu nodi, roedd hefyd yn amlwg o’r dystiolaeth nad oedd llawer o ymwybyddiaeth o hawliau gofalwyr ymhlith y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol, ac nad yw hawliau cyfreithiol gofalwyr o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael eu bodloni. Clywsom nad yw llawer o ofalwyr yn gwybod eu bod yn gymwys i gael Asesiad o Anghenion Gofalwr, ac nad ydynt yn ymwybodol o’r cymorth a allai fod ar gael iddynt.

58. Dywedodd gofalwyr wrthym fod popeth yn frwydr; bod diffyg gwasanaethau cymorth, ac nad yw systemau’n ymateb i’w hanghenion. Cadarnhaodd elusennau gofalwyr mai dyma’r realiti i’r rhan fwyaf o ofalwyr yng Nghymru. Yn ôl Kay John-Williams o Ganolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr, roedd hi’n clywed yr un hen straeon dro ar ôl tro:

“And what I’m aware of, when somebody has to fight so much to keep that person as safe as they can, how can they ask for anything for themselves? There’s nothing left to ask for anything for you. There are no ongoing carers assessments. Once somebody has a carer assessment, it’s almost that the box has been ticked.”³²

59. Dywedodd Judith Russell wrthym, er gwaetha’r ffaith ei bod yn ofalwr ers blynyddoedd lawer, mai dim ond yn ystod y tair blynedd diwethaf y nodwyd ei bod yn ofalwr, a hynny pan ymunodd â grŵp gofalwyr lleol a chael cymorth ganddo. Meddai:

“I so wish that that had been available to me a long, long time ago, because all through these last 23 years, I’ve had to fight and struggle to find things out—what questions to ask, who to ask, where to go. There’s very, very little help out there.”³³

³² Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraff 42

³³ Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraff 20

60. Meddai gofalwr di-dâl arall wrthym:

“My experience has often felt like being in a maze and not finding the way out easily”.

61. Dywedodd rhanddeiliaid wrthym fod nifer yr asesiadau o ofalwyr a gynhelir ar hyn o bryd yn fach iawn, ac yn aml nid yw'r asesiadau'n arwain at gymorth ystyrlon. Can ddisgrifio ei phrofiadau fel gofalwr, dywedodd Chris Kemp-Philp wrthym:

“I didn't know I was a carer from 1990. In 2006, (...) I asked for a carer assessment (...). After badgering for quite a considerable time, after I met the carers group in 2010, I got the my first assessment in 2018, and that was after an awful lot of badgering.”

62. Dywedodd Sue Rendell, sy'n gofalu am ei gŵr, wrthym nad oedd hi wedi cael unrhyw gymorth o ganlyniad i'w hasesiad o'i hanghenion ei hun nac ar ôl cael ei chynnwys yng nghynllun gofal ei gŵr. Meddai:

“my carer assessment, which I only asked for last year, 2023, nothing happened. Earlier this year, I got a line in my husband's care plan that says, ‘Mrs Rendell needs some respite.’ So, a couple of months ago, I said I wanted an independent carer's assessment for me, please. And they came out; the woman comes out quite readily and has a nice chat. But, as the others have said, nothing much happens after that.”³⁴

63. Yn ôl Kay John-Williams o Ganolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr, roedd gofalwyr fel arfer yn aros am gyfnodau maith cyn cael asesiad o'u hanghenion gan eu hawdurdod lleol, ac nid oedd llawer o wasanaethau cymorth ar gael ar ddiwedd y broses, gyda gofalwyr yn cael eu cyfeirio'n ôl at yr elusen gofalwyr yn rheolaidd oherwydd diffyg darpariaeth arall. Meddai'r Gweinidog:

“It takes so long for a carer assessment to be done. As soon as we see somebody, we refer for a carer assessment. That can take eight or nine months, and then when they come out, the carers then say that they're just referred back to us. They can't get a social worker until they have a carer assessment—that's

³⁴ Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraff 52

the block. We’ve had carers putting in formal complaints, but it hasn’t made any difference.”³⁵

64. Yng ngoleuni hyn, fe wnaethom holi awdurdodau lleol ynghylch yr hyn yr oedd y data diweddaraf yn ei ddangos am y bwlch rhwng y cyflenwad o wasanaethau a’r galw amdanynt. Mewn gwrthgyferbyniad â’r dystiolaeth uchod a’r adroddiadau gan randdeiliaid eraill, dywedodd Claire Marchant, Cadeirydd ADSS Cymru, wrthym:

“I don’t believe that at a high level it shows that people are waiting for services”.³⁶

65. Ymhellach, dywedodd Catrin Perry, Cadeirydd Penaethiaid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Cymru Gyfan:

“We have data that we collect for the checkpoint return, which is about the number of people waiting for assessments, and that is assessment in general, so it’ll be the cared for and the carer assessment. And, as Claire says, that data doesn’t show us that people are waiting a long time for an assessment, whether that’s a carer assessment or a cared-for assessment.”³⁷

66. Clywsom hefyd y gall rhwystrau ieithyddol a diwylliannol, yn ogystal ag ynysu gwledig, waethygu’r problemau o ran cael mynediad at gymorth.

67. Cafodd yr anawsterau a brofwyd gan y gofalwyr y gwnaethom siarad â nhw eu hamlygu hefyd gan elusennau gofalwyr, gyda Gofalwyr Cymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ill dau yn pwysleisio’r ‘bwlch’ amlwg rhwng dyheadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a’i gweithrediad. Dywedodd Gofalwyr Cymru fod eu hymchwil Dilyn y Ddeddf³⁸ wedi canfod nad oedd y rhan fwyaf o ofalwyr di-dâl wedi gweld na derbyn unrhyw wybodaeth na chyingor ar ofalu; nad yw anghenion y rhan fwyaf erioed wedi cael eu hasesu; a’i bod yn ymddangos bod bylchau mawr yn y data a’r ddealltwriaeth o sut y caiff y ddeddf ei chyflawni ar draws awdurdodau lleol.

68. At hynny, dangosodd eu hymchwil fod pob awdurdod lleol wedi nodi mai cyfrannau isel iawn o ofalwyr sy’n cael asesiad o’u hanghenion neu’n cael cymorth

³⁵ Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraff 116

³⁶ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 236

³⁷ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 246

³⁸ Dilyn y Ddeddf, Gofalwyr Cymru

i helpu i ddiwallu eu hanghenion. Dim ond 13 Asesiad o Anghenion Gofalwyr a ddarparwyd gan gyngor Merthyr Tudful yn 2023/24, sy'n cynrychioli dim ond 0.2% o'r 6,205 o ofalwyr a gofnodwyd ym Merthyr Tudful yn y cyfrifiad. Sir Gaerfyrddin a ddarparodd y nifer mwyaf o Asesiadau o Anghenion Gofalwyr sef 1,151 yn ystod yr un cyfnod, er bod hyn ond yn cynrychioli 6% o ofalwyr y sir.³⁹

69. Yn ôl Gofalwyr Cymru:

“There is overwhelming evidence that the demand in Wales for carer support services is under assessed and under addressed”.⁴⁰

70. Roeddent yn croesawu cynllun gwella Grŵp Cyngori'r Gweinidog, ond, er bod rhai camau cadarnhaol wedi'u cymryd i edrych ar arfer da a'i ehangu a'i ledaenu ledled Cymru, roeddent o'r farn na fydd hyn, ar ei ben ei hun, yn mynd yn ddigon pell i fynd i'r afael â'r problemau a wynebwr gan ofalwyr. Roedd bwlch gweithredu sylweddol ac roedd angen mwy o gapasiti, mwy o adnoddau a mwy o arweinyddiaeth i ddatrys y sefyllfa, meddent.⁴¹

71. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, cyflwynodd CLILC ac ADSS Cymru ddarlun gwahanol iawn a oedd i bob golwg yn gwrth-ddweud y cyfoeth o dystiolaeth arall a glywsom ynghylch difrifoldeb y sefyllfa y mae gofalwyr yn ei hwynebu.

72. Yn benodol, fe wnaethom ofyn i awdurdodau lleol a oedd ganddynt unrhyw bryderon ynghylch eu gallu i ariannu'r gwasanaethau sy'n angenrheidiol i gynnal hawliau gofalwyr o dan y Ddeddf. Dywedodd Claire Marchant, Cadeirydd ADSS Cymru, wrthym:

“I would want to assure the committee, as far as I am able, about local authorities meeting statutory duties.”⁴²

73. Clywsom nifer o awgrymiadau ar gyfer gwelliannau gan ofalwyr ac elusennau gofalwyr. Roedd y rhain yn cynnwys galwadau am asesiadau cyson ac ystyrlon o anghenion gofalwyr, a gynigir yn rhagweithiol, gyda chymorth dilynol yn gysylltiedig â nhw. Roedd galwadau hefyd am gyflwyno targedau cenedlaethol ar gyfer asesiadau o anghenion, ac arweinyddiaeth gryfach i wella eu gweithrediad.

³⁹ UC31

⁴⁰ UC31

⁴¹ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 104

⁴² Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2025, paragraff 297

74. Nododd Gofalwyr Cymru fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod digon o gapasiti o fewn cyrff statudol i gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol o dan y Ddeddf. Dywedodd y dylid ystyried a ddylid diogelu adnoddau ychwanegol a’u darparu i awdurdodau lleol i gynyddu nifer yr asesiadau a gynhelir a darparu cymorth lle bo angen.⁴³

75. At hynny, clywsom fod defnyddio’r term “asesiad” yn broblem ynddo’i hun, ac y gallai atal gofalwyr rhag mynychu asesiadau. Dywedodd Dilwyn Morgan, llefarydd CLILC dros iechyd a gofal cymdeithasol, wrthym:

“O brofiad o siarad efo gofalwyr, mae’r ffaith eu bod nhw’n meddwl eu bod nhw’n gorfod mynd am asesiad efo gweithiwr cymdeithasol yn ddigon o farier i’w stopio nhw rhag mynd.

Dwi’n meddwl, os oes yna rywbeth cadarnhaol y buaswn i’n licio gweld...yw ein bod ni’n newid yr ieithwedd o ran asesiad: galwch o’n sgwrs beth sy’n bwysig; galwch o’n gynllun gofalwyr, ond mae jest ‘asesiad’ yn farier llwyr i rai pobl.”⁴⁴

76. Roedd Claire Marchant, Cadeirydd ADSS Cymru, yn cytuno gan ddweud ei bod yn llawer mwy cyfforddus yn sôn am sgysiau gyda gofalwyr a chymorth i ofalwyr.⁴⁵

77. Yn ogystal â phroblemau gyda chael asesiad o anghenion, clywsom bryderon ynghylch y broses asesu ei hun, gyda rhai gofalwyr yn nodi y dywedwyd wrthynt am gwblhau eu hasesiad o anghenion eu hunain, ac eraill yn dweud nad oedd y ddogfen asesu derfynol yn adlewyrchiad cywir o’r trafodaethau a gafwyd. O ran y pwynt hwn, dywedodd Bobbi-Jo Haarhoff, gofalwr hirdymor, wrthym:

“the reality out there is that people are finding that their information does not belong to them. The process is such that you have an assessment. That assessment doesn’t come back to you as a draft. It goes to somebody’s manager, and by the time it does come back to you, if it comes back to you, it doesn’t look like anything that you’ve discussed, or you have to ask for it via a subject access request. That doesn’t feel like early

⁴³ UC31

⁴⁴ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 250

⁴⁵ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 262

intervention and prevention. That doesn't feel like partnership.”⁴⁶

78. Clywsom hefyd adroddiadau am arferion gwael o ran rheoli data, gyda rhai gofalwyr yn dweud eu bod wedi derbyn copïau o wybodaeth bersonol pobl eraill, gan gynnwys asesiadau o anghenion wedi’u cwblhau.

‘Yn fodlon ac yn gallu’ darparu gofal

79. O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, rhaid i ofalwyr fod yn “fodlon ac yn gallu” darparu gofal. Dywedodd gofalwyr wrthym, er gwaethaf y gofyniad hwn, nad yw gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol yn gwranddo arnynt pan ddywedant nad ydynt yn gallu darparu gofal a, hyd yn oed pan fyddant yn wynebu argyfwng, yn aml nid oes ganddynt ddewis ond parhau â’u rôl ofalu.

80. Dywedodd Chris Kemp-Philp wrthym, ar sawl achlysur, pan oedd ei gŵr (yr oedd hi’n gofalu amdano) i fod i gael ei ryddhau o’r ysbyty, ei bod wedi dweud wrth staff yr ysbyty, er ei bod yn fodlon darparu gofal, na allai ymdopi heb ryw faint o gymorth ychwanegol gartref. Meddai’r Gweinidog:

“I said that on every one of the three hospital discharges. I said, ‘This is an unsafe discharge. I am willing to look after him, but physically I’m unable, and I need help’, and nobody has been able to tell me who I take that to. Although I have the legal right to say ‘no’, (...) I was told that he had capacity, so my needs were overridden by his capacity to want to come home. And that was a huge problem.”⁴⁷

81. Yn ôl Albie Sutton, un o’r gofalwyr ifanc y clywsom ganddo, nid yw’n hawdd dweud ‘na’ i rôl ofalu:

“(...) one of the rights that carers have is that they have the right to say ‘no’ to their caring role. And I just couldn’t help but laugh at that, because I just feel like that’s a right that someone made who’s never been a carer, never been a young carer—they

⁴⁶ Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraff 304

⁴⁷ Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraffau 36 a 112

don't know what it looks like. And they've just said, 'Well, you can say "no".' (...)

You can't just turn away that responsibility that comes upon you. You can't just say 'no'. (...) Although we have that right, who gets to use that right? It's not possible.”⁴⁸

82. Ategododd yr elusennau gofalwyr brofiadau gofalwyr yn y maes hwn, a dywedodd Gofalwyr Cymru wrthym fod adroddiad gofalwyr 2024 yn dangos bod tua 64 y cant o ofalwyr presennol a chyn-ofalwyr yng Nghymru wedi dweud nad oedd ganddynt ddewis ond darparu gofal, oherwydd nad oedd unrhyw opsiynau eraill ar gael. Dywedodd:

“Carers are having to step up and plug the gaps, and are just often being left to get on with it, because there's not enough capacity and resource to be able to support them.”⁴⁹

83. Mewn byd delfrydol, meddent, dylai asesiad o anghenion nodi unrhyw ofalwyr sy'n anfodlon neu'n methu â darparu gofal i rywun, ac felly bod angen mwy o asesiadau. Dywedodd Gofalwyr Cymru, pe bai'n dod yn amlwg, fel rhan o asesiad, bod gofalwr naill ai'n anfodlon neu'n methu â darparu gofal (neu'r ddau), yna dylai gwasanaethau statudol roi pecyn cymorth ar waith sy'n rhyddhau'r gofalwr hwnnw o'i ddyletswyddau. Ond, fel y mae pethau, nid yw hynny'n digwydd, ac mae'n rhaid i ofalwyr ddarparu gofal oherwydd nad yw'r cymorth hwnnw'n bodoli.⁵⁰

84. Yn gysylltiedig â hyn, dywedodd elusennau gofalwyr a chynrychiolydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wrthym fod y cyllid o £1 miliwn ar draws byrddau iechyd i ymgysylltu â gofalwyr ynghylch rhyddhau pobl o'r ysbyty prin yn crafu'r wyneb⁵¹, a bod y swm a ddyrannwyd wedi aros yr un fath ers dros ddegawd.

Tystiolaeth gan y Gweinidog – hawliau cyfreithiol nad ydynt yn cael eu bodloni

85. Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ADSS Cymru i gynnal adolygiad o sut yr oedd hawliau gofalwyr yn cael eu diogelu a'u hanghenion yn cael eu diwallu. Roedd yr adolygiad hwnnw, a gynhaliwyd yn 2023, wedi canfod “nad oedd digon o asesiadau yn cael eu cwblhau, bod gofalwyr yn

⁴⁸ Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraff 485

⁴⁹ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 115

⁵⁰ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 116

⁵¹ Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2026, paragraff 111

aml yn aros yn rhy hir a bod anghysondeb ledled Cymru o ran y ffordd roedd asesiadau yn cael eu cynnal”.⁵² Tynnodd sylw hefyd at ofal seibiant fel angen di-dâl sylweddol. Dywedodd wrthym fod yr adolygiad wedi nodi sawl maes i’w gwella’n genedlaethol.⁵³

86. Yn dilyn yr adolygiad hwnnw, meddai, roedd Llywodraeth Cymru wedi cefnogi datblygu cynllun gweithredu, dan arweiniad ADSS Cymru ac wedi’i arwain gan un o is-grwpiau Grŵp Cyngori’r Gweinidog ar gyfer Gofalwyr Di-dâl⁵⁴. Dywedodd fod hyn yn canolbwyntio ar wella’r wybodaeth, y cyngor a’r cymorth a ddarperir i ofalwyr di-dâl, yn ogystal ag asesiadau o anghenion gofalwyr:

*“Bydd y cynllun gweithredu yn cyflwyno dull gweithredu mwy cyson a gwybodus wrth ‘ddrws ffrynt’ gwasanaethau cymdeithasol ledled Cymru a bwriedir iddo gael ei gwblhau ym mis Mawrth 2026”.*⁵⁵

87. Ei phrif fwriad, meddai, yw galluogi mwy o gysondeb o ran y dull asesu. Cadarnhaodd y byddai’n ysgrifennu at y Pwyllgor tua diwedd mis Mawrth gyda manylion am y cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun gweithredu.⁵⁶

88. Cadarnhaodd hefyd fod £47,235 ychwanegol wedi’i ddarparu yn ystod y flwyddyn ariannol hon i gyflymu’r ddarpariaeth a datblygu adnoddau newydd i gefnogi gwell ymarfer a gwybodaeth i ofalwyr di-dâl.

89. Fe wnaethom herio’r Gweinidog ynglŷn â’r dystiolaeth a glywsom nad oedd hawliau cyfreithiol gofalwyr yn cael eu bodloni, yn enwedig y dystiolaeth wrthgyferbyniol gan awdurdodau lleol. Dywedodd mai dyma oedd ei phryder hithau hefyd.⁵⁷ Fe wnaeth bwyntiau tebyg yn ystod sesiwn graffu ar wahân ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27, pan ddywedodd wrthym:

*“I remain very concerned that not enough unpaid carers are getting their statutory entitlement to an unpaid carers assessment.”*⁵⁸

⁵² Adolygiad cyflym o sut y cafodd hawliau gofalwyr di-dâl eu cynnal yn ystod ac ar ôl yr ymateb i Covid-19 ADSS Cymru, 2023

⁵³ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2026, paragraff 11

⁵⁴ Grŵp Cyngori’r Gweinidog ar gyfer Gofalwyr Di-dâl

⁵⁵ Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, tystiolaeth ysgrifenedig, 22 Ionawr 2026

⁵⁶ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2026, paragraff 32

⁵⁷ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2026, paragraff 11

⁵⁸ Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, paragraff 202

90. Cadarnhaodd ei bod wedi ysgrifennu at holl arweinwyr yr awdurdodau lleol ar 12 Rhagfyr 2025:

“because I know that there are instances where those statutory obligations are not being met.”⁵⁹

91. Dywedodd wrthym mai diben ei llythyr oedd pwysleisio i arweinwyr cynghorau, yr angen gwleidyddol iddynt gydymffurfio â'u gofynion cyfreithiol i sicrhau bod pob gofalwr di-dâl a nodwyd yn cael cynnig asesiad o anghenion gofalwr.⁶⁰

92. Ar ôl i ofalwr gael asesiad o anghenion, os oedd yr asesiad hwnnw'n nodi y dylid darparu gofal seibiant, yna roedd gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb statudol i'w ddarparu, meddai. Dywedodd ei bod hi, yn ogystal ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, yn glir iawn ynghylch hynny.⁶¹

93. Dywedodd wrthym y byddai'n dadansoddi'r ymatebion gan arweinwyr awdurdodau lleol (erbyn 23 Ionawr 2026) ac y byddai'n cysylltu ag awdurdodau lleol a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ôl yr angen. Aeth ymlaen i ddweud, os nad oedd hi'n fodlon â'r ymatebion, mai'r cam nesaf fyddai rhoi cyfarwyddyd cliriach i Arolygiaeth Gofal Cymru a fyddai'n nodi bod yn rhaid i hyn fod yn elfen benodol o'u harolygiad o awdurdodau lleol, er mwyn sicrhau bod hynny'n cael ei gyflawni.⁶²

94. Fe wnaethom bwysu arni ynglŷn ag amseriad y gwaith hwn, ac roedd yn derbyn y byddai hwn yn ddarn o waith parhaus na fyddai'n cael ei gwblhau cyn yr etholiad arfaethedig. Fodd bynnag, dywedodd:

“(...) what I can do is make sure that I give a very clear steer to any incoming Government about the work that still needs to be done in this area, and in advance of that, make it very, very clear to local authorities what my expectations are and what I think the expectations of any incoming Government are going to be in this area.”⁶³

⁵⁹ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2026, paragraff 17

⁶⁰ Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, paragraff 202

⁶¹ Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, paragraff 202

⁶² Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2026, paragraff 17

⁶³ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2026, paragraff 29

95. Mewn gohebiaeth ddilynol, cadarnhaodd fod ymatebion wedi dod i law gan holl arweinwyr yr awdurdodau lleol, a’u bod i gyd wedi cydnabod bod “meysydd i’w gwella o ran y cymorth i ofalwyr di-dâl” yn eu hardaloedd nhw. Dywedodd fod “amrywiad ym maint y gwelliant y mae ei angen” ac, o ganlyniad i’r ymatebion, bod Llywodraeth Cymru wedi cwrdd ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i “ystyried opsiynau ynghylch ei chymorth a’i rôl wrth sbarduno gwelliant”. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi cytuno ag AGC y bydd eu cyfarfodydd chwemisol nesaf â Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol/Penaethiaid Gwasanaeth (sydd i fod i gael eu cynnal ym mis Ebrill 2026 ac sy’n rhan o broses sicrwydd ffurfiol AGC) yn cynnwys cymorth i ofalwyr di-dâl fel pwnc trafod allweddol. Dywedodd y “bydd AGC yn rhoi ei dadansoddiad o’r trafodaethau hyn inni, a byddwn yn eu defnyddio i benderfynu ar y camau nesaf”.⁶⁴

96. O ran monitro cydymffurfiaeth â’r Ddeddf, dywedodd y Gweinidog wrthym fod y trefniadau’n eithaf cadarn; bod Llywodraeth Cymru yn cael trafodaethau rheolaidd ag awdurdodau lleol a byrddau partneriaeth rhanbarthol, a bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn adrodd yn rheolaidd ar sut yr oeddent yn cyflawni eu rhwymedigaethau. Meddai’r Gweinidog:

“What perhaps we need to think about more clearly is not just, actually, monitoring, but what we do as the follow up, if that monitoring shows that it’s not delivering in the way that we want it to be delivered.”⁶⁵

97. Fe wnaethom bwysu ymhellach ar y Gweinidog ynglŷn â’r bwlch gweithredu rhwng uchelgais y Ddeddf a’r ffordd yr oedd yn cael ei chyflawni, a gofynnwyd iddi sut y byddai’n ymateb i awgrymiadau nad yw awdurdodau lleol yn cael digon o gyllid i gyflawni gofynion y Ddeddf. Cydnabu’r pwysau ariannol sy’n wynebu awdurdodau lleol ond dywedodd, yn ogystal â diogelu eu cyllid yn ystod y blynyddoedd anodd ar ddechrau’r tymor hwn, dros y ddwy i dair blynedd diwethaf, mae’r awdurdodau lleol wedi gweld cynnydd sylweddol yn eu grant cymorth ardrethi gan Lywodraeth Cymru.⁶⁶ Meddai’r Gweinidog:

“(…) bydd cyngorau’n cael £112.8m yn ychwanegol ar gyfer y setliad yn 2026-27 i ddarparu gwasanaethau hanfodol, gan gynnwys gofal cymdeithasol, drwy ein cytundeb â Phlaid

⁶⁴ Gohebiaeth gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, 26 Chwefror 2026

⁶⁵ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2026, paragraff 19

⁶⁶ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2026, paragraff 80

Cymru. Mae hyn yn gynnydd o 4.5%, gyda mwy na 4% yn cael ei warantu i bob awdurdod. Roedd gofal cymdeithasol yn flaenoriaeth a godwyd gan gynghorau ac felly byddwn yn disgwyl iddynt sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.”⁶⁷

Tystiolaeth gan y Gweinidog – ‘yn fodlon ac yn gallu darparu gofal’

98. Fe wnaethom bwysu am ymateb gan y Gweinidog i'r dystiolaeth nad oes gan rai gofalwyr unrhyw ddewis ond darparu gofal, hyd yn oed pan fyddant wedi dweud nad ydynt yn gallu gwneud hynny. Dywedodd wrthym ei bod yn disgwyl y byddai'r gwaith gwella presennol sy'n cael ei wneud drwy Grŵp Cynghori'r Gweinidog yn mynd i'r afael â'r pwyntiau ynghylch canfod a yw rhywun yn fodlon ac yn gallu darparu gofal. Dywedodd fod adnoddau'n cael eu datblygu i ddangos yr arfer gorau i ymarferwyr pan fyddant yn mynd drwy'r broses hon, ac mae taflenni gwybodaeth ar gael i ofalwyr ynghylch yr hyn i'w ddisgwyl mewn asesiad.⁶⁸

99. Meddai'r Gweinidog:

“it's absolutely vital (...) that both practitioners and unpaid carers know that that [being willing and able to provide care] is a required area for discussion. (...) I would be very surprised if professionals in this field don't know that, because this is a fundamental part of the Act. (...) I think that's something we need to look at.”⁶⁹

100. Mewn perthynas â rhyddhau pobl o'r ysbyty, dyfynnodd y Gweinidog Ganllawiau Rhyddhau o'r Ysbyty Llywodraeth Cymru⁷⁰ ar gyfer staff rheng flaen iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddweud ei fod yn “tynnu sylw at bwysigrwydd cynnwys gofalwyr di-dâl mewn cynlluniau rhyddhau, sy'n allweddol i sicrhau y caiff unigolion eu rhyddhau yn ddiogel ac yn effeithiol”.⁷¹ Pwysleisiodd bwysigrwydd sgysiau cynnar gyda theuluoedd, a dywedodd fod grant

⁶⁷ Gohebiaeth gan y Gweinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, 26 Chwefror 2026

⁶⁸ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2026, paragraff 100

⁶⁹ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2026, paragraff 100

⁷⁰ Canllawiau rhyddhau o'r ysbyty: Llywodraeth Cymru, Ionawr 2025

⁷¹ Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, tystiolaeth ysgrifenedig, 22 Ionawr 2026

trawsnewid wedi bod ar gael i awdurdodau lleol i helpu i ddarparu gofal cartref gwell a gofal ailalluogi.⁷²

101. Mewn gohebiaeth bellach, dywedodd, er bod “camau cadarnhaol” wedi’u cymryd yn flaenorol i wella amlygrwydd a phwysigrwydd cymorth i ofalwyr di-dâl o fewn y canllawiau rhyddhau o’r ysbyty, “byddwn yn defnyddio’r adolygiad blynyddol presennol i gryfhau hyn ymhellach lle bo angen.” Bydd cynnwys wedi’i ddiweddarau yn cael ei gyhoeddi “erbyn diwedd yr haf”.⁷³

102. Dywedodd hefyd fod Llywodraeth Cymru yn gweithio’n agos gyda’r rhai sy’n datblygu canllawiau ar gyfer rhyddhau cleifion iechyd meddwl ac anabledau dysgu o’r ysbyty. Dywedodd, er ei bod yn ddyddiau cynnar o ran datblygu’r gwaith hwn, ei fod yn “cynnig cyfle pellach i sicrhau bod proffil gofalwyr di-dâl, a’r cymorth a’r hawliau sydd ar gael iddynt, yn cael eu hyrwyddo’n ddigonol mewn canllawiau i staff yn y lleoliadau hyn”.⁷⁴

Ein barn ni – hawliau cyfreithiol nad ydynt yn cael eu bodloni

103. Er gwaethaf y ffaith bod gan ofalwyr hawliau cyfreithiol o dan y Ddeddf, nid oes digon o bobl yn cael asesiad o’u hanghenion ac, i’r rhai sy’n cael asesiad, anaml y bydd cymorth ystyrlon yn dilyn. Mae rhai gofalwyr yn dewis peidio â chael asesiad oherwydd nad oes unrhyw wasanaethau i’w cyfeirio nhw atynt.

104. Clywsom yn uniongyrchol gan ofalwyr di-dâl am y caledi enbyd y maent yn eu hwynebu o ddydd i ddydd yn eu rôl ofalu, a’r anawsterau o ran cael mynediad at unrhyw fath o gymorth. Cadarnhaodd elusennau gofalwyr nad yw’r gofalwyr y gwnaethom siaradom â nhw yn eithriad, a bod y profiadau a ddisgrifiwyd ganddynt o orfod ‘erfyn’ am gymorth yn nodweddiadol o’r hyn y maent yn ei glywed gan ofalwyr o ddydd i ddydd. Mae’n amlwg bod gormod o ofalwyr yn cyrraedd pwynt ble maent yn wynebu argyfwng heb unrhyw gefnogaeth. Mae’r sefyllfa hon yn annerbyniol ac ni ddylai barhau.

105. Cawsom ein dychryn gan faint y bwlch gweithredu rhwng uchelgais y Ddeddf a’r ffordd yr oedd yn cael ei rhoi ar waith yn ymarferol. Roeddem yn arbennig o bryderus nad yw sicrwydd awdurdodau lleol ynghylch cyflawni eu dyletswyddau statudol yn cyd-fynd â phrofiadau bywyd gofalwyr. At hynny,

⁷² Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2026, paragraff 104

⁷³ Gohebiaeth gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, 26 Chwefror 2026

⁷⁴ Gohebiaeth gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, 26 Chwefror 2026

roeddem hefyd yn bryderus nad yw awdurdodau lleol yn deall maint y broblem a'r angen i gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol ar fyrder.

106. Mae'r dystiolaeth a glywsom yn glir ac yn gyson â chanfyddiadau'r adolygiadau a'r ymchwiliadau annibynnol eraill ar y pwnc hwn - nid yw hawliau gofalwyr yn cael eu cynnal ac nid yw awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau statudol i ofalwyr di-dâl.

107. Credwn fod angen cyflwyno mesurau ar fyrder i bontio'r bwlch gweithredu hwn fel bod gofalwyr yn cael cynnig asesiad o anghenion yn rhagweithiol, yn hytrach na chael eu gadael i ddod o hyd i'w ffordd drwy “ddrysfa” er mwyn darganfod yr hyn y maent yn gymwys i'w gael. At hynny, dylai'r asesiad hwnnw fod yn fwy nag “ymarfer ticio blychau” – dylai arwain at gymorth gwirioneddol, a dylid ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd wrth i sefyllfa'r gofalwr newid. Mae'r ffaith bod cymaint o ofalwyr yn cael eu cyfeirio'n ôl at elusennau gofalwyr neu nad ydynt yn cael cynnig unrhyw gymorth ar ôl cael asesiad yn arwydd o fethiant systemig.

108. Roeddem yn bryderus iawn o glywed tystiolaeth gofalwyr am orfod parhau i ddarparu gofal er gwaethaf y ffaith eu bod yn teimlo na allent wneud hynny. Ni ddylai unrhyw ofalwr deimlo gorfodaeth i ddarparu gofal pan na all wneud hynny, ac eto mae llawer yn cael eu gorfodi i'r sefyllfa honno. Mae hyn yn amlwg yn groes i fwriad y Ddeddf ac yn codi cwestiynau difrifol ynghylch atebolrwydd.

109. Nodwn dystiolaeth y Gweinidog fod cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu gan Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar Ofalwyr (dan arweiniad ADSS Cymru). Er ein bod yn croesawu'r fenter hon, mae profiadau bywyd y gofalwyr yr ydym wedi clywed ganddynt yn gwneud inni bryderu na fydd yn ddigonol heb oruchwyliaeth ac atebolrwydd cryf.

110. Credwn fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno arweinyddiaeth a gorchwyliaeth lawer cryfach nawr er mwyn sicrhau bod dyletswyddau i ofalwyr di-dâl yn cael eu cyflawni, drwy osod safonau gofynnol ar gyfer asesiadau o anghenion gofalwyr a chynlluniau cymorth, gan ddarparu adnoddau ychwanegol lle bo angen, a dwyn awdurdodau i gyfrif os ydynt yn methu â chyflawni. Rydym hefyd yn credu ei bod yn bryd ystyried sut y mae asesiadau gofalwyr yn cael eu cyflwyno a'u cynnal, gan gyflwyno dull “sgwrs cymorth i ofalwyr” sy'n fwy cyfeillgar i ofalwyr a allai gael gwared ar stigma ac annog mwy o ofalwyr i ymgysylltu â'r broses.

111. Yn olaf, o ran bod “yn fodlon ac yn gallu” darparu gofal, credwn na ddylai unrhyw un gael ei ryddhau o’r ysbyty heb i’r gofalwr gadarnhau ei fod yn fodlon ac yn gallu darparu gofal, ac y dylid rhoi trefniadau amgen ar waith os nad yw’n gallu gwneud hynny. Rhaid cau’r bwlch presennol rhwng y Ddeddf ac ymarfer, a hynny ar unwaith.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth newydd Cymru, fel blaenoriaeth, adolygu’r cynllun gweithredu (dan arweiniad ADSS) ar gyfer cynnal hawliau gofalwyr di-dâl o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 er mwyn sicrhau ei fod:

- yn amlinellu camau gweithredu, llinellau cyfrifoldeb a cherrig milltir clir;
- yn cynnwys camau i wella’r cynnig a’r nifer sy’n manteisio ar asesiadau o anghenion a sicrhau bod gofalwyr yn cael gwasanaethau cymorth amserol;
- mynd i’r afael â rhwystrau hysbys, gan gynnwys rhwystrau ieithyddol a diwylliannol; ac
- amlinellu sut y bydd cynnydd yn cael ei fonitro a sut yr adroddir arno,

a dylai sicrhau yr eir i’r afael ag unrhyw fylchau yn y cynllun.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth newydd Cymru ystyried cyflwyno safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymorth i ofalwyr. Gallai’r safonau hyn gynnwys:

- pennu’r amseroedd aros hiraf ar gyfer asesiadau gofalwyr;
- y disgwyliadau ar gyfer yr ystod o wasanaethau gofalwyr a ddylai fod ar gael fel isafswm ym mhob rhanbarth (megis gwasanaeth gofalwyr ifanc pwrpasol);
- cynnig rhagweithiol o wybodaeth a chyingor, ac eiriolaeth i’r rhai sydd ei angen; a
- y disgwyliadau o ran cynnwys gofalwyr mewn prosesau cynllunio gofal a phrosesau rhyddhau o’r ysbyty.

Dylid cyflwyno’r safonau hyn law yn llaw â chyhoeddi adroddiad cynnydd blynyddol, a ddylai ddarparu manylion y camau gweithredu i’w cymryd gan Lywodraeth Cymru lle nad yw safonau gofynnol wedi’u bodloni.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth newydd Cymru ystyried diweddaru canllawiau statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i gryfhau'r safonau ar gyfer Asesiadau Anghenion Gofalwyr. Dylai hyn, fan leiaf:

- ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth, cyngor a chymorth ac asesiadau o anghenion gael eu cynnig yn rhagweithiol i bobl a allai fod yn ofalwyr, a'i gwneud yn ofynnol i asesiadau a chynlluniau cymorth gael eu cwblhau mewn modd amserol o fewn cyfnod penodol o amser, gyda chopi ysgrifenedig yn cael ei ddarparu i'r gofalwr;
- ymchwilio i'r defnydd o derminoleg amgen (megis “sgwrs am yr hyn sy'n bwysig”) i ddisodli'r gair “asesiad,” sy'n atal rhai gofalwyr rhag eu mynychu;
- pwysleisio'r angen i'r broses asesu gael ei chynnal gyda'r gofalwr mewn ffordd gydweithredol a pharchus.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth newydd Cymru sicrhau bod y canllawiau wedi'u diweddaru ar ryddhau pobl o'r ysbyty sydd i'w cyhoeddi yn ddiweddarach eleni:

- yn cadarnhau pwysigrwydd trafodaethau cynnar gyda theuluoedd i sicrhau bod pobl yn cael eu rhyddhau'n ddiogel ac effeithiol;
- yn ei gwneud yn ofynnol i bob bwrdd iechyd gael mecanwaith ym mhob ysbyty (megis hyrwyddwr gofalwyr dynodedig) i ymgynghori â'r gofalwr cyn rhyddhau rhywun o'r ysbyty ac, os yw'r gofalwr hwnnw'n dweud nad yw'n gallu darparu gofal, i weithio gyda'r awdurdod lleol i ddarparu cymorth er mwyn gwneud trefniadau gofal amgen;
- yn gofyn am gadarnhad bod y gofalwr yn fodlon ac yn gallu darparu'r gofal angenrheidiol, ac yn rhoi gwybodaeth i'r darpar ofalwr am ei hawliau cyfreithiol.

Arweinyddiaeth ac atebolrwydd

112. Yn fwy cyffredinol, mae arweinyddiaeth ac atebolrwydd dros wasanaethau gofalwyr wedi dod i'r amlwg fel mater hollbwysig yn y dystiolaeth. Mae adroddiadau lluosog dros y pump i ddeng mlynedd diwethaf wedi nodi'n glir y problemau gyda gwasanaethau gofalwyr ac wedi cynnig argymhellion ar gyfer gwelliannau. Yr hyn sydd ar goll yw gweithredu effeithiol, ac mae'n amlwg bod yn

rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd mwy o gyfrifoldeb am hyrwyddo'r newidiadau angenrheidiol 'o'r canol'. Heb gyfeiriad cenedlaethol clir, bydd gwasanaethau lleol yn parhau i fod yn anghyson ac yn annigonol.

113. Rydym yn cydnabod y pwysau sy'n cystadlu am sylw a'r cyllid cyfyngedig sy'n wynebu awdurdodau lleol a byrddau iechyd, ac rydym yn credu bod angen goruchwyliaeth gryfach ac adnoddau pwrpasol i sicrhau bod gofalwyr yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt mor ddybryd.

114. Yn ogystal â hynny, rydym yn cydnabod bod yr heriau sy'n wynebu gofalwyr di-dâl yn cwmpasu sawl maes polisi, gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, tai a thlodi. Gall tai o ansawdd gwael a diffyg addasiadau priodol ac amserol wneud gofalu yn llawer anoddach. Yn yr un modd, mae trafnidiaeth (yn enwedig mewn ardaloedd gwledig), caledi ariannol, hawliau cyflogaeth a chysylltedd digidol i gyd yn faterion sy'n effeithio ar y rhai sy'n darparu gofal.

115. Rhaid i gefnogi gofalwyr di-dâl fod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth gyfan, yn hytrach na mater i'r portffolio gofal cymdeithasol yn unig. Rydym yn croesawu tystiolaeth y Gweinidog, a nododd ei bod wedi ymgysylltu â chydweithwyr yn y Cabinet, ac rydym yn credu bod yn rhaid i'r dull hwn barhau a chryfhau o fewn Llywodraeth nesaf Cymru. Credwn fod angen strategaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl ar draws y Llywodraeth gyfan, ac y dylai Llywodraeth nesaf Cymru roi'r cyfrifoldeb dros wella'r ddarpariaeth i ofalwyr i'r Gweinidog priodol fel blaenoriaeth gynnar.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth newydd Cymru sicrhau bod y Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yn cael ei hategu gan fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd cryf, a chynllun gweithredu clir sy'n cysylltu nodau strategol â chanlyniadau mesuradwy.

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth newydd Cymru ystyried cyflwyno gofyniad i bob Gweinidog perthnasol adrodd ar sut mae ei bortffolio yn cyfrannu at gefnogi gofalwyr di-dâl er mwyn sicrhau bod cyfrifoldeb am ofalwyr di-dâl yn cael ei rannu ar draws y llywodraeth.

Argymhelliad 12. O ystyried y diffyg cynnydd tra hysbys ers peth amser gyda gwasanaethau i ofalwyr di-dâl, credwn fod goruchwyliaeth allanol yn hanfodol. Dylai Llywodraeth newydd Cymru ymrwmo i ddarparu datganiad blynyddol i'r Senedd ar y cynnydd o ran cyflawni canlyniadau allweddol ar gyfer gofalwyr di-dâl, gan gynnwys gweithredu'r argymhellion yn yr adroddiad hwn a Chynllun Cyflawni'r Strategaeth Gofalwyr. Dylai'r datganiadau hyn:

“Sefyllfa argyfyngus”

Yr angen i fynd ati ar frys i wella cymorth i ofalwyr di-dâl

- fanylu ar welliannau mewn meysydd gan gynnwys cyfraddau Asesiadau Gofalwyr, gofal seibiant, a chymorth i ofalwyr ifanc; ac
- amlinellu unrhyw gamau pellach y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd os bydd y cynnydd yn anfoddhaol.

Casgliad 1. Dylai'r Pwyllgor a fydd yn ein holynu ystyried cynnal ymchwiliad yn ystod cyfnod y Senedd nesaf i graffu ar sut y cyflawnir yr ymrwymadau i ofalwyr di-dâl, a'r canlyniadau allweddol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) weithredu argymhellion yn yr adroddiad hwn a Chynllun Cyflawni'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl.

Argymhelliad 13. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfarwyddyd i Arolygiaeth Gofal Cymru i integreiddio gwiriadau cydymffurfiaeth parhaus ar gymorth i ofalwyr a dyletswyddau statudol sy'n ymwneud â gofalwyr di-dâl yn eu gwaith arolygu a monitro rheolaidd ar awdurdodau lleol.

Argymhelliad 14. Yn dilyn y ffaith i'r Gweinidog gytuno ag Arolygiaeth Gofal Cymru y bydd eu cyfarfodydd sicrwydd chwemisol nesaf gyda Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (sydd i'w cynnal ym mis Ebrill 2026) yn cynnwys cymorth i ofalwyr di-dâl fel pwnc trafod allweddol, dylai Llywodraeth newydd Cymru ysgrifennu at y pwyllgor a fydd yn ein holynu o fewn chwe mis er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddatblygiadau sy'n deillio o'r cyfarfodydd hynny a manylion y camau nesaf y cytunwyd arnynt.

Argymhelliad 15. Fel rhan o waith trawslywodraethol, dylai Llywodraeth newydd Cymru ystyried creu cynllun cymhorthion ac addasiadau cartref cyflym i ofalwyr di-dâl ar gyfer cymhorthion ac addasiadau cartref hanfodol a nodir fel rhan o asesiad o anghenion.

Effaith gofalu

Iechyd a llesiant gofalwyr

“I often feel depressed and almost in despair about the task in front and ahead of me”.

Gofalwr di-dâl

“I worked fulltime throughout my life about 37 hours a week with weekends off and about 4 weeks holiday a year. Now I work over 80

hours a week, 7 days a week and 52 weeks a year. I could not plan for the attrition of this on my own wellbeing”.

Gofalwr di-dâl

[Ynglŷn â bod yn ofalwr cyson], “Rydw i’n teimlo fel fy mod i yng nghanol cefnfor ac nad ydw i’n gallu dianc.”

Gofalwr di-dâl

“Pan rydych chi’n estyn allan at y gwasanaethau ac yn dweud ‘Rydw i’n cael chwalfa feddylol’ ac maen nhw’n dweud ‘does dim byd y gallwn ni ei wneud’ ac rydych chi’n sownd yno yn meddwl ‘Rydw i’n boddi ac rydych chi’n dweud wrtha i nad oes unrhyw beth ar gael’. Mae angen i hyn newid.”

Gofalwr di-dâl

116. Clywsom dystiolaeth ofidus iawn gan ofalwyr di-dâl am ddirywiad yn eu hiechyd a’u llesiant o ganlyniad i’w rôl ofalu. Dywedodd Sue Rendell, sy’n gofalu am ei gŵr, wrthym:

“my health was declining, largely from stress; I was eating too much and I was probably drinking too much, just to get through the day, and I said, ‘I can’t deal with him at home on my own.’”⁷⁵

117. Clywsom fod gofalwyr, yn enwedig gofalwyr hŷn, yn aml yn cael trafferth gyda’u hanghenion iechyd eu hunain, ac yn ei chael hi’n anodd iawn mynychu apwyntiadau meddygol. Dywedodd Chris Kemp-Philp wrthym:

“There is no such thing as a normal life for a carer. (...) I’m waiting for a knee replacement. They said I’ve been 108 weeks on the waiting list. I’ve been called to two hospital appointments to talk about it. (...) I wouldn’t have been able to go to appointments myself because I would have had nobody to stay at home to care for him. (...) There was nobody to step in

⁷⁵ Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraff 77

and help. It was 24/7 for five years. I just didn't do anything else.”⁷⁶

118. Yn ôl Kay John-Williams o ganolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr, mae’r profiad hwn yn un nodweddiadol i ofalwyr di-dâl a dywedodd nad yw pobl yn mynychu eu hapwyntiadau. Meddai’r Gweinidog:

“The longer they care, the more invisible they become.

Carers become less and less able to talk about themselves, or to talk about their needs or their health.”⁷⁷

119. Dywedodd gofalwyr wrthym, yn ogystal â chael problemau gyda’u hiechyd corfforol, eu bod hefyd yn dioddef o iechyd meddwl gwael, unigedd, gorweithio a gorflino. Dywedodd Kalpana Natarajan wrthym am yr effaith y mae gofalu wedi’i gael ar ei bywyd hi:

“The first is the physical strain.(...) tiredness, injuries, poor sleep. (...) Then what about the mental health, the stress, the anxiety, whether I'm giving medication properly? (...) Then there is social isolation. Because you're not well, you're in this country, many people don't want to come to your house. (...) Then there's an emotional guilt that because we are looking after him, we are not looking after, maybe, my grandchildren. (...)”⁷⁸

120. Clywsom fod angen clir am well mynediad at gymorth iechyd meddwl i ofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc, a ddywedodd wrthym eu bod yn poeni’n gyson am y sawl maen nhw’n gofalu amdano tra byddant yn yr ysgol. Dywedodd Albie Sutton wrthym:

“I find that, as a young carer, you always just get in that position mentally where you prioritise everyone else above yourself and you don't have time to manage your own mental health. I'd say definitely that that's the case for me—I don't manage my mental health; I don't know how to manage my mental health.”⁷⁹

⁷⁶ Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraff 124

⁷⁷ Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraffau 127 a 129

⁷⁸ Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraffau 326-332

⁷⁹ Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraff 394

121. Yn yr un modd, yn ein trafodaeth bord gron anffurfiol gyda gofalwyr ifanc, dywedwyd wrthym:

“There are so many worries in my head about what will happen when I’m away”.

“I am worrying about my mum at home all the time.”

“we need wellbeing support”.

122. Tynnodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru sylw at waith Dr Siobhan O’Dwyer o Brifysgol Birmingham, a ddangosodd fod risg uwch o hunanladdiad ymhlith gofalwyr di-dâl.

“Her research shows that carers have a level of suicide risk akin to that of veterans who have seen active service. One in eight carers has made a plan to end their own life, one in 10 has made an attempt. And that’s one in 10 at a time where, on average, local authorities have support plans for less than 0.5 per cent of the caring population”.⁸⁰

123. Tynnodd yr elusen sylw at yr angen i ofalwyr gael eu hystyried yn benodol yng nghynllun gweithredu Cymru ar atal hunanladdiad.

124. Awgrymodd Gofalwyr Cymru sawl ffordd o gefnogi gofalwyr er mwyn diwallu eu hanghenion iechyd eu hunain, gan gynnwys cael gofal amgen er mwyn iddynt allu mynychu apwyntiadau meddygol pan fydd angen, fel nad oes angen triniaeth fryd ar gyfer cyflyrau iechyd yn ddiweddarach. Awgrymwyd hefyd y dylid gwneud gwasanaethau’n fwy cyfeillgar i ofalwyr a sicrhau bod gofalwyr yn cael mwy o hyblygrwydd (neu flaenoriaeth) o ran gwneud eu hapwyntiadau a gallu mynychu triniaeth.⁸¹

125. Clywsom am fanteision gwasanaethau fel gwasanaethau eistedd (sy’n caniatáu i ofalwyr fynychu apwyntiadau meddygol tra bod rhywun yn eistedd gyda’r sawl y maent yn gofalu amdano) a gwasanaethau cwnsela.

⁸⁰ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 8

⁸¹ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 136

Y caledi ariannol sy’n wynebu gofalwyr

126. Clywsom dystiolaeth o’r caledi ariannol sy’n wynebu gofalwyr a dywedodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru wrthym:

“the poverty rate amongst unpaid carers is at 31 per cent, which is far higher than the 22 per cent poverty rate in the wider population. More than one in six carers caring for a person in their household is living in fuel poverty.”⁸²

127. Yn ystod ein trafodaethau bord gron anffurfiol gyda gofalwyr di-dâl, dywedwyd wrthym:

“We are really struggling and the financial support isn’t there”.

128. Dywedodd un gofalwr ifanc:

“I noticed my parents are struggling for money though they try to hide it from us. I noticed my parents missing meals as they can’t afford to buy more.”

129. Clywsom fod y cyfraddau tlodi uchel hyn yn cael eu gwaethygu yn sgil y ffaith bod yn rhaid iddynt leihau eu horiau gwaith, neu roi’r gorau i weithio’n gyfan gwbl er mwyn darparu gofal. Clywsom hefyd am y costau ychwanegol sy’n wynebu gofalwyr, gan gynnwys costau teithio a chyfarpar arbenigol. Dywedodd Chris Kemp-Philp wrthym:

“I gave up my career to become a full-time family carer. I didn’t realise that I’d become a carer, because I just stopped working to look after him, but, of course, having lost two incomes, to survive on half a civil service pension wasn’t great.”⁸³

130. Esboniodd fod cymhlethdodau a all godi pan nad yw pobl yn sylweddoli eu bod yn ofalwyr, gan gynnwys y ffaith nad ydynt yn ymwybodol o’r budd-daliadau a’r cymorth ariannol sydd ar gael:

“Because I hadn’t realised I was a carer, I wasn’t claiming carers allowance. We were living off his half civil service pension. That was all we had coming in. And because of that, I had 30-odd

⁸² Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 9

⁸³ Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraff 16

hours towards my pension. (...) So, I don't get a full pension because, for the 10 years that I didn't claim carers allowance, even though I was caring, I'm not credited.”⁸⁴

131. Yn ogystal â pheidio â bod yn ymwybodol ohono, dywedodd rhanddeiliaid wrthym fod Lwfans Gofalwr a budd-daliadau eraill yn annigonol, a bod yn rhaid i lawer o ofalwyr gwtogi ar eitemau hanfodol. Yn ôl Gofalwyr Cymru:

“In the last two years, our ‘State of Caring’ survey has shown a 53 per cent increase in the number of carers cutting back on things like food and heating. Fifty-three per cent in two years is a shocking statistic and shows a trajectory that is going in one direction (...) Similarly, 33 per cent more carers since 2024 are using credit cards, loans or overdrafts to try and cope with the cost of caring as a direct result of their caring roles.”⁸⁵

132. Clywsom hefyd, er bod Cronfa Cymorth i Ofalwyr Llywodraeth Cymru yn ddefnyddiol, ei bod yn gronfa fyrdymor a bod ei chyrhaeddiad yn gyfyngedig. Tynnodd Gofalwyr Cymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru sylw at y caledi ariannol y mae gofalwyr yng Nghymru yn ei wynebu. Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn gweinyddu Cronfa Cymorth i Ofalwyr gyda chyllid Llywodraeth Cymru, a dywedodd fod partneriaid cyflawni ar draws yr holl wasanaethau wedi nodi galw sylweddol am gymorth drwy'r rhaglen, yn enwedig ar gyfer grantiau caledi:

“Our challenge is meeting demand and managing this. Demand is phenomenal, and we have had to temporarily stop taking referrals at certain times as the waiting list was too large. Staff are working under pressure; they know carers are struggling so additional funding would be very beneficial.”⁸⁶

133. Dywedodd Gofalwyr Cymru wrthym fod pethau y gall ac y dylai'r Llywodraeth fod yn eu gwneud i roi gwell cefnogaeth i ofalwyr sy'n dioddef caledi ariannol, ond bod y dulliau i leddfu'r lefelau tlodi a'r tlodi dwfn a welir ymhlith gofalwyr di-dâl yn rhai ar lefel y DU ac yn cael eu gweinyddu'n fwyaf effeithlon yng Nghymru drwy'r system budd-daliadau a lles. Fodd bynnag, fe wnaethant alw ar Lywodraeth

⁸⁴ Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraff 61

⁸⁵ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 16

⁸⁶ UC18

“Sefyllfa argyfyngus”

Yr angen i fynd ati ar frys i wella cymorth i ofalwyr di-dâl

Cymru i gymryd cam mwy pendant o ran ei thrafodaethau â Llywodraeth y DU i ddangos nad yw'r system yn gweithio i ofalwyr yng Nghymru.⁸⁷

134. Yn fwy penodol, galwodd Gofalwyr Cymru am welliannau i'r system bresennol, gan gynnwys 'tâl atodol i Ofalwyr' tebyg i'r model yn yr Alban.

135. O ran strategaethau, dywedodd Gofalwyr Cymru eu bod yn gwybod bod gofalwyr yn cael eu heffeithio'n sylweddol fwy gan dlodi na'r boblogaeth gyffredinol yng Nghymru ac awgrymodd, wrth gynllunio ymyriadau polisi'n ymwneud â thlodi, y dylai gofalwyr di-dâl fod yn rhan ganolog o'r broses gynllunio honno, a ddylai gael ei chynhyrchu ar y cyd â gofalwyr hefyd i wneud yn siŵr ei bod wedi'i gwreiddio mewn realiti ac yn gweithio iddyn nhw.⁸⁸

Tystiolaeth gan y Gweinidog

136. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod cefnogi gofalwyr di-dâl yn beth cwbl briodol i'w wneud ac wedi bod yn flaenoriaeth iddi ers cael ei phenodi'n Weinidog.⁸⁹

137. Dywedodd fod dull trawslywodraethol wedi'i fabwysiadu i gefnogi gofalwyr di-dâl, a'i bod yn cael sgysiau rheolaidd gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol. Dywedodd wrthym fod yr olaf yn arbennig o bwysig oherwydd bod y mwyafrif helaeth o'r gyllideb sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol a chymorth i ofalwyr di-dâl yn dod o fewn y prif grŵp gwariant llywodraeth leol ac nid o fewn y prif grŵp gwariant iechyd a gofal cymdeithasol.⁹⁰

138. O ran caledi ariannol, dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi pobl sy'n profi anhawster ariannol eithafol drwy ei Chronfa Cymorth Dewisol.

139. Cyfeiriodd at y Gronfa Cymorth i Ofalwyr, a sefydlwyd yn 2022 ac a gafodd ei hystyn tan fis Mawrth 2029, sy'n darparu cymorth ariannol brys i ofalwyr di-dâl ar incwm isel ar gyfer eitemau neu filiau hanfodol. Dywedodd wrthym fod y buddsoddiad blyneddol yn £1.75 miliwn, gyda chyfanswm buddsoddiad o £12.25

⁸⁷ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 152

⁸⁸ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 153

⁸⁹ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2026, paragraff 39

⁹⁰ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2026, paragraff 41

miliwn. Nododd y “rhoddwyd grantiau bach i 29,500 o ofalwyr di dâl, bron dwbl y targed sef 15,000”.⁹¹

140. Cyfeiriodd hefyd at Raglen Llesiant a Grymuso Gofalwyr Llywodraeth Cymru, gan ddweud bod y rhaglen yn 2024/25 wedi darparu cymorth uniongyrchol i 81 o ofalwyr di-dâl i’w helpu i ailymuno â’r gweithlu ac wedi hyfforddi 145 o staff canolfannau gwaith i sicrhau y gallent roi gwell cefnogaeth i ofalwyr gael swyddi.⁹²

Ein barn ni – iechyd, llesiant a chaledi

141. Ni ddylai neb yng Nghymru orfod rhoi eu hiechyd a’u llesiant eu hunain mewn perygl difrifol na mynd i dlodi oherwydd eu bod yn gofalu am un o’u hanwyliaid. Ac eto mae’r dystiolaeth yn dangos bod hyn yn digwydd ar raddfa fawr.

142. Gofalwyr di-dâl yw asgwrn cefn y system iechyd a gofal; hebddynt, byddai’r system yn chwalu. Yn ogystal â’r ffaith mai cefnogi gofalwyr i ofalu am eu hiechyd a’u llesiant eu hunain yw’r ‘peth cywir i’w wneud’, mae hefyd helpu i gynnal eu perthnasoedd gofalgarg, ac atal costau llawer mwy rhag cael eu trosglwyddo i’r GIG a’r gwasanaethau cymdeithasol.

143. Rydym yn cefnogi’r galwadau am gryfhau cymorth iechyd a llesiant i ofalwyr yn sylweddol, ac fe’n trawyd yn arbennig gan y dystiolaeth o risg uwch o hunanladdiad ymhlith gofalwyr, yn ogystal â thystiolaeth gofalwyr ifanc am eu pryderon cyson yn gysylltiedig â’u rôl ofalu. Credwn fod yn rhaid i ofalwyr gael eu cydnabod fel grŵp agored i niwed mewn strategaethau iechyd meddwl a llesiant (gan gynnwys y cynllun atal hunanladdiad cenedlaethol), a chael cymorth wedi’i deilwra fel gwasanaeth cwnsela hygyrch, cymorth gan gymheiriaid, a chyfleoedd gofal seibiant i leddfu straen.

144. O ran yr anawsterau ariannol sy’n wynebu gofalwyr di-dâl, credwn fod angen gweithredu i gefnogi gofalwyr sy’n byw mewn tlodi neu sydd mewn perygl o ddioddef tlodi. Er bod rhai ysgogiadau ariannol wedi’u cadw yn ôl, mae opsiynau ar gael i Lywodraeth Cymru. Rydym yn croesawu’r ffaith y bydd y Gronfa Cymorth i Ofalwyr yn parhau tan 2029, ond yn credu bod lefel y cyllid (£1.75 miliwn yn flynyddol) yn annigonol o’i gymharu â maint yr angen, fel y dangosir gan y ffaith bod y gronfa’n cael mwy o geisiadau na’r arian sydd ar gael.

⁹¹ Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, tystiolaeth ysgrifenedig, 22 Ionawr 2026

⁹² Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, tystiolaeth ysgrifenedig, 22 Ionawr 2026

145. Rydym yn cytuno â rhanddeiliaid bod angen ateb tymor hwy, a bod gwerth mewn ymchwilio i eirioli dros ddiwygio budd-daliadau ledled y DU a darparu Tâl Atodol i Ofalwyr Cymru (neu gymorth cyfatebol) i gynyddu incwm gofalwyr. Rydym hefyd yn credu ei bod yn werth i Lywodraeth Cymru ystyried ymyriadau fel swmp-daliadau cylchol i ofalwyr ar incwm isel (gan adeiladu ar y taliad cymorth o £500 a wnaed yn 2022) neu gynlluniau i gynorthwyo gofalwyr gyda chostau ynni a hanfodion eraill.

146. Yn fwy cyffredinol, credwn ei bod yn bwysig bod gofalwyr yn cael eu cydnabod fel grŵp blaenoriaeth wrth ddatblygu ymyriadau gwrthdlodi yng Nghymru ar lefelau lleol a chenedlaethol.

147. At hynny, credwn fod helpu gofalwyr i ddychwelyd i waith, neu i aros mewn gwaith (os ydynt yn dymuno gwneud hynny) yn bwysig iawn. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ofalwyr gael gwell mynediad at wasanaethau seibiant (fel y trafodir ym Mhennod 4), yn ogystal â gweithleoedd sy’n gyfeillgar i ofalwyr wedi’u cefnogi gan fentrau’r llywodraeth.

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth newydd Cymru weithio gyda byrddau iechyd ac awdurdodau lleol i sefydlu system ffurfiol i sicrhau bod gofalwyr yn cael cymorth amserol ar gyfer eu hiechyd a’u llesiant meddyliol. Dylai hyn gynnwys cynnig apwyntiadau hyblyg ac archwiliadau iechyd rheolaidd i’r rhai y nodir eu bod yn ofalwyr di-dâl (yn enwedig y rhai sy’n darparu gofal dwyster uchel), yn ogystal â chyfeirio at grwpiau cymorth cyfoedion neu gymorth iechyd meddwl arall.

Argymhelliad 17. Rhaid i ofalwyr gael eu cydnabod fel grŵp blaenoriaeth mewn strategaethau a chynlluniau gweithredu iechyd meddwl ac atal hunanladdiad. Dylai Llywodraeth newydd Cymru adrodd ar sut y mae’n mynd i’r afael â’r risg uwch o hunanladdiad ymhlith gofalwyr, gan gynnwys yn y cynllun gweithredu arfaethedig ar atal hunanladdiad.

Argymhelliad 18. Rhaid i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sicrhau, drwy eu gwasanaethau seibiant a gofal cartref, y gall gofalwyr ddiwallu eu hanghenion iechyd eu hunain. Dylai pob awdurdod lleol ddatblygu gwasanaeth rhyddhau neu wasanaeth eistedd i ofalwyr fel y gallant fynychu apwyntiadau meddygol. Dylai Llywodraeth Cymru fonitro darpariaeth y gwasanaethau hyn, a dylai ystyried cyhoeddi canllawiau cenedlaethol i sicrhau bod gofal amgen ar gyfer iechyd gofalwyr yn gynnig safonol ledled Cymru.

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth newydd Cymru gynnal astudiaeth ddichonoldeb ar ddarparu Tâl Atodol i Ofalwyr sy'n benodol i Cymru neu gymorth ariannol uniongyrchol arall i ofalwyr, a chyhoeddi ei chanfyddiadau. Dylai wneud hyn o fewn y 12 mis nesaf.

Argymhelliad 20. Yn y tymor byrrach, dylai Llywodraeth newydd Cymru ystyried gweithredu taliadau cymorth untro ychwanegol i ofalwyr di-dâl sydd fwyaf mewn perygl o wynebu tlodi tanwydd ac argyfwng ariannol (er enghraifft, drwy efelychu ac ehangu'r fenter taliadau £500 i ofalwyr). Dylid rhoi cyhoeddusrwydd da i daliadau o'r fath a'u rhoi i bobl yn awtomatig lle bo modd er mwyn osgoi niferoedd bach o bobl yn manteisio arnynt oherwydd diffyg ymwybyddiaeth neu rwystrau gweinyddol.

Argymhelliad 21. Dylai Llywodraeth newydd Cymru ystyried cynyddu'r cyllid blynyddol ar gyfer y Gronfa Cymorth i Ofalwyr mewn ymateb i'r dystiolaeth glir o angen ymhlith gofalwyr, ac ymrwymo i hyrwyddo'r Gronfa'n rhagweithiol fel bod mwy o ofalwyr mewn angen yn ymwybodol ohoni.

Argymhelliad 22. Dylai Llywodraeth newydd Cymru sicrhau bod gofalwyr yn cael eu cydnabod fel grŵp blaenoriaeth pan fydd yn datblygu ymyriadau gwrthdlodi yng Nghymru.

4. Gwasanaethau seibiant a chymorth

“Respite is not a luxury; it is essential to maintaining carers’ capacity to care.”

Cronfa Teulu

“My key priority, regular respite, has not been met”.

Gofalwr di-dâl

“People use the word, now, ‘fight’, they use the word ‘beg’. It never used to be like that, and I’ve been working with carers for many, many years. It shouldn’t be like that.”

Kay John-Williams, Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr

“Respite is non-existent (even when they have told you that you can access 6 weeks a year) for family carers to get a break. That never happens in reality.”

Gofalwr di-dâl

“I have tried to get respite. (...) There is next to nothing available and certainly nothing on a regular planned basis. I don’t know how to keep going as the work gets harder as his health declines. I know what I need to keep going - time to recharge mind and body - but it is not available”.

Gofalwr di-dâl

Argaeledd gwasanaethau seibiant

148. Amlygodd y dystiolaeth a gawsom fel rhan o’r ymchwiliad hwn brinder difrifol o ofal seibiant ledled Cymru. Disgrifiodd rhanddeiliaid y ddarpariaeth gofal seibiant fel loteri cod post, gan ddweud yn aml ei fod prin yn bodoli. Clywsom fod y ddarpariaeth bresennol yn dameidiog ac yn anhyblyg, a hefyd yn anaddas i’r rhai ag anghenion cymhleth.

149. Dywedodd Gofalwyr Cymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru wrthym nad oedd dull cyson ledled Cymru o weithredu trefniadau gofal seibiant statudol i ofalwyr unigol, a bod y gwasanaethau’n annigonol. Yn ôl Gofalwyr Cymru:

“the availability of respite care is a serious and recurring concern for unpaid carers”.⁹³

150. Gwnaed pwyntiau tebyg gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, a ddywedodd:

“There is a shared understanding that capacity across the system – in statutory services and in the third sector – is unable to meet the demand.”

151. Dywedodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru wrthym hefyd fod sefydliadau gofalwyr lleol yn gweld cynnydd yn yr angen i ymateb i anghenion mwy cymhleth ac aciwt yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a bod gan rai sefydliadau gofalwyr lleol restrau aros am wasanaethau, yn bennaf oherwydd nifer yr atgyfeiriadau gan wasanaethau statudol a gwasanaethau eraill sydd eu hunain wedi’u gorlethu â niferoedd o bobl y mae angen cymorth a chefnogaeth arnynt, na allant ddiwallu eu hanghenion.

152. Dywedodd elusennau gofalwyr wrthym, hyd yn oed o fewn yr un sir, y gwelir amrywiadau’n aml o ran y gwasanaethau sydd ar gael a’r meini prawf cymhwysra yn dibynnu ar gyflwr y person sydd angen gofal. Dywedwyd bod daearyddiaeth ac oedran hefyd yn dylanwadu ar fynediad at wasanaethau:

“[...] a carer told us how they could not access a respite stay in a local care home in their county as they lived in the wrong GP catchment area, ‘there’s a local authority care home in Bangor called [Name] and we were told that he could only go there if our doctor’s surgery was in the Bangor area and that was the same for Llanberis as well.’

Another carer explained how their local authority offered a sitting service but only for older people with disabilities. As the

⁹³ UC31

person with a disability they cared for was under 18, the carer was not able to access a sitting service in their county.”⁹⁴

153. Hefyd, dywedodd gofalwyr fod aros mewn cyfleusterau gofal seibiant a ariennir yn breifat yn sylweddol ddrytach na lleoedd a ariennir gan awdurdodau lleol o fewn yr un cyfleuster:

“Respite care cost in a care home here is £1500 per week privately or £100 per week through the Council but the latter is not available for my husband.”⁹⁵

154. Dywedwyd wrthym hefyd fod prinder gweithlu a diffyg staff gofal medrus yn cyfyngu ar argaeledd gwasanaethau seibiant, a bod costau a diffyg gofal amgen priodol yn rhwystrau i hynny, yn enwedig o ran gofal dros nos, a amlygwyd fel bwlch yn y ddarpariaeth y mae angen mynd i’r afael ag ef fel blaenoriaeth. Yn ôl rhanddeiliaid, hyd yn oed mewn argyfwng neu achos brys, ni all adrannau gofal cymdeithasol ymateb yn gyflym bob amser a darparu gofal amgen.

155. Y neges gyson gan ofalwyr oedd y byddai seibiannau rheolaidd a dibynadwy yn gwneud y gwahaniaeth mawr i’w gallu i ymdopi. Dywedodd gofalwyr ac elusennau gofalwyr wrthym fod angen i’r seibiannau hynny fod yn hyblyg, wedi’u teilwra a’u personoli, yn hytrach na dim ond darparu gofal preswyl traddodiadol. Dywedodd Chris Kemp-Philp, gofalwr di-dâl hirdymor, wrthym ei bod wedi cael aelodaeth o gampfa yn flaenorol fel darpariaeth seibiant a oedd yn ei galluogi i fynd i nofio am awr ar y tro. Meddai:

“... for me, that was a perfect respite. I didn’t have to leave home for long and I could actually get some benefit out of it. But I couldn’t have done any of the other things that are more traditional respite.”

156. Clywsom am fanteision gallu cael seibiant gyda’r sawl y mae rhywun yn gofalu amdano, gyda chymorth. Dywedwyd wrthym am gyfle:

“for adult carers, there was a residential that they went on with the person they cared for to a place, a facility, that had a spa and things like that. But they also had someone on hand to care for the people that needed caring for, so that both parties

⁹⁴ UC31

⁹⁵ UC31

were having a great time together, but responsibility didn't fall on either of them.”⁹⁶

157. Dywedodd gofalwyr ac elusennau gofalwyr wrthym hefyd fod angen i wasanaethau cymorth fod yn ddiwylliannol sensitif. Esboniodd Hazel Lim, gofalwr di-dâl, fod y gwasanaethau seibiant a gynigiwyd i ofalwyr Tsieineaidd yn ei grŵp gofalwyr hi, gan gynnwys arhosiad mewn carafán, yn rhai generig ac nad oeddent wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion unigolion.

158. Dywedodd wrthym fod gofalwr yn ei grŵp hi wedi cael cynnig seibiant nad oedd yn ddiwylliannol sensitif a, phan geisiodd roi adborth ac awgrymiadau ar gyfer seibiant a oedd yn fwy diwylliannol briodol, dywedwyd wrthi nad dyna'r math o beth yr oeddent yn ei wneud. Teimlai Hazel Lim fod hyn yn dangos, er bod darpariaeth seibiant yn bodoli, nad yw yno er mwyn diwallu anghenion pobl a'i fod ond yn bodoli er mwyn ticio blwch.⁹⁷

159. Roedd hi'n teimlo'n gryf y dylid teilwra darpariaeth seibiant i anghenion unigolion er mwyn darparu cymorth ystyrlon. Gan sôn am y gymuned Tsieineaidd, teimlai hefyd ei bod yn bwysig bod darpariaeth seibiant yn gweithio gyda grwpiau presennol fel bod pobl yn gwybod bod yna gymuned y gellir ymddiried ynddi, eu bod yn gwybod y gallant ddweud beth sydd ei angen arnynt er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau seibiant ystyrlon.⁹⁸

160. Rodd Kalpana Natarajan, gofalwr di-dâl, yn cytuno gan ddweud wrthym:

“care cannot be one size fits all. It must be flexible, personal and culturally aware. Systems should adapt to people, not the other way around.”⁹⁹

161. Clywsom y gall rhai gofalwyr wynebu rhwystrau ieithyddol, yn enwedig y rhai o gefndiroedd ethnig leiafrifol, a, chan nad yw darparu gwasanaeth cyfieithu yn orfodol, gall fod yn anodd ymgysylltu â gwasanaethau statudol heb gyfieithydd. Dywedodd gofalwyr wrthym fod gwasanaethau'n aml yn gofyn i aelod o'r teulu, weithiau plant ifanc, gyfieithu i'r gofalwr ac nad yw hyn yn briodol yn aml. I'r gwrthwyneb, fe wnaethant hefyd ddisgrifio achlysuron pan oeddent wedi teimlo'n anghyfforddus yn cyfieithu i berthynas. Dywedodd Runa Begum wrthym:

⁹⁶ Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraff 490

⁹⁷ Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraff 267

⁹⁸ Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraff 343

⁹⁹ Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraff 347

“sometimes we’d have to take my mum to the bank, and you’d be like, ‘Oh, my mum wants this and that.’ I was older—obviously, I wasn’t five or six—in my teens, but you would get this look, ‘Oh, why is your daughter interpreting?’ And it used to make me feel really uncomfortable, and then it was, ‘Well, why are you doing that?’ ‘My mum obviously needs the help and that’s why I’m here. Instead of helping me, why are you judging?’”¹⁰⁰

162. Clywsom lawer o dystiolaeth gan ofalwyr ynglŷn â pha mor ynysig yn gymdeithasol y gall gofalu fod. Dywedodd Chris Kemp-Philp wrthym:

“[Being a carer] makes you so unreliable. You can’t make plans, because I never knew until he woke up whether he was going to be functional or completely needing my care. So, I literally couldn’t plan a day ahead, and people stop inviting you to things if you don’t turn up.”¹⁰¹

163. Dywedodd gofalwyr wrthym pa mor werthfawr oedd gwasanaethau’r trydydd sector a grwpiau cymorth gan gymheiriaid yn eu barn nhw. Can ddisgrifio ei grŵp gofalwyr lleol, dywedodd un gofalwr:

“they saved my life in 2010 when I joined them. (...) They genuinely did through the peer support.”¹⁰²

164. Roedd awdurdodau lleol yn derbyn nad oedd digon o ddarpariaeth seibiant ar gael, ond tynnwyd sylw at yr anawsterau wrth gomisiynu a threfnu gwasanaethau seibiant i ddiwallu anghenion niferus ac amrywiol iawn gofalwyr unigol. Yn ôl Jane Gebbie, llefarydd CLILC dros iechedd a gofal cymdeithasol:

“It’s not about funding and capacity, it’s actually organising it.

It’s hard to do that, to meet other people’s needs when they want it. Because if we’re being told we have to do it to meet people’s needs, it’s got to be at a time that suits them. There’s no point giving them a Tuesday and a Wednesday in respite provision if they’re in full-time work (...) That doesn’t give them

¹⁰⁰ Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraff 255

¹⁰¹ Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraff 102

¹⁰² Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraff 63

the opportunity for a break away from any of those responsibilities, because they'll come home from work and they'll still have those same responsibilities.

For someone that has a physical disability, if you're an unpaid carer, that's a very different care and support package to someone who has dementia or Alzheimer's, as an example.”¹⁰³

Tystiolaeth gan y Gweinidog

165. Fe wnaethom holi'r Gweinidog am y dystiolaeth a glywsom ynghylch y ffaith bod prinder gweithlu a diffyg staff gofal medrus yn cyfyngu ar argaeledd y ddarpariaeth seibiant. Dywedodd wrthym ei bod yn rhaid i awdurdodau lleol benderfynu ar y gweithlu sydd ei angen arnynt ar ôl cynnal asesiad o anghenion eu poblogaeth. Cydnabu fod angen data gwell i lywio'r asesiadau hynny o anghenion y boblogaeth.¹⁰⁴

166. Gofynnwyd iddi a oedd wedi ystyried darparu mwy o gyfarwyddyd cenedlaethol ar ddarpariaeth benodol ym mhob ardal, o ystyried yr amrywiad rhwng awdurdodau lleol, a'r dystiolaeth gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru y bydd wastad angen rhai gwasanaethau hanfodol. Gofynnwyd hefyd a fyddai'n ystyried neilltuo cyllid ar gyfer gofal seibiant.

“It's that dilemma between having a national policy as a Government that you want to see delivered and then how a local authority delivers that in accordance with the needs of their local population. I don't think that we can dictate that from a Government level.

We can set out the expectation about what we want to see in terms of support for any cohort of the population, but it has to be down to the local authority, through their population needs assessments, to identify what is appropriate and what is needed in their local population area.”¹⁰⁵

167. Aeth ymlaen i ddweud:

¹⁰³ Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraffau 294 a 297

¹⁰⁴ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2026, paragraffau 89-90

¹⁰⁵ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2026, paragraff 162

“I get many calls being asked to ring-fence certain elements of funding to local authorities, but we have a very clear agreement with the WLGA that we don’t do that, that local authorities have their own democratic mandate and they determine how their funding is spent.”¹⁰⁶

Cynllun Seibiannau Byr (a mentrau eraill)

168. Wedi’i sefydlu yn 2022, bwriad Cynllun Seibiannau Byr Llywodraeth Cymru yw hyrwyddo dull mwy hyblyg o ddarparu seibiannau i ofalwyr sydd wedi’u teilwra ar gyfer yr unigolyn. Gall hyn gynnwys darparu arian i brynu cyfarpar ar gyfer hobiau, aelodaeth o glybiau hamdden, sesiynau gweithgaredd a thripiâu. Nid oedd wedi’i fwriad i ddisodli’r dyletswyddau ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau seibiant.¹⁰⁷

169. Caiff y cynllun ei ddarparu gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidog fod y Cynllun wedi darparu dros 50,000 o seibiannau byr rhwng 2022 a 2025, “gan ragori’n sylweddol ar y targed o 30,000”. Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £3.5 miliwn yn flynyddol yn y Cynllun, ac wedi cyhoeddi y bydd yn parhau tan 2029, gydag ymrwymiad cyllido cyffredinol o £24 miliwn.¹⁰⁸ Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig ar gyllideb ddrafft 2026-27, dywedodd Llywodraeth Cymru fod y galw am y Cynllun yn parhau i fod yn fwy na’r cyflenwad.

170. Yn ôl gwerthusiad annibynnol¹⁰⁹ gan Brifysgol Bangor, llwyddodd y Cynllun Seibiannau Byr i gyrraedd 24,331 o ofalwyr erbyn 2023/24. Canfu’r gwerthusiad fod y cynllun wedi mynd i’r afael â bwlch hollbwysig, gan nad oedd 86% o’r oedolion a gymerodd ran wedi cael seibiannau o ofalu mewn mannau eraill yn ystod y flwyddyn flaenorol. O blith y gofalwyr ifanc a’r gofalwyr ifanc a ymatebodd i arolwg y gwerthusiad, dywedodd 75% nad oeddent wedi cael seibiant yn ystod y flwyddyn flaenorol.

171. Clywsom gan randdeiliaid fod y Cynllun yn cael ei werthfawrogi, ei fod yn fodel sy’n gweithio, a bod partneriaid cyflawni a gofalwyr fel ei gilydd yn gwerthfawrogi hyblygrwydd ac amrywiaeth y seibiannau sydd ar gael i ofalwyr

¹⁰⁶ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2026, paragraff 164

¹⁰⁷ Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, tystiolaeth ysgrifenedig, 22 Ionawr 2026

¹⁰⁸ Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, tystiolaeth ysgrifenedig, 22 Ionawr 2026

¹⁰⁹ Gwerthusiad o’r Cynllun Seibiannau Byr Cenedlaethol, Adroddiad Interim: Crynodeb, Prifysgol Bangor, Chwefror 2025

drwy'r Cynllun.¹¹⁰ Cyfeiriwyd yn gyson yn y dystiolaeth ysgrifenedig at Bridging the Gap - Cynllun Seibiannau Byr Gwent¹¹¹ fel enghraifft gadarnhaol o gynllun effeithiol sy'n rhoi cyfleoedd i ofalwyr gael seibiannau.

172. Fodd bynnag, roedd hefyd yn amlwg bod y Cynllun yn gyfyngedig o ran ei gyrhaeddiad, a bod y galw yn llawer mwy na'r cyflenwad. Pwysleisiodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, er gwaetha'r ffaith i'r Cynllun ragori ar ei darged cyrhaeddiad, mai dim ond canran fach o'r boblogaeth gofalwyr sydd angen cymorth i gael seibiant y mae'n ei chyrraedd. Dywedodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru fod partneriaid cyflawni wedi adleisio'r pwnc hwn, a nododd fod y galw'n fwy na'r cyflenwad yn gyson:

“The demand for short breaks is so high, we could have delivered four or five times over if we'd had any extra capacity, so it has been a challenge to manage expectations. We are in position when we are not publicly advertising the project as we would have to turn away so many carers which would detrimentally impact on our reputation.”¹¹²

173. Dywedodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru fod cyrhaeddiad presennol y Cynllun Seibiannau Byr, o reidrwydd, yn cael ei ddylanwadu gan yr adnoddau a'r cyllid sydd ar gael, yn hytrach nag mewn ymateb i anghenion y boblogaeth o ofalwyr. Dadleuodd y byddai mwy o fuddsoddiad yn y rhaglen ataliol hon yn galluogi mwy o gyrhaeddiad ac effaith i ofalwyr, yn cynnal gofalwyr am gyfnod hwy ac yn lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn diffygio.¹¹³

174. Mae nifer o randdeiliad, gan gynnwys Gofalwyr Cymru, wedi mynegi pryder y gallai awdurdodau lleol fod wedi lleihau'r gefnogaeth ers i'r Cynllun Seibiannau Byr gael ei gyflwyno. Dywedodd Gofalwyr Cymru, o ystyried cyn lleied o ofalwyr sy'n cael cynlluniau cymorth gan eu hawdurdod lleol, fod angen sicrwydd ar ofalwyr bod cyllid cenedlaethol ar gyfer y cynllun wedi ategu, yn hytrach na disodli, y cymorth y dylai awdurdodau lleol ei ddarparu o dan eu dyletswyddau statudol yn Neddf 2014.

175. Fe wnaethom ofyn i CLILC ac ADSS Cymru a oedd unrhyw ostyngiadau o'r fath wedi bod yn y ddarpariaeth statudol ers cyflwyno'r Cynllun. Dywedodd Jane

¹¹⁰ UC18

¹¹¹ Cynllun Seibiannau Byr Gwent - Bridging the Gap

¹¹² UC18

¹¹³ UC18

“Sefyllfa argyfyngus”

Yr angen i fynd ati ar frys i wella cymorth i ofalwyr di-dâl

Gebbie, llefarydd CLILC dros iechyd a gofal cymdeithasol, wrthym yn ddigamsyniol nad oedd hynny wedi digwydd, ond roedd yn cydnabod nad oes digon o ddarpariaeth ac y byddai poblogaeth sy’n cynyddu a chanddi anghenion cymhleth ychwanegol yn golygu y byddai angen adnoddau ychwanegol yn y dyfodol.¹¹⁴

Tystiolaeth gan y Gweinidog

176. Mae tystiolaeth y Gweinidog yn tynnu sylw at lwyddiant cynllun Seibiannau Byr Llywodraeth Cymru a nododd ei fod wedi darparu dros 50,000 o seibiannau byr rhwng 2022 a 2025 (gan ragori ar y targed o 30,000). Dywedodd fod 80 y cant o’r rhai a oedd yn elwa o’r cynllun yn darparu mwy na 50 awr o ofal yr wythnos ac nad oedd y rhan fwyaf o ofalwyr wedi cael unrhyw seibiant arall yn ystod y 12 mis blaenorol. At hynny, roedd bron i hanner y rhai a ddefnyddiodd y cynllun yn anhysbys i’r gwasanaethau o’r blaen a gellid eu cyfeirio at wasanaethau eraill o ganlyniad i’r cyswllt.¹¹⁵

177. Dywedodd y Gweinidog fod hyn yn dangos bod y cynllun yn “canolbwyntio’n llwyddiannus ar y rheini sy’n darparu’r lefelau uchaf o ofal ac nad ydynt yn cael seibiant fel arall”.¹¹⁶

178. O ran y cyllid ar gyfer y cynllun, dywedodd wrthym fod buddsoddiad blynyddol Llywodraeth Cymru yn £3.5 miliwn, ac “rydym wedi cyhoeddi y bydd y cynllun yn parhau hyd at 2029; sef ymrwymiad cyllid o £24m i gyd”.¹¹⁷

179. Tynnodd sylw hefyd at ddarpariaeth flynyddol Llywodraeth Cymru o £360,000 i’r rhaglen Take a Break drwy grant Cronfa’r Teulu, sy’n darparu cymorth i ofalwyr di-dâl a phlant anabl a’r rhai sy’n ddifrifol wael.¹¹⁸

180. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidog fod ei llythyr at arweinwyr awdurdodau lleol, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2025, yn gofyn i awdurdodau lleol adolygu eu darpariaeth seibiant ac yn tynnu sylw at y ffaith ei bod yn werth i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ystyried dull rhanbarthol.¹¹⁹

¹¹⁴ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 292

¹¹⁵ [Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, tystiolaeth ysgrifenedig, 22 Ionawr 2026](#)

¹¹⁶ [Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, tystiolaeth ysgrifenedig, 22 Ionawr 2026](#)

¹¹⁷ [Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, tystiolaeth ysgrifenedig, 22 Ionawr 2026](#)

¹¹⁸ [Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, tystiolaeth ysgrifenedig, 22 Ionawr 2026](#)

¹¹⁹ [Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, tystiolaeth ysgrifenedig, 22 Ionawr 2026](#)

181. Fe wnaethom herio’r Gweinidog ynghylch yr awgrymiadau bod awdurdodau lleol yn lleihau’r cymorth y maent yn ei ddarparu o ganlyniad i’r Cynllun Seibiannau Byr. Dywedodd nad oedd wedi gweld unrhyw dystiolaeth o hynny, ond y byddai’n gwneud ymholiadau. Meddai’r Gweinidog:

“As far as I’m concerned, it remains a statutory obligation of the local authority. I will reiterate that the short breaks scheme is not a replacement for statutory respite, it is an additional enhanced scheme to provide further support for carers.”¹²⁰

Heriau comisiynu a chyllido

182. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at y problemau parhaus gyda chyllid blynyddol a thymor byr ar gyfer gwasanaethau’r trydydd sector. Roedd neges glir gan elusennau gofalwyr ac awdurdodau lleol am yr angen am gyllid mwy cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau cymorth i ofalwyr, gan gynnwys gofal seibiant, seibiannau byr a gofal amgen priodol. Dywedodd Kay John-Williams, o Ganolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr, wrthym:

“We’re holding, as organisations, hundreds and hundreds of people now who are becoming very unwell themselves and have to fight for ongoing funding. There should just be that ongoing funding and always developing what the carers need and what services.”¹²¹

183. Tynnodd elusennau gofalwyr sylw at yr angen am fwy o fuddsoddiad mewn gwasanaethau gofalwyr, gyda Gofalwyr Cymru yn dweud wrthym:

“(…) we’ve been flat funded on the services that we deliver on behalf of the Welsh Government since 2022. We’ve worked out that, if we were to receive inflationary uplifts year on year, we’d have an extra about £50,000 to work with, which would help us do a lot more.

We consistently overdeliver on our responsibilities, every single year, against what we’re scheduled to do, but we’re getting real-terms cuts every single year, and I know that that’s the

¹²⁰ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2026, paragraff 158

¹²¹ Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraff 173

“Sefyllfa argyfyngus”

Yr angen i fynd ati ar frys i wella cymorth i ofalwyr di-dâl

situation for lots of other charities across Wales doing similar work.”¹²²

184. Adleisiwyd y pwyntiau am gyllid annigonol a sefydlog ar gyfer gwasanaethau gofalwyr gan Greg Thomas, Prif Weithredwr Canolfan Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot, ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, gyda’r olaf hefyd yn tynnu sylw at broblemau gyda chyllid sy’n cyrraedd yn hwyr iawn yn y flwyddyn, gan ddweud:

“decisions to issue funding in the autumn with ‘Please get this money out of the door by quarter four’, (...) doesn’t allow for effective long-term planning and it keeps it as very much a sticking plaster, which creates real instability in the sector.

So, if we think about recruitment and retention within these vital services, it’s really, really difficult when the funding streams are inconsistent and not to the level that we need them to be.”¹²³

185. Yn ôl Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, mae angen rhoi sefydliadau’r trydydd sector ar yr un sylfaen â phartneriaid statudol er mwyn cydnabod ei safle fel rhan hanfodol o sicrhau bod hawliau’n cael eu bodloni o dan y Ddeddf.¹²⁴

186. Dywedodd CLILC ac ADSS Cymru wrthym, er (yn eu barn nhw) y gwelwyd cynnydd sylweddol ers cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), fod heriau sylweddol yn parhau, a bod awdurdodau lleol angen adnoddau a chapasiti ychwanegol yn ddybryd er mwyn eu goresgyn.¹²⁵ Dywedodd Catrin Perry, Cadeirydd Penaethiaid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Cymru Gyfan, wrthym:

“we don’t have the resources and the provision across Wales consistently to meet the needs of those [unpaid] carers.”¹²⁶

187. Dadleuodd:

“As council leaders, we’re delivering excellent services for some of our carers, we just can’t deliver enough of them. And

¹²² Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 29

¹²³ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraffau 31 a 35

¹²⁴ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 36

¹²⁵ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraffau 185 a 190

¹²⁶ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 193

particularly around assessments, around the delivery of respite support services, we would always prioritise residential, long-term stays over respite, and that's backwards, essentially, but we need that provision and that capacity in order to deliver some of that.”¹²⁷

188. Cydnabu Dilwyn Morgan, llefarydd CLILC dros iechyd a gofal cymdeithasol, “oherwydd y wasgfa ariannol sydd wedi bod ar awdurdodau lleol a phartneriaid, efallai ein bod ni’n euog o adael gofalwyr di-dâl i fynd ychydig bach oddi ar y radar”¹²⁸.

189. Yn ogystal â phryderon ynghylch diffyg adnoddau i ddiwallu anghenion gofalwyr, galwodd awdurdodau lleol am fwy o gysondeb mewn cyllid ar gyfer darparwyr trydydd sector, yn hytrach na’r trefniadau ‘dechrau a stopio’ presennol. Dywedwyd wrthym fod gofalwyr wedi adrodd yn ôl iddynt gan ddweud bod cyllid ar gyfer gwasanaethau’r trydydd sector yno un funud ond efallai na fydd yno’r flwyddyn nesaf neu’r flwyddyn wedyn.¹²⁹ Yn ôl Dilwyn Morgan, mae:

“angen cyllid cynaliadwy, tymor hir fel ein bod ni’n gallu gweithredu yn fwy nag o flwyddyn i flwyddyn ac yn y blaen. Dw i’n meddwl bod hynny’n allweddol.”¹³⁰

190. Roedd Claire Marchant, Cadeirydd ADSS Cymru, yn cytuno gan alw am:

“stable and sustainable funding for preventative support, particularly short breaks, and that's got to be part of sustainable funding for the whole of social care in Wales.”¹³¹

191. Ategwyd hynny gan Jane Gebbie, a ddywedodd fod angen mynd i’r afael â heriau ehangach o ran cyllid a gweithlu gofal cymdeithasol hefyd.¹³²

192. Ar wahân, tynnodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru sylw at ddiffyg tryloywder o ran y ffordd yr adroddir ar wariant. Dywedodd:

“In 2022-23, the Welsh Government reported that a total of £12.3m was allocated by RPBs to support unpaid carers, which

¹²⁷ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 187

¹²⁸ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 195

¹²⁹ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 193

¹³⁰ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 198

¹³¹ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 318

¹³² Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 313

it notes is 5% above the minimum expected investment. No further breakdown of the figures is provided in national reporting with RIF, Short Breaks and health board funding accounted for together.”¹³³

193. Dywedodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru hefyd, er gwaethaf y ffaith bod cyllidebau ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a’r Gronfa Buddsoddi Rhanbarthol wedi’u cadarnhau tan 2027, fod sefydliadau gofalwyr lleol yn parhau i gael contractau blynyddol i ddarparu rhaglenni a ariennir gan y Gronfa Buddsoddi Rhanbarthol, megis cefnogi gofalwyr drwy’r cyfnod pan gaiff rhywun ei ryddhau o’r ysbyty. Dywedwyd wrthym fod y patrwm hwn yr un fath gyda rhai byrddau iechyd, a bod ansicrwydd bob blwyddyn ynghylch parhad y cyllid i gefnogi gwaith gyda gofalwyr di-dâl. Dywedwyd wrthym fod hyn yn arwain at amgylchedd o ansicrwydd ar gyfer gwasanaethau a’r staff profiadol sy’n eu darparu, ac yn y pen draw bod perygl o greu bylchau posibl mewn cymorth i ofalwyr di-dâl wrth i wasanaethau baratoi i gamu i lawr ac yna ailsefydlu’n flynyddol.¹³⁴

194. Tynnodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru sylw hefyd at broblemau gyda chontractau a gomisiynwyd nad oeddent yn talu cost lawn darparu gwasanaethau. Dywedodd wrthym fod sefydliadau gofalwyr lleol wedi nodi bod gwerthoedd contractau yn aml yn gostwng gryn dipyn yn is na chost wirioneddol darparu gwasanaethau er mwyn diwallu’r angen, neu’n cwmpasu dim ond rhan o’r gwasanaeth llawn a ddarperir gan y trydydd sector. Hefyd,

“there is often an expectation that local carer organisations seek alternative forms of funding to deliver not only on the ‘additional’ costs and services that may enhance carer experience, but to supplement aspects of the delivery of their local authority, health board or RPB commissioned service.”¹³⁵

195. Dywedodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru fod hyn yn arbennig o wir mewn perthynas ag ariannu gwasanaethau gofalwyr ifanc. Dywedwyd wrthym mai’r sefydliad gofalwyr lleol yw’r prif ddarparwr gwasanaethau gofalwyr ifanc mewn ardal yn aml. Yn ôl Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, er gwaethaf hyn, mae llawer o sefydliadau lleol wedi nodi mai eu prif ffynhonnell gyllido ar gyfer y gwasanaeth hwn yw’r Loteri Genedlaethol, neu ymddiriedolaethau a sefydliadau

¹³³ UC18

¹³⁴ UC18

¹³⁵ UC18

bach. Mewn un ardal awdurdod lleol, meddai, gwneir buddsoddiad bach o £10,000 y flwyddyn i'r sefydliad gofalwyr lleol gan bartneriaid statudol i gefnogi gofalwyr ifanc yn yr ysgol. Mae gweddill y gwasanaeth, sy'n cynnwys allgymorth i bob ysgol leol, yn cael ei ariannu gan y Loteri.¹³⁶

196. Dywedodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru wrthym ei bod yn ymwybodol, mewn rhan arall o Gymru, fod gwerth gwasanaethau a gomisiynir gan y sefydliad gofalwyr lleol yn llai na thraean o'i incwm blyneddol. Aeth ymlaen i ddweud:

“However, there is a precedent where the service reports on 100% of their delivery in annual progress reports to their statutory partner, thus giving the impression that the services funded from charitable sources are contributors to meeting statutory duties.”¹³⁷

197. Fe wnaethom gyflwyno'r pwyntiau hyn i gynrychiolwyr yr awdurdodau lleol, a gofyn iddynt a oedd angen gwella eu trefniadau comisiynu o ganlyniad i hynny. Dywedwyd wrthym eu bod yn ceisio gwella'n barhaus, ac y bydd asesiadau newydd o anghenion y boblogaeth (sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol) yn adlewyrchu anghenion pobl yn well ac yn rhoi gwell trefniadau comisiynu a bwriad iddynt.¹³⁸ Fe wnaethant hefyd dynnu sylw at bwysigrwydd y trydydd sector, gan ddweud na fyddent yn gallu darparu'r gwasanaethau hebddynt. Roeddent yn derbyn bod angen iddynt edrych ar eu cydweithwyr yn y trydydd sector a bod yn gynaliadwy.¹³⁹

Tystiolaeth gan y Gweinidog

198. Nododd tystiolaeth y Gweinidog fod gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyfrifoldebau i hyrwyddo camau i gydgomisiynu gwasanaethau, yn seiliedig ar eu hasesiadau o anghenion y boblogaeth. Dywed fod Llywodraeth Cymru yn mynnu bod o leiaf 5 y cant (£7.34 miliwn) o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol flynyddol gwerth £146.8 miliwn yn cael ei defnyddio ar gyfer gwasanaethau cymorth i ofalwyr. O fewn y 5 y cant hwn, darperir £1 filiwn y flwyddyn i fyrddau iechyd er mwyn darparu gwasanaeth cymorth i ofalwyr pan fydd y person y maent yn gofalu amdano yn yr ysbyty.

¹³⁶ UC18

¹³⁷ UC18

¹³⁸ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 310

¹³⁹ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 313

199. Nododd hefyd fod Llywodraeth Cymru yn ariannu Gofalwyr Cymru i ddarparu cymorth i gynrychiolwyr gofalwyr di-dâl ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan ddweud ei bod yn “bwysig y caiff lleisiau gofalwyr di-dâl eu clywed yn y fforymau hyn”¹⁴⁰.

200. Fe wnaethom dynnu sylw at bryderon rhanddeiliaid ynghylch problemau gyda chyllid blynyddol a chyllid tymor byr ar gyfer gwasanaethau'r trydydd sector, a gofyn a fyddai cyllideb aml-flwyddyn yn drefniant gwell. Cydnabu'r Gweinidog y pryderon yn y maes hwn, a dywedodd fod hyn yn rhywbeth y byddai angen ei adolygu'n barhaus oherwydd dim ond pan fydd Llywodraeth Cymru yn gwybod faint o gyllid fydd ganddi y bydd modd dyrannu cyllid.

201. Nododd fod rhai o'r grantiau'n grantiau amlflwyddyn, er enghraifft, y grant gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy (a gafodd ei ymestyn yn ddiweddar am flwyddyn arall), a dywedodd:

“where we are in a position to at least give indications of multi-year funding, we would want to be able to do that. (...)

from the Welsh Government's point of view, the way in which the UK Government is now dealing with the allocation of funding to Wales, we have more than a year's indication of where that funding is going, so we can start to have those conversations, I think, about where we may be in a position to look at at least giving more than one year, or, if not an absolute guarantee, an indication of what might happen a year after”¹⁴¹

202. Dywedodd Alistair Davey, Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, a Denise Moultrie, pennaeth polisi ar gyfer gofalwyr di-dâl, Llywodraeth Cymru, wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi gallu cyhoeddi ‘llythyrau cysur’ i'r trydydd sector fel ffordd o ddangos bod Llywodraeth Cymru yn mynd i ddarparu cyllid ond nad oedd hynny wedi'i warantu. Cyfeiriwyd hefyd at y fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth; cod ymarfer i helpu awdurdodau lleol i gomisiynu gwasanaethau mewn ffordd fwy cynaliadwy.¹⁴²

¹⁴⁰ Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, tystiolaeth ysgrifenedig, 22 Ionawr 2026

¹⁴¹ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2026, paragraff 46

¹⁴² Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2026, paragraffau 47-50

Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

203. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at nifer o faterion yn ymwneud â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan gynnwys cynrychiolaeth gofalwyr.

204. O ran cynrychiolaeth gofalwyr ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, roedd elusennau gofalwyr yn teimlo nad oedd y cynrychiolwyr hyn bob amser yn cael eu hystyried yn bartneriaid cyfartal. Dywedodd Gofalwyr Cymru fod rhai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn well nag eraill o ran cefnogi cyfranogiad eu Cynrychiolwyr Gofalwyr, ond eu bod yn teimlo y gall rhai Cynrychiolwyr Gofalwyr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol deimlo bod eu cyfranogiad, ar adegau, yn symbolaidd.¹⁴³ Dywedwyd bod angen mwy o gydgyngyrchu o fewn Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o ran gofalwyr di-dâl, ynghyd â gwell hyfforddiant, mwy o gymorth ac y dylid rhoi mwy o amser iddynt.¹⁴⁴

205. Dadleuodd Gofalwyr Cymru hefyd y dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sefydlu pwyllgor sefydlog pwrpasol i ystyried anghenion ac adborth gofalwyr, wedi'i gyd-gadeirio gan ofalwyr, gan ddilyn yr arfer gorau a welwyd eisoes mewn rhai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Fe wnaethant ddweud wrthym, er mwyn gwella cynrychiolaeth gofalwyr ac ystyried yr anawsterau y gall gofalwyr eu hwynebu o ran mynychu cyfarfodydd oherwydd natur anrhagweladwy eu dyletswyddau gofalu, y dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gynnig gofal amgen/seibiant â thâl ac y dylai pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol benodi o leiaf ddau Gynrychiolydd Gofalwyr (fel y mae rhai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eisoes yn ei wneud).¹⁴⁵

206. Fe wnaethom herio awdurdodau lleol ynghylch y pwyntiau hyn, a dywedwyd wrthym nad oeddent yn eu derbyn. Can siarad ar ran ei Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ei hun, dywedodd Jane Gebbie fod gan y bwrdd bobl sydd â phrofiad personol sy'n ei helpu i ddarparu ei holl wasanaethau.¹⁴⁶

207. Roedd Dilwyn Morgan, llefarydd CLILC dros iechyd a gofal cymdeithasol, yn cefnogi hynny, gan ddweud:

¹⁴³ UC31

¹⁴⁴ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraffau 48-49

¹⁴⁵ UC31

¹⁴⁶ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 212

“mae gwaith y byrddau rhanbarthol wastad yn cynnwys llais y defnyddwyr, beth bynnag ydy'r pwnc—a lle mae gofalwyr a gofalwyr ifanc yn y cwestiwn mae hynny'r un mor wir.”¹⁴⁷

208. Fodd bynnag, cydnabu y bu “[g]wendid cenedlaethol” o ran Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn rhannu ymarfer da. Dywedodd “mae yna gymaint o beilotau ac yn y blaen, projectau bach wedi’u hariannu yn y tymor byr yn digwydd sydd yn llwyddiannus ac rydym ni’n gadael iddyn nhw fynd. Dydyn ni ddim yn rhannu’r wybodaeth a’r data o’r cynlluniau yna”¹⁴⁸.

Ein barn ni

209. Mynediad at seibiannau a gofal amgen oedd yr angen mwyaf heb ei ddiwallu a nodwyd gan ofalwyr yn y dystiolaeth a gawsom ganddynt. Er eu bod wedi’u disgrifio fel ‘hanfodol’ ar gyfer cynnal gofalwyr, mae’r galw’n llawer mwy na’r cyflenwad, a dywedodd gofalwyr o bob rhan o Gymru wrthym eu bod yn cael trafferth cael hyd yn oed ychydig oriau o egwyl.

210. Nid moethusrwydd yw seibiannau rheolaidd, dibynadwy. Maent yn hanfodol ar gyfer llesiant corfforol a meddyliol gofalwyr a’u gallu i barhau yn eu rolau. Ac eto mae’r dystiolaeth a gyflwynwyd inni yn dangos bod gofal seibiant mewn argyfwng – yn rhy aml nid yw ar gael, nid yw’n addas, neu nid yw’n ddigonol.

211. Mae hyn wedi bod yn dra hysbys ers blynyddoedd lawer, ac adroddwyd ar hynny yn 2019 gan y Pwyllgor a’n rhagflaenodd, ond bach iawn fu’r cynnydd. Rydym yn arbennig o bryderus ynghylch y diffyg gofal seibiant a gofal amgen i’r rhai yn y sefyllfaoedd gofal mwyaf heriol, fel gofalu am rywun ag anghenion meddygol cymhleth neu ddementia, ac mae adroddiadau nad yw seibiant dros nos neu mewn argyfwng ar gael pan fo’i angen yn frawychus, gan roi gofalwyr a’r rhai y maent yn gofalu amdanynt mewn perygl mawr.

212. O ran gofal seibiant a gofal amgen, nid yw dull “un ateb sy’n addas i bawb” yn dderbyniol. Rhaid i wasanaethau seibiant fod yn llawer mwy hyblyg a chanolbwyntio ar yr unigolyn. Rhaid iddynt fod ar gael ar yr adegau ac ar ffurf sy’n helpu’r gofalwr, boed hynny’n ychydig oriau o seibiant yn ystod y dydd, seibiant dros y penwythnos, neu gymorth sy’n caniatáu i’r gofalwr a’r sawl sy’n derbyn gofal gael gwyliau gyda’i gilydd.

¹⁴⁷ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 215

¹⁴⁸ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 215

213. Hoffem hefyd bwysleisio nad yw ystyriaethau diwylliannol ac ieithyddol yn ddewisol. Maent yn hanfodol i ddarparu cymorth ystyrion, ac mae’n gwbl annerbyniol nad yw gofalwyr o gymunedau ethnig leiafrifol yn cael cynnig gwasanaethau seibiant sy’n ddiwylliannol sensitif, neu eu bod yn wynebu rhwystrau ieithyddol oherwydd diffyg gwasanaethau cyfieithu. Rhaid i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sicrhau bod gwasanaethau seibiant a chymorth yn diwallu anghenion amrywiol pob cymuned yng Nghymru, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig.

214. Rydym yn cydnabod llwyddiant Cynllun Seibiannau Byr Llywodraeth Cymru o ran darparu egwyl werthfawr i lawer o ofalwyr, ac rydym yn croesawu’r ffaith ei fod wedi cael ei ymestyn tan 2029, a bod y cyllid wedi cael ei gynyddu. Fodd bynnag, mae’r ffaith bod y cynllun hwn yn bodoli, a’r ffaith bod y rhan fwyaf o ofalwyr a oedd yn ei ddefnyddio yn darparu mwy na 50 awr o ofal yr wythnos ac nad oeddent wedi cael unrhyw seibiant arall yn ystod y flwyddyn flaenorol, yn awgrymu prinder sylweddol yn y ddarpariaeth seibiant statudol. Rhaid i’r Cynllun Seibiannau Byr barhau i fod yn rhywbeth sy’n ychwanegol at ddyletswyddau statudol awdurdodau lleol yn hytrach na’u disodli. Roeddem yn falch o glywed y Gweinidog yn pwysleisio’r pwynt hwn yn ei thystiolaeth, ond credwn y bydd angen monitro’r sefyllfa’n fanwl.

215. Er mwyn sicrhau bod gofalwyr yn cael digon o seibiant a chymorth, bydd angen camau beiddgar ac ymrwymiad i ddarparu rhagor o gyllid. Mae buddsoddi mewn gofal seibiant a gofal amgen yn fesur ataliol hirdymor sy’n helpu i atal methiannau mewn gofal sydd, yn y pen draw, yn gofyn am ymyriadau llawer mwy costus. Er ein bod yn cydymdeimlo â’r pwysau ar gyllidebau a’r gweithlu gofal cymdeithasol, mae cost ddynol ac ariannol peidio â darparu gofal seibiant a gofal amgen yn llawer uwch.

216. Rydym yn credu y dylai datblygu cynllun gweithredu cynhwysfawr i ehangu a gwella’r ddarpariaeth gofal seibiant fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth newydd Cymru. Rhaid i Lywodraeth newydd Cymru fod yn gryfach o ran ei harweinyddiaeth, gan osod disgwyliadau sylfaenol mewn perthynas ag argaeledd darpariaeth seibiant ym mhob rhanbarth a mynd i’r afael â’r cwestiwn sylfaenol o adnoddau. Yn ymarferol, credwn fod hyn yn golygu darparu mwy o gyllid, wedi’i dargedu at, ac wedi’i glustnodi ar gyfer, gwasanaethau seibiant a chymorth i ofalwyr. Mae angen cynllunio’n well hefyd er mwyn datblygu capasiti’r gweithlu.

217. Rydym hefyd yn credu bod angen adolygu’r model comisiynu ar gyfer gwasanaethau gofalwyr. Mae grantiau tymor byr, munud olaf yn arwain at

“Sefyllfa argyfyngus”

Yr angen i fynd ati ar frys i wella cymorth i ofalwyr di-dâl

ansicrwydd ac yn llesteirio cynllunio a thwff. Mae gofalwyr di-dâl yn dibynnu’n fawr ar ddarparwyr y trydydd sector am gymorth. O’r herwydd, rhaid sicrhau bod y cyllid ar gyfer y darparwyr hyn yn gynaliadwy. Mae setliadau cyllido amlflwyddyn gyda chontractau sy’n gysylltiedig â chwyddiant a chadarnhad cynnar o gyllid yn hanfodol er mwyn cadw staff medrus ac i ehangu gwasanaethau hanfodol i ofalwyr. Yn ogystal â hynny, rydym yn gweld achos clir dros fwy o dryloywder fel y gellir olrhain gwariant ar gymorth i ofalwyr ym mhob ardal leol, a’r canlyniadau, yn hawdd.

Argymhelliad 23. Dylai Llywodraeth newydd Cymru ddatblygu cynllun gweithredu cynhwysfawr i ehangu a gwella’r ddarpariaeth gofal seibiant i ofalwyr di-dâl. Dylai hyn:

- gynnwys safonau gofynnol ar gyfer darparu gofal seibiant a gofal amgen ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru, gan gynnwys sicrhau darpariaeth ddigonol o ofal dros nos a gofal brys;
- monitro’r ddarpariaeth yn erbyn y safonau gofynnol hynny; a
- cyhoeddi’r canfyddiadau’n flynyddol, ynghyd â manylion y camau y bydd yn eu cymryd os bydd unrhyw awdurdod lleol yn methu’n gyson â darparu’r lefel ofynnol o ofal seibiant.

Argymhelliad 24. Er mwyn sicrhau sefydlogrwydd mewn gwasanaethau cymorth i ofalwyr, dylai Llywodraeth newydd Cymru ystyried newid i drefniadau ariannu amlflwyddyn ar gyfer y trydydd sector ac awdurdodau lleol, yn debyg i’r ymrwymadau ariannu amlflwyddyn ar gyfer rhaglenni pwysig fel y Cynllun Seibiannau Byr a’r Gronfa Cymorth i Ofalwyr. Lle bo modd, dylai annog a galluogi Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, awdurdodau lleol a byrddau ieuchyd i gynnig contractau tair i bum mlynedd ar gyfer gwasanaethau allweddol i ofalwyr, a dylai’r Llywodraeth ei hun geisio cyhoeddi cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth i ofalwyr yn gynnar yn y flwyddyn ariannol er mwyn helpu’r trydydd sector i gynllunio, a recriwtio a chadw staff.

Argymhelliad 25. Dylai Llywodraeth newydd Cymru ystyried clustnodi’r cyllid a ddarperir ar gyfer gwasanaethau seibiant a chymorth i ofalwyr.

Argymhelliad 26. Dylai Llywodraeth newydd Cymru wella tryloywder ac atebolrwydd drwy ei gwneud yn ofynnol i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gyllid a pherfformiad gofalwyr, gan fanylu ar

faint o gyllid sy’n cael ei wario ar wasanaethau gofalwyr yn y rhanbarth, o ba ffynhonnell y daw, a’r canlyniadau sy’n cael eu cyflawni.

Argymhelliad 27. Rhaid i Lywodraeth newydd Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i wella’r ffordd y maent yn ymgysylltu â gofalwyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol, gyda’r nod o gydgyhyrchu gwasanaethau seibiant sy’n ddiwylliannol sensitif ac sy’n mynd i’r afael ag anghenion cymunedau amrywiol o ofalwyr. Dylai Llywodraeth Cymru fonitro’r cynnydd yn hyn o beth.

Argymhelliad 28. Dylid cydgynhyrchu cymorth a gwasanaethau i ofalwyr di-dâl gyda gofalwyr di-dâl ar bob lefel – yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. I’r perwyl hwn, credwn y dylai Llywodraeth Cymru a’r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol newydd gryfhau llais gofalwyr di-dâl yn y broses o wneud penderfyniadau a gwella eu cynrychiolaeth ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. I’r perwyl hwn, dylid annog nifer o gynrychiolwyr gofalwyr ar bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a dylai pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ddarparu cymorth gwell i gynrychiolwyr gofalwyr, gan gynnwys hyfforddiant, tâl cydnabyddiaeth a gofal amgen lle y bo’n briodol, er mwyn galluogi gofalwyr i gael eu cynnwys mewn ffordd ystyrlon, a mynychu a chymryd rhan lawn, mewn cyfarfodydd. Dylai Llywodraeth newydd Cymru ymrwymo i barhau i ariannu’r trydydd sector i gefnogi cynrychiolwyr gofalwyr ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

5. Heriau penodol sy'n wynebu gofalwyr ifanc

“You’re running on empty, and as a young carer who wasn’t noticed for a decade, it was pure manic. I had no coping skills, I had no support, and this had been going on since I was about three or four. I got into the young carer system last year. I’m now 15”

Elektra Thomas

218. Yn ôl Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, nododd Cyfrifiad 2021 gynnydd amlwg yng nghyfran y plant a'r oedolion ifanc sy'n darparu lefelau sylweddol o ofal:

“when using 20 hours of care as an indicator, the proportion of young carers and young adult carers in Wales providing significant levels of care increased from 15 per cent to 27 per cent between 2011 and 2021.

For those providing 50 hours of care a week, this increased from 12 per cent to 15 percent.

I think we can all agree that 50 hours of care is substantial for anyone, let alone a child juggling that with full-time education. The census also made clear that young carers are more likely to live in areas of high deprivation than their peers without a caring role.”¹⁴⁹

219. Disgrifiodd y gofalwyr ifanc y gwnaethom siarad â nhw effaith eu rôl ofalu ar eu bywydau. Can ddisgrifio'r frwydr feddyliol o fod yn ofalwr ifanc, dywedodd Albie Sutton wrthym:

“my mind just feels like a hive of bees.

There are just (...) so many things to think about. I get home at the end of the day and I’m like, ‘Oh my god, I’ve got to do this, I’ve got to do that.’”¹⁵⁰

¹⁴⁹ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 10

¹⁵⁰ Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraff 388

220. Yn ôl gofalwyr ifanc, mae’n anodd iddynt ddilyn eu diddordebau neu gymdeithasu. Fe wnaethant ddweud eu bod yn teimlo’n ynysig iawn yn eu rôl ofalu, yn enwedig gartref, a’u bod bob amser yn gaeth i’r tŷ gan nad oes neb i gymryd yr awenau.¹⁵¹

221. Fe wnaethant hefyd sôn am sut y mae eu rôl ofalu yn rhwystr enfawr i gyflogaeth:

“Nearly all my peers at school and people my age have a part-time job and have the time to go out and work and earn their own money to save up or spend. I don’t have this opportunity. Because of my caring role and the time it takes out of my week, I can’t go out and work and I therefore won’t have the opportunities others will have such as paying for car or health insurance, MOT, house deposit, or starting myself off for University, whereas everyone else will.

My caring role in itself is equivalent to a part-time job, as it is for all young carers, but the difference is that we don’t get paid for it and provide our care for free.”¹⁵²

Gofalwyr ifanc mewn addysg

“Young carers in Wales miss more than six full school weeks each year in comparison to young people without caring responsibilities, who miss about 13 days.

It’s no wonder, therefore, why young carers are achieving less at school and they are less likely to go on into further and higher education, and if they do make it to university, they’re less likely than their peers to actually graduate.”¹⁵³

Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru

222. Dywedodd gofalwyr ifanc wrthym fod ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc ymhlith staff ysgolion a cholegau yn wael yn gyffredinol, a bod angen mwy o

¹⁵¹ Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraff 389

¹⁵² Cofnod y Trafodion, paragraff 389, o’r wybodaeth ychwanegol sydd wedi’i chynnwys yn y troednodyn i’r paragraff hwnnw

¹⁵³ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 11

hyfforddiant a hyfforddiant mwy cyson er mwyn i staff addysgu a staff eraill mewn ysgolion gydnabod a chefnogi gofalwyr.

223. Dywedodd Elektra Thomas, gofalwr ifanc, wrthym:

“It’s [‘young carer’] not a term that’s heard of often, especially when it came around to my school, it still wasn’t known as anything. My friends don’t know what a young carer is, and it’s quite difficult trying to explain to my friends that I’m a young carer”¹⁵⁴

224. Roedd Ffion-Hâf Scott, gofalwr ifanc, yn cytuno gan ddweud wrthym nad oedd ei hathrawon yn aml yn deall y cyfrifoldebau sy’n dod law yn llaw â bod yn ofalwr ifanc:

“I remember going to my teacher—we had a piece of coursework—and saying, ‘Listen, I can’t do this right now. I can’t do this coursework. Bydd yn rhaid i chi fy methu. If you do fail me, that’s fine, but I need you to know that I just can’t do this right now.’ And their response was, ‘Well, you have too much on your plate and you need to take things off your plate.’ And I was like, ‘It’s very bold of you to stand where you’re stood and say that to me, because it’s not a choice to take on the things that we do take on.’”¹⁵⁵

225. Dywedodd Albie Sutton, gofalwr ifanc, ei fod wedi cael cyfle yn ddiweddar i siarad yn ei ysgol am ofalwyr ifanc a sut i’w hadnabod. Dywedodd fod hyn wedi gwneud gwahaniaeth mawr, a bod y niferoedd yn ei grŵp gofalwyr ifanc lleol wedi cynyddu o ganlyniad. Teimlai y dylai codi ymwybyddiaeth fel hyn ddigwydd ar lefel genedlaethol, gan wneud pobl, athrawon, staff a chyflogwyr yn ymwybodol o ofalwyr ifanc a sut i’w hadnabod drwy sylwi ar arwyddion fel bod yn hwyr neu yr wyneb blinedig oherwydd diffyg cwsg neu rywun sydd wastad yn edrych yn bryderus. Dywedodd:

“being able to recognise the sign of a young carer and knowing how to help them, knowing to refer them to certain support

¹⁵⁴ Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraff 405

¹⁵⁵ Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraff 400

groups or knowing what to say to them, I think that would be such a key thing.”¹⁵⁶

226. Teimlai gofalwyr ifanc y dylai ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc fod yn rhan greiddiol o hyfforddiant staff mewn ysgolion, ac y dylai gofalwyr ifanc fod yn rhan o'r hyfforddiant hwnnw. Fe wnaethant hefyd ddweud wrthym y dylid cynnwys rolau gofalu, gan gynnwys gofalwyr ifanc, yn y cwricwlwm:

“It’s mandatory for teachers to do first aid training, at least on some level, it’s mandatory for teachers to know about additional needs and things like that. But it’s not mandatory for teachers to know about young carers. (...) It shouldn’t be something that’s just thought about as an extra.”¹⁵⁷

227. Dywedodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru fod rhai enghreifftiau o arfer da a phrofiadau cadarnhaol mewn ysgolion, gyda gofalwyr ifanc yn disgrifio'r rôl bwysig y mae Arweinydd Gofalwyr Ifanc yn ei chwarae o ran eu harwain drwy eu haddysg a'u rôl ofalu. Cyfeiriwyd hefyd at Ysgol Uwchradd Radyr fel enghraifft o arfer da, gan fod ganddi weithiwr cymorth penodedig i ofalwyr ifanc. Fodd bynnag, clywsom nad yw'r profiad hwn yn cael ei efelychu ym mhob ysgol, a dywedodd gofalwyr ifanc eraill wrthym nad oes staff gofalwyr ifanc penodedig yn eu hysgol, a bod diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth. Dywedodd un gofalwr ifanc yn ein trafodaeth bord gron nad oedd cymorth ar gael o gwbl i ofalwyr ifanc yn ei ysgol.

228. Yn ôl Albie Sutton, y profiad gorau a gafodd ef oedd gallu datblygu cysylltiad personol ag athro penodol sy'n deall y pwysau sy'n gysylltiedig â bod yn ofalwr ifanc:

“He’s [previous head of year] the only person I’ve trusted with everything that goes on outside of school and the stuff I’m having to do at home. And he’s put stuff in place. He’s had a conversation with my parents about my caring role. (...). It’s stuff like that, those little acts that he’s done that amount to a bigger thing and really show a gesture of his kindness. (...) It’s not a support system necessarily, but it’s the sympathy I’ve got from

¹⁵⁶ Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraff 409

¹⁵⁷ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraffau 438-9

my head of year for my caring role. That's the best thing that's happened to me at school to help in my caring role.”¹⁵⁸

229. Dywedodd gofalwyr ifanc wrthym fod angen hyblygrwydd, cefnogaeth a dealltwriaeth arnynt pan fyddant yn yr ysgol, ac y dylid cynnig amser ychwanegol iddynt mewn arholiadau os oes angen. Yn ôl rhai, roeddent yn dal i gael stŵr am fod yn hwyr neu am fethu dyddiadau cau oherwydd eu cyfrifoldebau gofalu. Dywedodd gofalwyr ifanc wrthym hefyd y gall y ‘polisi dim ffôn’ mewn ysgolion wneud pethau’n anoddach iddynt oherwydd nad ydynt yn gallu cysylltu â’r sawl y maent yn gofalu amdano i sicrhau ei fod yn iawn.

“(...) one of the biggest things that was a support for me in school, that I didn't realise until I saw other people have it taken away, was having my phone on me. I wasn't sat in the back of the class playing a game, taking pictures on Snapchat; I was checking my phone to see if anybody rang me, if my mum needed me, if she was okay, if it had been a rough night, if anything had happened to my sister while I was gone or if anyone was trying to get hold of me. Those are things that I was able to do.”¹⁵⁹

230. Dywedodd gofalwyr ifanc nad oedd bod yn yr ysgol yn seibiant o’u rôl ofalu, ac yn hytrach, eu bod yn poeni drwy gydol y diwrnod ysgol am y sawl y maent yn gofalu amdano, sy’n ei gwneud yn anodd iddynt ganolbwyntio ar eu gwaith. Dywedodd Elektra Thomas, gofalwr ifanc, wrthym:

“You take them [your caring responsibilities] with you, and you can't focus on your work because you're trying to focus, again, on, 'Is my brother okay?', 'Is my sister okay?' You're wondering what's happened. (...) school's not on your mind, and I don't think it would be for most young carers. Your main concern and your main thought is, 'Are they okay?', 'What's going on?'”¹⁶⁰

231. Gwnaed pwyntiau tebyg gan Ffion-Hâf Scott ac Albie Sutton.

¹⁵⁸ Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraff 423

¹⁵⁹ Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraff 436

¹⁶⁰ Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraff 447

232. Dywedodd gofalwyr ifanc wrthym fod eu cyfrifoldebau gofalu yn cyfyngu ar eu rhagolygon ar gyfer y dyfodol, gyda rhai yn ansicr a fyddant yn gallu mynd ymlaen i addysg uwch gan fod eu hangen gartref. Meddai Albie Sutton:

“it’s [my caring role is] making me really debate in my mind whether I’m going to be able to pursue further education and am I going to be able to go on to university (...) because there’s no-one who can take over from me.”¹⁶¹

233. Dywedodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, drwyddi draw, fod gormod o bobl ifanc yn dweud wrthi nad ydynt yn cael eu hadnabod na’u cefnogi yn yr ysgol, a bod rhai yn colli eu lwfans cynhaliaeth addysg oherwydd eu bod yn colli ysgol yn sgil eu rôl ofalu.¹⁶²

234. Roedd CLILC ac ADSS Cymru yn cydnabod rôl gwbl hanfodol ysgolion o ran adnabod gofalwyr ifanc, a’r gefnogaeth sydd ei hangen ar athrawon i allu gwneud hyn. Dywedodd Claire Marchant, Cadeirydd ADSS Cymru, wrthym fod hwn yn faes lle mae rhywfaint o arferion arloesol da iawn ledled Cymru, gan gyfeirio at enghreifftiau o hyrwyddwyr gofalwyr ifanc, cymorth gan gymheiriaid, a rhwydweithiau o lysgenhadon a gofalwyr ifanc ar draws lleoliadau addysgol.¹⁶³

235. Tynnodd Dilwyn Morgan, llefarydd CLILG dros iechyd a gofal cymdeithasol, sylw at ddatblygiad hyfforddiant rhanbarthol i athrawon a staff ysgolion “fel eu bod nhw’n ymwybodol o sut i gefnogi’r gofalwyr ifanc, a hefyd i ddod ag ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc yn rhan o’r cwricwlwm”. Cyfeiriodd hefyd at yr angen am well integreiddio rhwng gofal ac addysg i sicrhau bod athrawon yn gallu cyfeirio gofalwyr ifanc at y gwasanaethau cymdeithasol am gymorth. Disgrifiodd y rhaglen hyfforddi ar gyfer hyn fel gwaith sy’n dal ar y gweill.¹⁶⁴

236. Tynnodd sylw hefyd at bwysigrwydd technoleg gan gyfeirio at “ap ID” sy’n cael ei ddatblygu gyda chynghor Ynys Môn i ganiatáu i ddisgyblion “gysylltu â’r ysgol i ddweud, ‘Byddaf i’n hwyr heddiw’, ac yn y blaen, ‘Mae mam yn wael’, ac wedyn dŷn nhw ddim yn gorfod dod i mewn i’r dosbarth yn hwyr, yr athro ddim yn ymwybodol, ac yn achosi embaras ac yn y blaen”¹⁶⁵.

¹⁶¹ Cofnod y Trafodion, 4 Rhagfyr 2025, paragraff 391

¹⁶² Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 91

¹⁶³ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 275

¹⁶⁴ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 282

¹⁶⁵ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 278

Tystiolaeth gan y Gweinidog

237. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi gweithio gydag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru i ddatblygu deunyddiau diwygiedig ar gyfer staff addysg er mwyn iddynt ddeall mwy am ofalwyr ifanc ac ymgysylltu â disgyblion. Dywedodd y byddai'r wybodaeth hon “ar gael i bob aelod o staff addysg ar ddechrau 2026”.¹⁶⁶

238. Cyfeiriodd at Gynllun Cymorth Cyflogadwyedd wedi'i Dargedu Llywodraeth Cymru sy'n galluogi darparwyr Addysg Uwch i gefnogi cyflogadwyedd myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc. Dywedodd wrthym hefyd y gall gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc o aelwydydd incwm isel gael mynediad at y Lwfans Cynhaliaeth Addysg, Grant Dysgu Llywodraeth Cymru a'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn os ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysra.¹⁶⁷

239. Yn fwy cyffredinol, fe wnaethom holi'r Gweinidog ynglŷn â darparu cymorth iechyd meddwl i ofalwyr ifanc. Meddai'r Gweinidog:

“Young carers (...) are recognised as a vulnerable group for obvious reasons, and so their mental health and well-being is in our NEST self-assessment, which asks services across sectors to consider the needs of young carers when reflecting on, delivering and improving their service.

So, regional partnership boards, through their children and young people sub-groups, are looking to improve the pathways, right the way across the sector, for mental health and well-being. They complete NEST self-assessments biannually, where they report on progress against the NEST principles of trusted adults and providing community-based mental health and well-being support.”¹⁶⁸

Data am ofalwyr ifanc

240. Yn ôl Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, o ran gofalwyr ifanc, ysgolion a cholegau (yn hytrach na gwasanaethau cymdeithasol) o bosibl yw'r prif gyswllt

¹⁶⁶ Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, tystiolaeth ysgrifenedig, 22 Ionawr 2026

¹⁶⁷ Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, tystiolaeth ysgrifenedig, 22 Ionawr 2026

¹⁶⁸ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2026, paragraff 106

statudol ar gyfer nodi cyfrifoldebau gofalu. Er gwaethaf hynny, meddai, roedd prinder data ynghylch gofalwyr ifanc mewn ysgolion yng Nghymru o'u cymharu â gwledydd eraill y DU.

241. Dywedodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, er mwyn cefnogi'r broses o adnabod gofalwyr ifanc yn yr ysgol ac olrhain eu cyrhaeddiad, y dylid ychwanegu gofalwyr ifanc fel categori at y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), neu system gyfatebol, ochr yn ochr â phlant sydd wedi bod mewn gofal a'r rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

242. Dywedodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ei bod wedi galw ers tro am weithredu argymhelliad a wnaed gan Estyn i Lywodraeth Cymru yn 2019 yn llawn¹⁶⁹ (a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru) i “lunio data dibynadwy a gesglir yn genedlaethol i helpu nodi gofalwyr ifanc.” Dywedodd wrthym fod systemau cyfatebol eisoes ar waith yn yr Alban ac yn Lloegr, yn olrhain cyrhaeddiad a chyrchfannau gofalwyr ifanc.¹⁷⁰

Tystiolaeth gan y Gweinidog

243. Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi cychwyn dull tri cham ar gyfer gwella prosesau casglu data, a fydd yn cael ei ddatblygu dros gyfnod o ddwy flynedd. Nododd:

“Caiff y cam cyntaf ei gwblhau yn hanner cyntaf 2026 a bydd yn coladu data o'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, gan roi cipolwg ar brofiad gofalwyr ifanc yn yr ysgol a'u llesiant.

Bydd cam dau yn cysylltu'r wybodaeth hon â data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw ac yn golygu y gellir cymharu cyrhaeddiad addysgol gofalwyr ifanc o gymharu â'u cyfoedion. Rydym hefyd yn ystyried dull dibynadwy hirdymor pellach o gasglu data, gan gynnwys ystyried gwneud newidiadau deddfwriaethol i'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) er mwyn cynnwys gofalwyr ifanc.”¹⁷¹

244. Mewn gohebiaeth ddiweddar, cadarnhaodd fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn cwblhau adroddiad ar lesiant a phrofiad addysgol gofalwyr ifanc, yn

¹⁶⁹ [Darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc mewn ysgolion uwchradd, colegau addysg bellach ac unedau cyfeirio disgyblion ledled Cymru](#), Estyn, Mai 2019

¹⁷⁰ UC18

¹⁷¹ [Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, tystiolaeth ysgrifenedig, 22 Ionawr 2026](#)

“Sefyllfa argyfyngus”

Yr angen i fynd ati ar frys i wella cymorth i ofalwyr di-dâl

seiliedig ar ganfyddiadau gan y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion. Dywedodd fod yr adroddiad hwn yn adlewyrchu cam cyntaf y gwaith i wella argaeledd data a’n dealltwriaeth o ganlyniadau i ofalwyr ifanc.¹⁷²

Cardiau Adnabod Gofalwyr Ifanc

245. Rhaglen genedlaethol gan Lywodraeth Cymru a gynlluniwyd i helpu gweithwyr proffesiynol, fel meddygon, athrawon a fferyllwyr, i adnabod gofalwyr ifanc yng Nghymru yw’r Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc.

246. Dywedodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru wrthym, pan ddaeth cyllid sbarduno ar gyfer gweithredu’r rhaglen i ben yn 2023, fod rhai awdurdodau lleol wedi dadflaenoriaethu’r ddarpariaeth. Dywedodd:

“young carers in these areas tell us their local authority is no longer issuing YCIDs, or will not renew expired cards”.

247. Adleisiwyd y pwynt hwn gan y gofalwyr ifanc y clywsom ganddynt yn ein trafodaethau bord gron, anffurfiol.

248. Dywedodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru hefyd fod ardaloedd awdurdodau lleol eraill yn ei gwneud yn ofynnol i ofalwr ifanc fod wedi cael Asesiad o Anghenion Gofalwr Ifanc er mwyn bod yn gymwys i gael y cerdyn, ond yn aml mae rhestrau aros hir ar gyfer asesiadau.

249. Galwodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru am ffocws o’r newydd ar gyflawni’r rhaglen, sy’n arwain at fanteision pendant i ofalwyr ifanc ac ymwybyddiaeth ymhlith y gweithwyr proffesiynol y gallent ddod ar eu traws.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

250. Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog yn dweud bod cardiau adnabod gofalwyr ifanc yn offeryn allweddol i helpu i nodi gofalwyr ifanc mewn ysgolion, colegau a fferyllfeydd. Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi deunyddiau newydd ym mis Rhagfyr 2024 i alluogi pob awdurdod lleol i hyrwyddo’r cynllun Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc a’i bod “wedi ymgysylltu ag awdurdodau lleol ynglŷn â chamau pellach i sicrhau bod cynifer o ofalwyr ifanc â

¹⁷² Gohebiaeth gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 26 Chwefror 2026

phosibl yn manteisio ar gynlluniau o’r fath, ac mae’r camau hyn yn cael eu hystyried ar hyn o bryd”.¹⁷³

251. Fe wnaethom herio’r Gweinidog ynglŷn â’r ffaith bod rhai awdurdodau lleol yn dadflaenoriaethu’r cardiau. Dywedodd Denise Moultrie, pennaeth polisi gofalwyr di-dâl, Llywodraeth Cymru, wrthym, er bod rhai awdurdodau lleol yn weithgar iawn gyda Chardiau Adnabod Gofalwyr Ifanc, nid felly awdurdodau lleol eraill, lle mae’r cynlluniau cardiau’n bodoli, ond efallai y byddai eu gofalwyr ifanc yn ystyried bod rhwystrau o ran cael gafael arnynt, neu nad ydynt yn cael eu hadnewyddu’n gyflym iawn. Dywedodd mai arian a phobl oedd y rhwystrau.¹⁷⁴

252. Meddai’r Gweinidog wrthym:

“Money should not be the barrier to this.

*I cannot believe that this is just about money. And if it is, if this very small amount of money is the only barrier, then I’m quite happy to go back and have a look and see whether we can find a bit more money, because it really is a relatively small amount.”*¹⁷⁵

253. Dywedodd ei bod wedi cael sgysiau gyda gofalwyr ifanc â cherdyn adnabod, a’u bod wedi dweud wrthi ei fod yn gwneud gwahaniaeth mawr iddynt yn eu bywyd ysgol, a bod hyn yn rhywbeth sy’n cael ei ystyried ar draws y Llywodraeth, gan gynnwys gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

254. Mewn gohebiaeth ddilynol, dywedodd “os ydym yn gallu nodi unrhyw gymorth ariannol y flwyddyn ariannol hon i’r awdurdodau lleol hynny lle bydd hyn yn adfywio eu cynllun cardiau adnabod Gofalwyr Ifanc, byddwn yn gwneud hynny”.¹⁷⁶

255. Yn fwy cyffredinol, tynnodd Denise Moultrie sylw at y rhwydwaith ymchwil iechyd ysgolion, sef arolwg i bobl ifanc ei gwblhau sy’n cynnwys cwestiynau yn gofyn i bobl ifanc a ydynt yn ofalwyr. Dywedodd fod cynlluniau i wneud mwy gyda hynny yn y dyfodol.¹⁷⁷

¹⁷³ [Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, tystiolaeth ysgrifenedig, 22 Ionawr 2026](#)

¹⁷⁴ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2026, paragraff 133

¹⁷⁵ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2026, paragraffau 138-141

¹⁷⁶ [Gohebiaeth gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, 26 Chwefror 2026](#)

¹⁷⁷ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2026, paragraff 147

Ein barn ni

256. Mae gofalwyr ifanc yn wynebu heriau penodol sy’n gofyn am gymorth wedi’i deilwra. Ni ddylai unrhyw ofalwr ifanc orfod aberthu ei addysg na’i ragolygon ar gyfer y dyfodol oherwydd ei gyfrifoldebau gofalu.

257. Fe wnaethom siarad yn uniongyrchol â nifer o ofalwyr ifanc am sut beth yw bywyd iddyn nhw, a chawsom ein cyffwrdd yn fawr gan yr hyn a ddywedwyd wrthym. Mae’r cariad a’r gofal y maent yn eu darparu i’w teuluoedd bob dydd yn eithriadol, ond yn aml mae cost bersonol sylweddol i hynny, ac mae’n effeithio ar eu hiechyd, eu llesiant a’u cyrhaeddiad addysgol. Rydym yn cymeradwyo eu hymroddiad a’u gwydnwch.

258. Rydym yn mynnu na ddylid gadael plant a phobl ifanc i ysgwyddo’r baich sy’n gysylltiedig â lefelau amhriodol o ofal. Rhaid i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, ynghyd â gwasanaethau addysg ac iechyd, weithredu i ysgafnhau’r baich hwnnw a sicrhau bod gofalwyr ifanc yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i ffynnu yn eu haddysg, eu hiechyd a’u bywydau personol.

259. Credwn fod yn rhaid gwneud llawer mwy i sicrhau bod gofalwyr ifanc yn cael eu nodi, eu cefnogi, a’u bod yn cael yr un cyfleoedd bywyd â phlant a phobl ifanc eraill. Mae angen ymgorffori ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc mewn ysgolion a cholegau fel bod athrawon a staff yn gallu adnabod arwyddion person ifanc sy’n cael trafferth oherwydd cyfrifoldebau gofalu.

260. I’r perwyl hwn, rydym yn croesawu’r ffaith bod deunyddiau diwygiedig yn cael eu datblygu ar gyfer staff addysg er mwyn cynyddu’r ddealltwriaeth o ofalwyr ifanc a’u hannog i ymgysylltu â disgyblion. Nodwn y dylai’r wybodaeth hon fod ar gael i bob aelod o staff addysg yn gynnar yn 2026, ac awgrymwn y dylai’r pwyllgor a fydd yn ein holynu ofyn am gadarnhad o hyn yn gynnar yn nhymor y Senedd nesaf.

261. Rydym yn cefnogi’r alwad i ddarparu hyfforddiant a chanllawiau i holl staff ysgolion ar ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc, ac rydym yn credu y dylai gofalwyr ifanc eu hunain fod yn rhan o ddylunio a chyflwyno’r hyfforddiant hwnnw er mwyn rhannu eu safbwyntiau.

262. Rydym hefyd yn cefnogi integreiddio gofalwyr ifanc i fframweithiau llesiant o fewn ysgolion, fel bod pob myfyriwr yn dysgu am rolau gofalu, lleihau stigma a helpu cyfoedion ac athrawon i fod yn fwy cefnogol.

263. Roeddem yn bryderus ac wedi ein tristau yn fawr o glywed am yr effaith ar iechyd meddwl gofalwyr ifanc, eu bod yn poeni’n gyson am y person y maent yn gofalu amdano pan na fyddant gyda’r person hwnnw. Rhaid i ofalwyr ifanc gael gwell mynediad at wasanaethau iechyd meddwl. Yn gysylltiedig â hyn, rydym yn cydnabod bod gofalwyr ifanc wedi codi eu pryderon gyda ni ynghylch y ffaith bod ganddynt fynediad cyfyngedig neu ddim mynediad o gwbl at eu ffonau symudol yn ystod y dydd i gysylltu â’r sawl y maent yn gofalu amdano. Credwn y dylai Llywodraeth newydd Cymru, yn ogystal â manau dysgu, fod yn ymwybodol o’r pryderon hyn, ac anghenion penodol gofalwyr ifanc yn hyn o beth, wrth ddatblygu polisiau yn y dyfodol ynghylch mynediad at ffonau symudol yn ystod y diwrnod ysgol.

Argymhelliad 29. Dylai Llywodraeth newydd Cymru sicrhau bod hyfforddiant a chanllawiau i staff ysgolion ynglŷn â gofalwyr ifanc yn cael eu datblygu a’u darparu, a’u cydgynhyrchu gan ofalwyr ifanc.

Argymhelliad 30. Dylai Llywodraeth newydd Cymru annog pob ysgol a choleg yng Nghymru i benodi hyrwyddwr gofalwyr ifanc neu aelod arweiniol o staff â chyfrifoldeb dros ofalwyr ifanc. Dylai Llywodraeth newydd Cymru ymchwilio i ymgorffori addysg am ofalwyr ifanc mewn rhaglenni neu fframweithiau llesiant, fel bod pob myfyriwr a staff yn ymwybodol o beth yw gofalwyr ifanc a sut i gael cymorth iddynt.

Argymhelliad 31. Rhaid i Lywodraeth newydd Cymru sicrhau bod hawliau gofalwyr ifanc yn cael eu cynnal yn llawn ac nad oes unrhyw blentyn na pherson ifanc yn gorfod darparu lefelau amhriodol o ofal. Dylai Llywodraeth newydd Cymru gyhoeddi canllawiau newydd sy’n pwysleisio bod gan ofalwyr ifanc hawl i beidio ag ysgwyddo cyfrifoldebau gofalu gormodol neu amhriodol, ac sy’n amlinellu cyfrifoldebau awdurdodau lleol, ysgolion, a gwasanaethau iechyd a chymdeithasol i gefnogi gofalwyr ifanc yn unol â hynny.

Data am ofalwyr ifanc

264. O ran data am ofalwyr ifanc, mae’n arbennig o siomedig nad oes gan Gymru, yn wahanol i Loegr a’r Alban, ffordd systematig eto o gofnodi nifer y gofalwyr ifanc mewn ysgolion na monitro eu deilliannau addysgol. Mae hwn yn amryfusedd amlwg ac, yn anochel, yn ei gwneud hi’n anoddach cynllunio cymorth neu fesur cynnydd.

265. Mae’n hanfodol casglu data gwell am ofalwyr ifanc. I’r perwyl hwn, rydym yn cefnogi’r galwadau y mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru wedi’u gwneud ers

“Sefyllfa argyfyngus”

Yr angen i fynd ati ar frys i wella cymorth i ofalwyr di-dâl

tro byd i weithredu'r argymhellion a wnaed gan Estyn yn 2019 yn ymwneud â data gofalwyr ifanc yn llawn. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad hwn ond mae'r cynnydd wedi bod yn araf o ran cyflawni'r gwelliannau angenrheidiol. Rhaid i Lywodraeth newydd Cymru gyflymu gwaith yn y maes hwn.

Argymhelliad 32. Rhaid i Lywodraeth newydd Cymru gyflymu'r gwaith o weithredu'n llawn yr argymhellion ynghylch data am ofalwyr ifanc a wnaed gan Estyn yn ei adroddiad a gyhoeddwyd yn 2019.

266. Yn fwy cyffredinol, hoffem bwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod gofalwyr ifanc yn cymryd rhan uniongyrchol mewn cyd-ddylunio polisïau sy'n effeithio arnynt. Mae hyn yn cynnwys rhoi llais i ofalwyr ifanc wrth weithredu'r Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl ac wrth ddatblygu canllawiau ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol.

267. Rydym hefyd yn credu y dylai Llywodraeth newydd Cymru roi ystyriaeth i benodi o leiaf un cynrychiolydd gofalwyr ifanc (naill ai person ifanc neu rywun sy'n gweithio'n agos gyda gofalwyr ifanc) ym mhob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn sicrhau bod eu barn yn cael ei chlywed wrth gynllunio gwasanaethau rhanbarthol. Yn ogystal â hynny, dylai pob awdurdod lleol ystyried penodi Hyrwyddwr Gofalwyr Ifanc ar lefel y Cabinet neu uwch reolwyr i eiriol dros faterion gofalwyr penodol i bobl ifanc mewn prosesau gwneud penderfyniadau lleol.

Cardiau adnabod gofalwyr ifanc

268. O ran cardiau adnabod Gofalwyr Ifanc, credwn fod hon yn fenter gadarnhaol iawn a ddylai fod ar gael yn gyson ledled Cymru. Mae'n annerbyniol bod y cynllun wedi dod i ben mewn rhai ardaloedd, a bod rhwystrau diangen yn bodoli i ofalwyr ifanc allu cael mynediad at y cerdyn.

269. Mae cardiau adnabod ar gyfer gofalwyr ifanc yn syml ac yn rhad, ond maent yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r bobl ifanc sydd â'r cardiau hyn. Felly, rydym yn annog y Gweinidog i ganfod cyllid ychwanegol o fewn cyllidebau perthnasol Llywodraeth Cymru i'w ddefnyddio'n uniongyrchol i gefnogi cyflwyno cynlluniau cardiau adnabod gofalwyr ifanc ar draws yr holl awdurdodau lleol. Dylid gwneud hyn ar fyrder, a monitro'r canlyniadau.

Argymhelliad 33. Dylai Llywodraeth Cymru nodi cyllid ychwanegol o fewn cyllidebau perthnasol Llywodraeth Cymru, a hynny ar fyrder, er mwyn darparu cymorth uniongyrchol i gyflawni cynllun cardiau adnabod gofalwyr ifanc yn llawn ar draws pob awdurdod lleol. Dylai fonitro canlyniadau'r camau gweithredu hyn.

Argymhelliad 34. Dylai Llywodraeth newydd Cymru annog awdurdodau lleol yn gryf i gynyddu'r defnydd o'r cerdyn adnabod gofalwyr ifanc a dylai gyhoeddi data blynyddol ar nifer y cardiau adnabod gofalwyr ifanc a gyhoeddwyd gan bob awdurdod lleol er mwyn olrhain y cynnydd o ran cyflawni'r cynllun.

6. Data ar ofalwyr di-dâl

270. Roedd diffyg data ar ofalwyr di-dâl yn thema allweddol yn y dystiolaeth a gawsom. Yn ôl Gofalwyr Cymru:

“The paucity of data with regard to unpaid carers and how it’s collected across Wales is shocking.

If you look at our ‘Track The Act’ reports, you’ll see that we ask local authorities and health boards the same set of questions every year, and have done since 2016, aside from the pandemic. Still, nine years on from the Act being implemented, basic questions with regard to carers in their local area and then how that fits into a regional picture are not able to be answered. There are local authorities who cannot quantify how many carers’ needs assessments they could, in theory, carry out over the course of a 12-month period.”¹⁷⁸

271. Dywedodd Gofalwyr Cymru wrthym fod prosesau casglu data gwael yn tanseilio’r gallu i gofnodi anghenion heb eu diwallu yn gywir ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, a mynd i’r afael â hynny ac asesu’r lefelau:

“Given the fact that the vast majority of unpaid carers have not had their legal entitlement to an assessment of their needs fulfilled, we have serious concerns about the ability of decision makers at any level to confidently articulate the level of carer need in their area”.¹⁷⁹

272. Dadleuodd y dylid cyflwyno trefniadau casglu data gwell, sy’n fwy cydlynol a chymharol ledled Cymru, gan ddweud y byddai angen arweinyddiaeth ac ysgogiad gan y Llywodraeth er mwyn cydgysylltu hynny. Roedd Gofalwyr Cymru yn teimlo’n gryf mai Llywodraeth Cymru, nid Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol nac awdurdodau lleol, ddylai ysgwyddo’r cyfrifoldeb hwn.¹⁸⁰

273. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac ADSS Cymru wrthym nad yw data’n cael ei gasglu ar amseroedd aros ar gyfer asesiadau a gwasanaethau

¹⁷⁸ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 53

¹⁷⁹ UC31

¹⁸⁰ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 166

gofalwyr. Clywsom fod y trefniadau cofnodi data gofalwyr ar draws lleoliadau gofal iechyd yn anghyson iawn. Nododd awdurdodau lleol hefyd broblem gyda defnyddio data gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gyda Jane Gebbie, llefarydd CLILC dros iechyd a gofal cymdeithasol, yn dweud:

“one of the problems that we have in Wales is that we don’t use data consistently from regional partnership boards. I know that, as regional partnership boards’ chairs, that is one of the things that we have raised with the Minister themselves, and we’ve said that we need a simplified version.

So, for each grant funding stream, (...) my board shouldn’t need to (...) present different data sets for different bits of evidence. We should be presenting a data set for the regional partnership boards, shall we say. That would simplify things.”¹⁸¹

274. Roedd awdurdodau lleol yn cydnabod yr anghydweddiad yn nifer y bobl sy’n cydnabod eu bod yn ofalwyr yn y cyfrifiad a’r rhai sy’n manteisio ar wasanaethau, yn ogystal â heriau o ran sut y mae asesiadau a gomisiynwyd gan y trydydd sector yn cael eu hadlewyrchu yn nata awdurdodau lleol.

275. Gan edrych i’r dyfodol, dywedodd Claire Marchant, Cadeirydd ADSS Cymru, wrthym fod cynllun gweithredu ADSS Cymru (a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac sy’n anelu at nodi, cofnodi a chefnogi asesiadau gofalwyr yn well, a chefnogi’r gweithlu) wedi’i anelu at wella cysondeb yn y maes hwn. Dywedodd fod rhywfaint o risg yn gysylltiedig â’r newid i’r system y mae 18 awdurdod ledled Cymru yn ei wynebu yn ystod y flwyddyn nesaf o ran gallu cael y data cywir am gyfnod o amser, oherwydd bod unrhyw newid i system yn gyfnod o risg. Ond, dywedodd:

“there’s a lot of optimism when new systems are in place, that we’ll be in a better position. Also, lots of work is going on nationally around data standards as well, so all of the work that we’re doing is feeding into that area.”¹⁸²

¹⁸¹ Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 211

¹⁸² Cofnod y Trafodion, 17 Rhagfyr 2025, paragraff 230

Tystiolaeth gan y Gweinidog

276. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu, drwy Grŵp Cyngori'r Gweinidog, drefniant casglu data blynyddol statudol newydd ar ofalwyr sydd wedi cael asesiad o anghenion gofalwr:

“The new Unpaid Carers Receiving Support census, which includes young carers, has been established with the local authorities and the data for 2025/26 will be collected in 2026/27 and should be available by April 2027”.

277. Dywedodd wrthym y dylai'r trefniadau casglu data newydd roi gwell dealltwriaeth o ofalwyr ifanc ac oedolion sy'n cael eu cefnogi gan awdurdodau lleol¹⁸³, a:

“it will mean that, for the first time, there's going to be a national data set on unpaid carers. It will give us a better in-depth understanding of what is actually out there, because I'm not sure that we really know the full extent of unpaid carers.”¹⁸⁴

278. Fe wnaethom herio'r Gweinidog ynghylch casglu data mewn lleoliadau gofal iechyd. Dywedodd Denise Moultrie, pennaeth polisi ar gyfer gofalwyr di-dâl, Llywodraeth Cymru, fod hwn yn faes cymhleth ble ceir llawer o anghysondebau. Dywedodd ei fod yn gam gweithredu i Lywodraeth Cymru edrych arno'n fanylach o fewn ei strategaeth genedlaethol newydd arfaethedig, a bod Llywodraeth Cymru eisiau i fyrrddau iechyd edrych ar hynny hefyd.¹⁸⁵

Ein barn ni

279. Yn sail i lawer o'r problemau a nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn mae diffyg data'n ymwneud â gofalwyr di-dâl yng Nghymru a'u profiadau. Yn aml, ni all awdurdodau lleol ateb cwestiynau sylfaenol yn gyson, gan gynnwys nifer yr Asesiadau Gofalwyr y gellir eu cynnal mewn unrhyw flwyddyn, neu nifer y gofalwyr sy'n ceisio cymorth. Mae'r diffyg data yn ei gwneud hi'n anodd iawn gwybod gwir faint yr angen sydd heb ei ddiwallu neu i ddwyn gwasanaethau i gyfrif am welliannau.

¹⁸³ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2026, paragraff 33

¹⁸⁴ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2026, paragraff 70

¹⁸⁵ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2026, paragraff 69

280. Cydnabu cynrychiolwyr awdurdodau lleol ac ADSS fod angen data gwell, ac nad yw ymdrechion y gorffennol i rannu arferion gorau, gan gynnwys drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, wedi bod yn ddigon cryf.

281. Mae hefyd yn siomedig clywed am arferion casglu data anghyson mewn lleoliadau iechyd, heb ddull safonol ar draws byrddau iechyd ar gyfer cofnodi manylion gofalwyr di-dâl, neu pryd y dylai gofalwr fod yn rhan o broses gwneud penderfyniadau.

282. Mae data cadarn yn hanfodol i gyflawni'r gwelliannau y mae gofalwyr di-dâl wedi bod yn aros amdanynt. Mae diffyg data dibynadwy ar ofalwyr wedi galluogi problemau hirhoedlog yn y maes hwn i gael eu bychanu. Bydd data o ansawdd gwell ynddo'i hun yn sbarduno newid drwy daflu goleuni ar ble mae'r bylchau, a galluogi cynllunio mwy gwybodus a chymau gweithredu wedi'u targedu'n fwy penodol.

283. I'r perwyl hwn, rydym yn croesawu'r ffaith y bydd set ddata genedlaethol newydd ar ofalwyr di-dâl yn cael ei datblygu, ac yn nodi y bydd y data cyntaf o'r cyfrifiad hwn ar gael ym mis Ebrill 2027. Mae hyn yn dal i fod beth amser i ffwrdd, fodd bynnag, ac mae'n golygu y bydd y problemau tra hysbys yn ymwneud â'r diffyg data presennol yn parhau yn y cyfamser. Er mwyn mynd gam o'r ffordd tuag at fynd i'r afael â hyn, credwn y dylid ystyried cyhoeddi adroddiad data interim sy'n dwyn ynghyd ddata presennol ar ddangosyddion allweddol, gan gynnwys nifer y gofalwyr a nodwyd; nifer yr asesiadau a gynigiwyd ac a gwblhawyd; amseroedd aros ar gyfer asesiadau gofalwyr a chynlluniau cymorth; mathau o gymorth a ddarperir; a nifer y gofalwyr sy'n cael seibiannau.

284. O ran casglu data ar ofalwyr di-dâl mewn lleoliadau gofal iechyd, nodwn fod hwn yn gam gweithredu o fewn y strategaeth genedlaethol newydd ar ofalwyr di-dâl. Gofynnwn i Lywodraeth newydd Cymru ysgrifennu atom gyda rhagor o wybodaeth am sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithio gyda byrddau iechyd yn y maes hwn, ac rydym yn credu bod hwn yn fater y dylai'r pwyllgor sy'n ein holynu ei adolygu'n barhaus.

Argymhelliad 35. Cyn cyhoeddi'r set ddata genedlaethol newydd ar ofalwyr di-dâl ym mis Ebrill 2027, dylai Llywodraeth newydd Cymru ystyried cyhoeddi adroddiad data interim sy'n dwyn ynghyd ddata presennol ar ddangosyddion allweddol, gan gynnwys nifer y gofalwyr a nodwyd; nifer yr asesiadau a gynigiwyd ac a gwblhawyd; amseroedd aros ar gyfer asesiadau a chynlluniau cymorth i

“Sefyllfa argyfyngus”

Yr angen i fynd ati ar frys i wella cymorth i ofalwyr di-dâl

ofalwyr; y mathau o gymorth a ddarperir; a nifer y gofalwyr sy’n cael seibiannau. Dylai anelu at wneud hyn cyn diwedd 2026.

Atodiad 1: Rhestr o’r sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i’r pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o’r sesiynau tystiolaeth lafar ar wefan y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a Sefydliad
14 Rhagfyr 2025	Jusna Begum, Gofalwr di-dâl Runa Begum, Gofalwr di-dâl Kate Cubbage, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru Bobbi-Jo Haarhoff, Gofalwr di-dâl Kay John-Williams, Canolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr Chris Kemp-Philp, Gofalwr di-dâl Hazel Lim, Gofalwr di-dâl Kalpana Natarajan, Gofalwr di-dâl Sue Rendell, Gofalwr di-dâl Judith Russell, Gofalwr di-dâl Ffion-Hâf Scott, Gofalwr ifanc di-dâl Anne Soley, Gofalwr di-dâl Albie Sutton, Gofalwr ifanc di-dâl Elektra Thomas, Gofalwr ifanc di-dâl

“Sefyllfa argyfyngus”

Yr angen i fynd ati ar frys i wella cymorth i ofalwyr di-dâl

Dyddiad	Enw a Sefydliad
17 Rhagfyr 2025	Kate Cubbage, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru Y Cynghorydd Jane Gebbie, CLILC Claire Marchant, ADSS Cymru Y Cynghorydd Dilwyn Morgan, CLILC Catrin Perry, ADSS Cymru Rob Simkins, Gofalwyr Cymru Greg Thomas, Canolfan Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot
15 Ionawr 2026	Chris Ball, Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Caerdydd a'r Fro Suzie Becquer-Moreno, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro David Watkins, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
22 Ionawr 2026	Dawn Bowden AS, Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol Alistair Davey, Llywodraeth Cymru Denise Moultrie, Llywodraeth Cymru